



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Gwneud Penderfyniadau Da

Dyrannu  
Tai

Dyrannu  
Lleoedd mewn  
Ysgolion

Penderfyniadau  
Dyfarnu  
Contractau

Penderfyniadau'r  
Cabinet

Cyhoeddi  
Datganiadau

Penderfyniadau  
Pwyllgorau

Cyhoeddi  
Canllawiau

Penderfyniadau  
Cynllunio

Penderfyniadau  
Gwenidogol

Penderfyniadau'r  
Cyngor

Penderfyniadau  
am y Gyllideb

Gwneud  
Penderfyniadau  
Da

# Cynnwys

- 1 Cyflwyniad
- 2 Penderfyniadau a gweithredoedd pwy y gellir eu herio drwy adolygiad barnwrol?
- 3 A yw'r penderfyniadau o fewn cwmpas pŵer y penderfynwr?
- 4 A yw'r penderfynwr wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol neu wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol?
- 5 A yw'r penderfynwr wedi llesteirio ei ddisgresiwn drwy gymhwyso polisi anhyblyg?
- 6 A yw'r person cywir yn gwneud y penderfyniad?
- 7 A oes rhaid i'r penderfynwr gydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol penodol?
- 8 A yw unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal yn deg ac yn briodol?
- 9 A oes disgwyliad dilys ynghylch sut y dylai'r pŵer gael ei arfer?
- 10 A yw'r penderfynwr yn rhagfarnllyd neu a yw'n ymddangos yn rhagfarnllyd
- 11 A oes rhaid i'r penderfynwr roi rhesymau am ei benderfyniad?
- 12 A yw'r penderfyniad yn rhesymol?
- 13 A yw'r penderfyniad yn gymesur?
- 14 A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998?
- 15 A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus?
- 16 A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
- 17 A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â gofynion diogelu data a rhyddid gwybodaeth?
- 18 A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg?

# 1

## Cyflwyniad

*“Mae gwneud penderfyniadau da yn sgil hanfodol ar bob lefel”*

– Peter Drucker

Mae awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau’n ddyddiol. Gall pob un o’r penderfyniadau hynny gael effaith sylweddol ar fywydau pobl.

Mae’n hollbwysig felly fod awdurdodau cyhoeddus yn parchu safonau llywodraethu da ac egwyddorion Rheolaeth y Gyfraith. Hynny yw, dylai pob adran o lywodraeth ganolog a datganoledig, awdurdodau lleol, llysoedd a thribiwnlysoedd, a phob corff arall sy’n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur, weithredu o fewn y gyfraith, yn deg, a pharchu egwyddorion atebolrwydd, hygyrchedd a thryloywder. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu’n fympwyol, bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal yn llygaid i gyfraith a bod hawliau sylfaenol yn cael eu hamddiffyn. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at wneud penderfyniadau da sy’n gallu gwrthsefyll unrhyw graffu a her gyfreithiol.

Mae’r canllawiau hyn yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau da sy’n gyfreithlon ac yn cydymffurfio â Rheolaeth y Gyfraith. Mae’n gwneud hynny trwy ddisgrifio mewn termau clir a dealladwy y prif resymau dros herio gweithredoedd awdurdod cyhoeddus drwy’r weithdrefn adolygiad barnwrol. Mae hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos a chyingor ymarferol i roi dealltwriaeth i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o brosesau penderfynu da.

Mae cais am adolygiad barnwrol yn gais i'r Uchel Lys adolygu pa mor gyfreithlon yw deddfiad neu benderfyniad, gweithred neu fethiant i weithredu mewn perthynas â 'swyddogaeth gyhoeddus'. Er mwyn i'r cais symud ymlaen i wrandawriad, rhaid i'r sawl sy'n cyflwyno'r cais (yr "hawlydd"), fod â buddiant digonol yn y mater, a rhaid i'r cais gael ei wneud yn brydlon, ac o fewn tri mis beth bynnag.

Gwneir y cais ar sail un neu ragor o seiliau dros adolygu. Mae'r seiliau hyn naill ai wedi'u datblygu gan y llysoedd (seiliau 'cyfraith gyffredin' dros adolygu) neu wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae'r prif seiliau cyfraith gyffredin dros adolygu i'w gweld yn y tabl isod. Er hwylustod, maent wedi'u rhannu i gategoriâu. Fodd bynnag, mae'r ffiniau rhwng y categorïau, a'r seiliau eu hunain, yn eithaf hyblyg. Mewn llawer o achosion, bydd yr hawlydd yn ceisio dibynnu ar gyfuniad o seiliau sy'n gorgyffwrdd. Mae 'CPR' yn y tabl yn cyfeirio at Reolau Trefniadaeth Sifil 1998 (OS 1998/3132).

Ni fwriedir i'r canllawiau fod yn gyngor terfynol ar amddiffyn camau adolygiad barnwrol. Dylid cael cyngor cyfreithiol arbenigol at y diben hwnnw.

Mae hawlwyr am adolygiad barnwrol yn gwneud cais i'r Uchel Lys adolygu cyfreithlondeb:

(i) deddfiad;

(ii) penderfyniad, gweithred neu fethiant i weithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaeth gyhoeddus (rheol 54.1 CPR)

Rhaid bod gan hawlwyr 'fuddiant digonol' yn y deddfiad/penderfyniad ac ati (adran 31(3), Deddf Uwchlysoedd 1981) a rhaid iddynt wneud y cais yn brydlon ac o fewn 3 mis (rheol 54.5 CPR)

Rhaid gwneud cais am adolygiad barnwrol ar sail un neu ragor o'r seiliau cydnabyddedig ar gyfer adolygiad barnwrol. Y prif seiliau cyfraith gyffredin yw:

Anghyfreithlondeb	Amhriodoldeb gweithdrefnol	Afresymoldeb	Cymesuredd
Rhaid i'r deddfiad/penderfyniad fod o fewn cwmpas y pŵer (Pennod 3)	Gofynion gweithdrefnol gorfodol (Pennod 7)	Afresymoldeb (Pennod 12)	Cymesuredd (Pennod 13)
Ystyriaethau perthnasol/amherthnasol (Pennod 4)	Ymgynghori annilyd (Pennod 8)		
Llesteirio disgresiwn (Pennod 5)	Disgwyliad dilyd (Pennod 9)		
Dirprwyo anghyfreithlon (Pennod 6)	Rhagfarn (Pennod 10)		
	Dyletswydd i roi rhesymau (Pennod 11)		

Os yw'r Llys o'r farn bod y deddfiad/penderfyniad ac ati yn anghyfreithlon, gall ddyfarnu un neu ragor o'r rhwymedïau canlynol, yn ôl ei ddisgresiwn:

- gorchymyn gorfodol, gwahardd neu ddirymu;
- datganiad neu waharddeb;
- iawndal.

## Ystyriaethau eraill

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio hefyd â nifer o ddyletswyddau statudol. Maent yn cynnwys dyletswyddau sy'n cael eu gosod gan:

- **Deddf Hawliau Dynol 1998**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Deddf Diogelu Data 1998**
- **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ar gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Fodd bynnag, hwyrach fod rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio hefyd â dyletswyddau ac ystyriaethau eraill sy'n ymwneud â phynciau penodol, yn dibynnu ar gyd-destun y penderfyniad neu'r weithred sydd ganddynt mewn golwg. Un enghraifft yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, ac unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Enghraifft arall yw bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Gall methiant awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â rhai o'r dyletswyddau hyn arwain at achos adolygiad barnwrol. Mae'r canllawiau'n cynnwys manylion canlyniadau posibl methiant i gydymffurfio â **Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, er bod y rhain yn llai tebygol o arwain at heriau adolygiad barnwrol. Yn hytrach, mae'r Deddfau hynny'n darparu ar gyfer rhwymedïau penodol (e.e. adroddiadau ar benderfyniadau i'w cyhoeddi gan y Comisiynydd Gwybodaeth/Comisiynydd y Gymraeg a chosbau ariannol penodol).

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio hefyd â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd ("UE"), a gall methiant i wneud hynny arwain at herio penderfyniad ar y sail ei fod yn anghyfreithlon. Mae manylion dyletswyddau a rhwymedigaethau awdurdodau cyhoeddus o dan gyfraith yr UE y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn. Fodd bynnag, nodir er cyflawnrwydd fod dyletswydd o hyd ar awdurdodau cyhoeddus, er gwaethaf canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd yn y DU ar 23 Mehefin 2016, i gydymffurfio â chyfraith yr UE a bydd unrhyw fethiant i wneud hynny'n parhau i allu cael ei herio yn y llysoedd domestig tan yr adeg nad yw cyfraith yr UE yn gymwys yn y DU.

## 2 Penderfyniadau a gweithredoedd pwy y gellir eu herio drwy adolygiad barnwrol?

Gweithdrefn yw adolygiad barnwrol sy'n galluogi pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan benderfyniad neu weithred awdurdod cyhoeddus i wneud cais i'r Uchel Lys am ryddhad rhag y penderfyniad neu weithred dan sylw. Er mwyn rhoi rhyddhad, rhaid bod un neu ragor o'r seiliau ar gyfer adolygiad yn gymwys (fel y trafodir ym mhenodau 3 i 13). Mae'r seiliau ar gyfer adolygiad, a elwir yn seiliau ar gyfer adolygiad 'cyfraith gyffredin', wedi cael eu datblygu dros amser gan y llysoedd, ac nid ydynt wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.

---

Dim ond os yw penderfyniadau neu weithredoedd awdurdod cyhoeddus yn cael eu gwneud mewn perthynas ag arfer 'swyddogaeth gyhoeddus' y gellir eu herio drwy adolygiad barnwrol. Bydd y Llys yn ystyried ffactorau amrywiol wrth farnu a yw'r penderfyniad neu weithred yn ymwneud â swyddogaeth gyhoeddus, yn cynnwys ffynhonnell y pŵer sy'n cael ei arfer a natur gweithgareddau'r awdurdod cyhoeddus, yn cynnwys ei gyllid ac a yw ei benderfyniadau'n rhai sy'n rhwymo ai peidio.

---

Mae gan y Llys ddisgresiwn eang o ran penderfynu beth sy'n cyfrif fel penderfyniad y gellir ei adolygu. Yn gyffredinol, mae'n arfer dehongliad eang.

---

Yn ogystal ag adolygiad barnwrol ar seiliau cyfraith gyffredin, gall deddfwriaeth ddarparu ar gyfer seiliau penodol dros gynnal adolygiad barnwrol. Er enghraifft, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi na all 'awdurdodau cyhoeddus' weithredu'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac y gall dioddefwr gweithred anghyfreithlon gan awdurdod cyhoeddus wneud cais i'r llysoedd am adolygiad o gyfreithlondeb gweithredoedd yr awdurdod cyhoeddus.

---



## Beth yw adolygiad barnwrol?

Gweithdrefn yw adolygiad barnwrol sy'n galluogi person sydd wedi cael ei effeithio gan benderfyniad, gweithred neu anwaith awdurdod cyhoeddus i wneud cais i'r Uchel Lys (y cyfeirir ato fel "y Llys" yn y canllawiau hyn) am ryddhad (rhwymedi) rhag effeithiau'r penderfyniad, gweithred neu anwaith dan sylw. Mae'n fecanwaith sy'n galluogi'r Llys i ddal penderfynwyr i gyfrif drwy sicrhau eu bod yn gweithredu'n rhesymol, yn dilyn gweithdrefn briodol, ac yn gweithredu o fewn y gyfraith ym mhob ffordd arall. Dim ond os yw o'r farn bod un neu ragor o seiliau cydnabyddedig dros gynnal adolygiad barnwrol y bydd y Llys yn cytuno i ddyfarnu rhyddhad. Mae'r rhan fwyaf o'r seiliau hyn wedi'u datblygu dros amser gan y llysoedd (yn hytrach na'u cyflwyno mewn deddfwriaeth) ac yn cael eu hadnabod fel seiliau 'cyfraith gyffredin' dros adolygiad barnwrol. Mae Penodau 3 i 13 o'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar y seiliau cyfraith gyffredin hyn dros adolygiad barnwrol a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod y seiliau'n gymwys.

**Nid** yw'r weithdrefn adolygiad barnwrol yn caniatáu i'r Llys ddyfarnu rhyddhad rhag penderfyniad penodol neu weithred benodol oherwydd ei fod yn anghytuno â rhinweddau'r penderfyniad gwreiddiol, ac ni all gyfnewid ei benderfyniad ei hun am y gwreiddiol (mae gan lys y pŵer hwn mewn achosion apêl). Yn hytrach, mewn achosion adolygiad barnwrol, dim ond os yw'r penderfynwr yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau neu'n camfanteisio ar ei bwerau y gall y Llys roi rhyddhad. Cydnabyddir fodd bynnag fod gan y Llys ddisgresiwn eang wrth ystyried ceisiadau am adolygiad barnwrol a gallai hyn, mewn rhai achosion, achosi amwysedd rhwng adolygu cyfreithlondeb penderfyniad a'i rinweddau.

Mae pŵer y Llys i glywed ceisiadau am adolygiad barnwrol i'w weld yn adran 31 o Ddeddf Uwchlysoedd 1981. Mae'r adran yn darparu y gellir gwneud ceisiadau i'r Llys am un neu ragor o fathau o ryddhad, yn cynnwys dileu'r penderfyniad gwreiddiol (h.y. y Llys yn gwneud y penderfyniad gwreiddiol yn ddi-rym), cyflwyno gwaharddeb i atal penderfynwr rhag gwneud penderfyniad penodol, neu ddyfarnu iawndal. Mae pob rhwymedi yn ôl disgresiwn y Llys – y Llys yn unig sy'n penderfynu pa rwymedïau i'w dyfarnu, os o gwbl.

## Penderfyniadau a gweithredoedd pwy y gellir eu herio?

Diffinnir adolygiad barnwrol gan Ran 54 o Reolau Trefniadaeth Sifil 1998<sup>1</sup> fel cais neu hawliad i'r Llys adolygu cyfreithlondeb deddfiad (h.y. deddfwriaeth) neu 'benderfyniad, gweithred neu fethiant i weithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaeth gyhoeddus'.

Mae hyn yn golygu mai dim ond i herio penderfyniad, gweithredoedd neu anweithiau a wneir wrth arfer 'swyddogaeth gyhoeddus' y gellir defnyddio adolygiad barnwrol. Wrth benderfynu a yw penderfyniad neu weithred yn gyfystyr ag arfer swyddogaeth gyhoeddus bydd y Llys yn ystyried:

<sup>1</sup> Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (OS 1998/3132) wedi'u cynnwys mewn Offeryn Statudol, a wnaed o dan Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997, sy'n rhoi manylion y gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn mewn achosion llys sifil (h.y. achosion llys nad ydynt yn rhai troseddol), yn cynnwys mewn gwrandawiaidau adolygiad barnwrol.

- **ffynhonnell y pŵer sy'n cael ei arfer.** Os yw'r pŵer sy'n cael ei arfer yn deillio o ddeddfwriaeth neu'r uchelfraint frenhinol (pŵerau'r Goron nad ydynt wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth ac y gellir eu harfer gan lywodraeth), byddai'n cael ei ystyried yn swyddogaeth gyhoeddus gan amlaf. Ar y llaw arall, os yw'r pŵer sy'n cael ei arfer yn deillio o gytundeb preifat (e.e. contract rhwng y penderfynwr a rhywun arall) byddai'n tueddu i gael ei ystyried yn swyddogaeth breifat ac felly ni fyddai modd ei herio drwy adolygiad barnwrol.

- **natur y gwaith neu weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan yr awdurdod cyhoeddus dan sylw.** Nid yw ffynhonnell y pŵer sy'n cael ei arfer yn pennu ynddo'i hun a yw swyddogaeth yn un gyhoeddus; bydd y Llys yn ystyried hefyd a yw'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan yr awdurdod cyhoeddus yn rhai cyhoeddus eu natur. Bydd y Llys yn ystyried ffactorau megis a yw'r awdurdod cyhoeddus yn cael ei ariannu o bwrs y wlad ac a oes rhaid i bersonau eraill gydymffurfio â phenderfyniadau'r awdurdod cyhoeddus (a'r cosbau am beidio â gwneud hynny). Bydd y Llys yn dod i'r casgliad bod awdurdodau lleol ac adrannau'r llywodraeth yn aml yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus. Mewn rhai achosion, bydd y swyddogaethau a gyflawnir gan gorff 'preifat' yn ôl pob golwg yn cael eu hystyried yn swyddogaethau cyhoeddus a allai fod yn destun adolygiad barnwrol. Er enghraifft, mae'r Llys wedi canfod bod ysgol breifat, a fyddai'n cael ei hystyried yn gorff preifat fel rheol, yn arfer swyddogaeth gyhoeddus wrth dderbyn arian gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu addysg i fyfyrwyr penodol. Mewn perthynas â'r swyddogaethau arbennig hynny, ystyriwyd bod yr ysgol breifat yn yr un sefyllfa ag ysgol wladol; roedd y swyddogaethau yn rhai cyhoeddus ac yn rhai y gellid eu herio drwy adolygiad barnwrol.

Mae'r Llys wedi dod i'r casgliad dro ar ôl tro bod swyddogaethau rhai mathau penodol o gyrff yn swyddogaethau preifat (ac felly ni allant fod yn destun adolygiad barnwrol). Mae enghreifftiau'n cynnwys cyrff chwaraeon fel y Gymdeithas Bêl-droed a'r Jockey Club, a chyrff crefyddol fel y prif rabi neu foscg.

## **Beth sy'n cyfrif fel gweithred, penderfyniad neu anwaith y gellir ei herio drwy adolygiad barnwrol?**

Bydd y Llys yn ystyried a yw'n briodol adolygu gweithred, penderfyniad neu anwaith ar sail ffeithiau pob achos unigol. Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, mae'r Llys yn eangfrydig am yr hyn sy'n cyfrif fel gweithred, penderfyniad neu anwaith y gellir ei herio, gan gorff sy'n arfer swyddogaeth gyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Llys wedi dyfarnu y gallai datganiadau i'r wasg a chanllawiau polisi (cenedlaethol a lleol) fod yn agored i'w hadolygu dan amgylchiadau penodol.

O dan rai amgylchiadau, bydd awdurdod cyhoeddus yn gwneud cyfres o benderfyniadau ar fater penodol. Er enghraifft, gall pwyllgor awdurdod lleol ddatblygu polisi a phenderfynu ei gyflwyno i gael sêl bendith y cyngor llawn maes o law. Mewn achosion o'r fath, mae'n debygol mai dim ond penderfyniad terfynol yr awdurdod - lle mae'n penderfynu a yw am gymeradwyo'r polisi ai peidio - fyddai'n agored i adolygiad barnwrol (h.y. mae'n annhebygol y byddai'r penderfyniad cychwynnol - i gyflwyno'r polisi er mwyn i'r cyngor llawn ei ystyried - yn destun adolygiad). Serch hynny, bydd y Llys yn penderfynu ar sail ffeithiau pob achos a allai penderfyniad penodol fod yn destun adolygiad ai peidio.

## A oes unrhyw seiliau statudol ar gyfer adolygiad barnwrol?

Fel y nodir uchod, mae gan y Llys y pŵer i roi rhyddhad rhag gweithred, penderfyniad neu anwaith os oes un neu ragor o'r seiliau cyfraith gyffredin ar gyfer adolygiad yn berthnasol.

Fodd bynnag, yn ogystal â'r seiliau cyfraith gyffredin ar gyfer adolygiad, mae deddfwriaeth benodol yn cynnwys seiliau ychwanegol ar gyfer herio penderfyniadau neu weithredoedd awdurdod cyhoeddus; seiliau 'statudol' ar gyfer adolygiad yw'r rhain. Er enghraifft, mae adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Goruchaf Lys i ystyried a yw Bil sydd wedi'i basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn pŵer y Cynulliad (h.y. ystyried cyfreithlondeb y Bil ar seiliau penodol) ac mae Atodlen 9 i'r un Ddeddf yn caniatáu i'r llysoedd ystyried, ymhlith pethau eraill, a yw penderfyniadau neu weithredoedd Gweinidogion Cymru o fewn eu pwerau (h.y. ystyried cyfreithlondeb gweithred neu benderfyniad).

Enghraifft arall o sail statudol ar gyfer adolygiad, a'r mwyaf perthnasol at ddibenion y canllawiau hyn, yw honno sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Hawliau Dynol 1998 (gweler pennod 14). Dywed Adran 6 o'r Ddeddf honno ei bod hi'n anghyfreithlon i 'awdurdod cyhoeddus' weithredu mewn modd sy'n anghydnaws ag un o hawliau'r Confensiwn, ac mae adran 7 yn nodi y gall rhywun sydd wedi dioddef penderfyniad neu weithred anghyfreithlon ddwyn her adolygiad barnwrol yn y llysoedd.

# 3

## A yw'r penderfyniad o fewn cwmpas pŵer y penderfynwr?

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus weithredu o fewn eu pwerau neu fe fyddant yn gweithredu'n *ultra vires*, sy'n golygu y byddent yn gweithredu heb awdurdod cyfreithiol. Mae'r pwerau wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth fel arfer.

---

Gall cyfyngiadau ar y pwerau hynny fod wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, neu gael eu hawgrymu gan y Llys.

---

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus fod yn ymwybodol hefyd o'r cyfyngiadau pellach ar eu pwerau. Gall y rhain fod o dan yr egwyddorion cyfraith gyhoeddus cyffredinol a drafodir yn y canllawiau hyn, cyfraith Ewropeaidd, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

---

Mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddeall natur eu pwerau a'u cyfyngiadau, a gellir eu deall drwy ddarllen y ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig.

---

## Beth yw ffynhonnell pŵer y penderfynwr?

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi eu pwerau perthnasol a rhaid iddynt weithredu o fewn terfynau'r pwerau hynny neu fe fyddant yn gweithredu'n *ultra vires*, sy'n golygu y byddent yn gweithredu heb awdurdod cyfreithiol. Bydd pŵer cyfreithiol i wneud rhywbeth i'w weld mewn deddfwriaeth gan amlaf – naill ai deddfwriaeth sylfaenol (Deddf Seneddol (e.e. Deddf Troseddau Difrifol 2015) neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (e.e. Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016) neu mewn is-ddeddfwriaeth (e.e. offerynnau statudol megis gorchmynion neu reoliadau (er enghraifft, Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013).

Dylai penderfynwyr ystyried geiriad y ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn deall cyfyngiadau a dibenion y pŵer. Mewn rhai achosion, gellir canfod yr arwydd mwyaf clir o ddiben y ddeddfwriaeth mewn dogfennau ategol megis adroddiad a arweiniodd at y ddeddfwriaeth, adroddiad un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Senedd, y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu'r cofnod o drafodion y Senedd neu'r Cynulliad Cenedlaethol.

## A yw'r penderfynwr yn gweithredu'n gyson â diben y ddeddfwriaeth?

Bydd penderfynwyr yn gweithredu y tu allan i'w pwerau os ydynt yn gweithredu mewn ffordd sy'n anghyson â diben y ddeddfwriaeth sy'n rhoi eu pŵer iddynt. Er enghraifft, dyfarnodd Tŷr Arglwyddi yn achos *Stewart v Perth and Kinross Council*<sup>2</sup> mai diben Rhan II o'r Civic Government (Scotland) Act 1982 oedd peidio â chaniatáu i awdurdodau lleol yn yr Alban ei gwneud hi'n ofynnol i werthwyr ceir ail-law roi gwybodaeth benodol i brynwyr ceir am gyflwr y ceir. Pa mor glodwiw bynnag oedd bwriad yr awdurdod lleol wrth geisio diogelu defnyddwyr drwy fynnu bod gwerthwyr yn darparu'r wybodaeth hon, nid dyna oedd bwriad y Senedd pan basiodd Ddeddf 1982 ac roedd y gofyniad yn anghyfreithlon.

O dan rai amgylchiadau, bydd y llysoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus arfer ei ddisgresiwn mewn ffordd benodol pe bai methu â gwneud hynny yn anghyson â diben y ddeddfwriaeth.<sup>3</sup>

## Sut y dylai penderfynwyr ddehongli eu pwerau?

Fel rheol, rhoddir i eiriau mewn deddfwriaeth eu hystyr glir yn y Gymraeg neu'r Saesneg.<sup>4</sup> Lle gallai'r geiriau arwain at ddau neu ragor o ddeongliadau gwahanol, bydd y Llys yn ceisio pennu bwriad y corff deddfwriaethol a wnaeth

<sup>2</sup>[2004] UKHL 16.

<sup>3</sup>Un enghraifft yw achos *Padfield v Minister of Agriculture, Fisheries and Food* [1968] AC 997, lle gwnaeth y llys hi'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus (Gweinidog y Llywodraeth yn yr achos hwnnw) arfer ei ddisgresiwn mewn ffordd benodol gan y byddai methu â gwneud hynny'n groes i ddiben y Ddeddf a oedd yn rhoi ei bŵer i'r Gweinidog.

<sup>4</sup>Mae Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cael ei deddfu'n ddwyieithog bob amser. Mae is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei gwneud yn ddwyieithog hefyd fel rheol. Mae Adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y dylai testun Cymraeg a Saesneg unrhyw Ddeddf y Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth sydd yn y Gymraeg a'r Saesneg pan gaiff ei deddfu gael ei drin yn gyfartal at bob diben.

y ddeddfwriaeth (e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Ym mhob achos, bydd angen i benderfynwyr ddeall diben cyffredinol y ddeddfwriaeth a diben y ddarpariaeth benodol y dibynnir arni.

Mewn rhai achosion, gall ymddangos fod y ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau a disgresiwn diderfyn i benderfynwr, yn ddiamod (e.e. "caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cais"). Fodd bynnag, rhaid ystyried natur a diben y pŵer hefyd ac a oes unrhyw gyfyngiadau datganedig neu oblygedig ar arfer y pŵer hwnnw. Dylid ystyried hefyd a oes angen cyngor cyfreithiol.

**Cyfyngiad datganedig** yw darpariaeth benodol yn y ddeddfwriaeth sy'n cyfyngu ar bŵer y penderfynwr. Er enghraifft, mae adran 2(2) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn cyfyngu'n benodol ar gwmpas pŵer awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau o dan adran 2(1) (gweler yr enghraifft ddamcaniaethol isod). Gall cyfyngiad datganedig fod ar ffurf rhestr o ddibenion penodol hefyd y gellir defnyddio pŵer ar eu cyfer, neu restr o'r meini prawf i'w cymhwyso wrth ddefnyddio'r pŵer. Gall y cyfyngiadau datganedig hyn fod yn yr un adran neu ran o'r ddeddfwriaeth â'r pŵer y dibynnir arno, neu mewn rhan wahanol o'r un ddeddfwriaeth, neu mewn deddfwriaeth gwbl wahanol.

Mae **cyfyngiad goblygedig** yn codi lle nad oes cyfyngiad penodol ar y pŵer y dibynnir arno, ond lle gall y Llys awgrymu neu gyfleu cyfyngiad penodol. Er enghraifft, os yw darpariaeth mewn deddfwriaeth yn darparu "o dderbyn cais, caiff awdurdod lleol gyflwyno trwydded", er gwaethaf y disgresiwn eang yn ôl pob golwg a roddir i'r awdurdod lleol drwy ddefnyddio'r gair 'caiff' (yn hytrach na 'rhaid'), gallai'r Llys ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi'r drwydded dan amgylchiadau penodol (e.e. lle mae'r ymgeisydd yn bodloni holl ofynion rhagnodedig y cais).

Mewn rhai achosion, bydd penderfynwyr yn cael pwerau a wnaed o dan Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr achosion hyn, rhaid i benderfynwr gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau datganedig a nodir yn y ddeddfwriaeth. Rhaid iddo gydymffurfio hefyd â'r cyfyngiad goblygedig bod rhaid iddo arfer ei bŵer yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol adeg gwneud y ddeddfwriaeth. I bob pwrpas, mae'r penderfynwr yn cael ei atal rhag cymryd unrhyw gamau a fyddai y tu hwnt i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol adeg pasio'r Mesur neu'r Ddeddf.

## A oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar bwerau penderfynwyr?

Rhaid i benderfynwyr gydymffurfio hefyd â chyfyngiadau a gofynion mewn deddfwriaeth arall (sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth) a'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus cyffredinol a drafodir yn y canllawiau hyn. Mae hyn, er enghraifft, yn atal awdurdod cyhoeddus rhag gwneud penderfyniad sy'n groes i gyfraith yr UE neu hawliau sy'n cael eu diogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (trafodir hawliau'r Confensiwn ym mhennod 14). Mae gofyn i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio hefyd â'r ystyriaethau eraill a drafodir ym mhenodau 15 i 18.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft go iawn o benderfynwr yn gweithredu y tu hwnt i gwmpas ei bwerau

#### *R v Croydon Youth Court ex p DPP [1997] Cr App R 411.*

Mae adran 142(2) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn rhoi pŵer i lys ganiatáu ailwrandawriad o achos os yw hynny 'er budd cyfiawnder'. Er gwaetha'r disgresiwn eang yn ôl pob golwg a roddir i'r llys ynadon, dyfarnwyd nad oedd ganddo'r hawl i gynnal ailwrandawriad o achos amddiffynnydd lle'r oedd yr amddiffynnydd wedi pledio'n euog yn

ddiamwys. Penderfynodd y llys mai diben *goblygedig* y pŵer oedd galluogi ynadon i unioni camgymeriadau, felly roedd disgresiwn y llysoedd wedi'i gyfyngu i gynnal ailwrandawriad o achosion lle gallai camgymeriadau fod wedi'u gwneud yn unig, ac nid oedd yn caniatáu cynnal ailwrandawriad o achos lle'r oedd amddiffynnydd wedi pledio'n euog heb gamgymeriad.

### Enghraifft ddamcaniaethol o benderfynwr yn gweithredu y tu allan i gwmpas ei bwerau

#### *Pŵer a chyfyngiadau*

Mae adran 2(1) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau ar gyfer atal a chael gwared ar achosion niwsans yn eu hardal.

Mae adran 2(2) o'r un Ddeddf yn cyfyngu ar y pŵer. Mae'n darparu na all awdurdodau lleol wneud is-ddeddf os, ymhlith pethau eraill, yw darpariaeth eisoes wedi'i gwneud at y diben hwnnw mewn Deddf Seneddol neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### *Senario*

Mae awdurdod lleol yng Nghymru yn penderfynu yn Awst 2020 arfer pŵer adran 2(1) i wneud is-ddeddf i wahardd bwydo adar yng nghanol tref benodol (ac mae'r is-ddeddf yn cyflwyno map i ddangos ble mae'r gwaharddiad ar waith). Y gosb am fod yn euog o'r drosedd yw dirwy hyd at £1,000. Mae'r is-ddeddf yn cael ei gwneud ym mis Medi 2020 ac yn dod i rym ym mis Ionawr 2021.

Fodd bynnag, heb yn wybod i'r awdurdod lleol, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes wedi pasio Deddf ym mis Mai 2020 i wahardd bwydo adar mewn unrhyw fan sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru. Gall rhywun sy'n cael ei ganfod yn euog o'r drosedd gael dirwy o hyd at £500.

Caiff Aled ei ddal yn bwydo adar yng nghanol y dref lle mae is-ddeddf yr awdurdod lleol ar waith. Caiff ei erlyn am y drosedd o dan yr is-ddeddf.

#### *Canlyniad*

Mae Aled yn herio cyfreithlondeb yr is-ddeddf ar y sail bod yr awdurdod lleol wedi gweithredu y tu hwnt i'w bwerau. Mae'n dadlau bod y pŵer adran 2(1) yn cael ei gyfyngu gan adran 2(2); gan fod y Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi deddfu i'r un diben, nid oes gan yr awdurdod lleol y pŵer i wneud yr is-ddeddf.

Os yw ei her yn llwyddiannus, gellir dileu'r is-ddeddf a byddai'n rhaid dyfarnu Aled yn ddieuog o drosedd yr is-ddeddf.



## Gair i gall

- Rhaid i benderfynwyr nodi'r pŵer deddfwriaethol penodol y maent am ei arfer.
- Dylai penderfynwyr astudio geiriad y ddeddfwriaeth a'r dogfennau ategol i ddeall cyfyngiadau eu pŵer (e.e. a yw'r pŵer yn rhoi disgresiwn eang neu gyfyngedig).
- Dylid hefyd ystyried cyfraith Ewropeaidd, hawliau'r Confensiwn, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, safonau'r Gymraeg, a deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth.
- Dylid cael cyngor cyfreithiol lle mae ei angen.



# 4

A yw'r penderfynwr wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol neu wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol?

*"It has long been established that if the Secretary of State misinterprets the legislation under which he purports to act, or if he takes into account matters irrelevant to his decision or refuses or fails to take account of matters relevant to his decision, or reaches a perverse decision, the court may set his decision aside"<sup>5</sup>*

---

Rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau. Gall yr ystyriaethau perthnasol fod mewn deddfwriaeth, neu gall y Llys ddweud eu bod yn ddealedig o eiriad y ddeddfwriaeth a chyd-destun y penderfyniad.

---

Rhaid i awdurdod cyhoeddus beidio â chael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol. Gall penderfyniad sydd wedi'i ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaeth amherthnasol gael ei herio ar y sail ei fod yn afresymol neu fod y penderfynwr wedi gweithredu y tu hwnt i'w bwerau.

---

Mae enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol y dylid eu hystyried yn cynnwys effaith penderfyniad ar hawliau person, canllawiau'r llywodraeth, datganiadau polisi ac ymatebion i ymgynghoriadau.

---

<sup>5</sup> *R (on the application of Alconbury Developments Ltd) v Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions* [2003] 2 AC 295.

Wrth arfer pŵer a roddir iddo gan deddfwriaeth, rhaid i benderfynwr roi sylw i ystyriaethau perthnasol a rhaid iddo beidio â chael ei ddylanwadu'n sylweddol neu'n helaeth gan faterion amherthnasol. Gallai methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn arwain at y penderfyniad yn cael ei ddileu gan y Llys.

## **Sut mae'r penderfynwr yn penderfynu pa ystyriaethau sy'n berthnasol/amherthnasol?**

Rhaid penderfynu pa ystyriaethau sy'n berthnasol/amherthnasol yng ngoleuni'r deddfwriaeth sy'n cael ei chymhwyso a ffeithiau'r achos.

Gall deddfwriaeth berthnasol restru materion y mae'n rhaid i'r penderfynwr eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Os felly, mae'r materion hynny i gyd yn ystyriaethau perthnasol. Gallai methu ag ystyried y materion hynny arwain at ddileu'r penderfyniad.

Mewn achosion eraill, gall deddfwriaeth berthnasol ddarparu rhestr anghyflawn o rai o'r materion y dylai'r penderfynwr eu hystyried. Er bod yr holl faterion sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr anghyflawn yn ystyriaethau perthnasol, gall ystyriaethau perthnasol eraill ddeillio o ffeithiau'r achos hefyd. Rhoddir enghreifftiau yn y tabl isod.

Yn olaf, mewn rhai achosion, ni fydd deddfwriaeth berthnasol yn rhestru unrhyw ffactorau y dylid eu hystyried. Mewn achosion o'r fath, dylai penderfynwr ystyried diben y pŵer sy'n cael ei arfer i bennu pa ffactorau sy'n berthnasol wrth ystyried y penderfyniad. O dan yr amgylchiadau hyn, lle nad yw deddfwriaeth yn nodi'n glir pa ffactorau y dylai penderfynwr eu hystyried, gall y Llys roi hyblygrwydd i'r penderfynwr drwy beidio â phennu rhestr gaeth o'r materion y mae o'r farn y dylai'r penderfynwr fod wedi'u hystyried.

## **A oes raid i'r penderfynwr ystyried yr holl ddeunydd perthnasol?**

Nid oes rheidrwydd ar y penderfynwr i ystyried y deunydd *i gyd*, ond dylai fod ganddo gymaint o wybodaeth â phosibl am y penderfyniad i sicrhau nad oes unrhyw ystyriaethau perthnasol yn cael eu hanwybyddu. Mae yna wahaniaeth yn hyn o beth rhwng materion sydd mor berthnasol fel bod rhaid eu hystyried, a materion nad ydynt yn amherthnasol ond nad oes rheidrwydd ar y penderfynwr i'w hystyried. Bydd perthnasedd mater penodol yn dibynnu ar eiriad y deddfwriaeth ac ar ffeithiau a chyd-destun pob achos. Yn gyffredinol, mater i'r penderfynwr yw faint o bwys i'w roi i ystyriaeth benodo.<sup>6</sup> Dim ond os rhoddir pwys afresymol i ystyriaeth y bydd y Llys yn ymyrryd (gweler pennod 12 am fanylion y trothwy ar gyfer afresymoldeb).

<sup>6</sup>Gweler *Tesco Stores Ltd v Secretary of State for the Environment* [1995] 1 WLR 759 at 780.

## Enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol

Ym mhob achos, mae'n ddoeth i'r penderfynwr ystyried:

- unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol unigolyn
- unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol perthnasol
- datganiadau polisi'r llywodraeth (e.e. cod ymarfer statudol neu gylchlythyr y llywodraeth)
- polisiau'r penderfynwr (gweler pennod 5)
- cyngor gan swyddogion y penderfynwr
- yr ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar y penderfyniad (gweler pennod 8)
- unrhyw sylwadau gan y penderfynwr am y penderfyniad (gweler pennod 9)

Gall awdurdodau cyhoeddus ystyried eu hadnoddau cyfyngedig dan rai amgylchiadau hefyd (gweler ymhellach isod).

## Enghreifftiau o ystyriaethau amherthnasol

Rhaid pennu a yw mater penodol yn amherthnasol drwy ystyried cyd-destun yr achos a diben y ddeddfwriaeth y dibynnir arni.

Mae enghreifftiau o ffactorau y gallai'r Llys eu hystyried yn amherthnasol yn cynnwys:

- angen y penderfynwr i wneud rhywbeth yn gyflym
- ymateb disgwylidig y cyfryngau i'r penderfyniad
- barn a thybiaethau personol nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gweler yr astudiaeth achos isod am enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddileu am ei fod wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaeth amherthnasol.

## A yw faint o adnoddau sydd gan awdurdod cyhoeddus at ei ddefnydd yn ffactor perthnasol y gellir ei ystyried?

O dan rai amgylchiadau, bydd dyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau penodol. Lle mae'r ddyletswydd honno'n benodol a manwl, mae'n annhebygol y bydd awdurdod cyhoeddus yn gallu ystyried cost y gwasanaeth a'r adnoddau sydd ar gael iddo fel ystyriaeth berthnasol. Yn achos *R (on the application of G) v Barnet London Borough Council and Others*<sup>7</sup> barnodd Tŷ'r Arglwyddi os oes gan awdurdod cyhoeddus ddyletswydd benodol a manwl i ddarparu gwasanaeth arbennig, mae'r ddyletswydd yn debygol o gael ei dehongli fel gofyniad diamod, lle mae materion cost ac adnoddau'n amherthnasol.

<sup>7</sup> [2003] UKHL 57.

O dan amgylchiadau eraill, bydd awdurdodau cyhoeddus yn dewis darparu gwasanaethau wrth arfer disgresiwn statudol. Yr enw cyffredin am y rhain, mewn cyd-destunau anghyfreithiol, yw gwasanaethau anstatudol. Mewn achosion o'r fath, mae natur gyfyngedig neu derfynedig adnoddau awdurdodau cyhoeddus yn ystyriaeth berthnasol; mae'n rhywbeth y mae awdurdodau cyhoeddus yn gallu neu'n gorfod ei ystyried wrth benderfynu a yw am ddarparu gwasanaeth penodol. Er enghraifft, yn achos *R (Health and Safety Executive) v Wolverhampton City Council*<sup>8</sup> barnodd y Goruchaf Lys fod yr awdurdod lleol wedi gweithredu'n gyfreithlon wrth ystyried goblygiadau ariannol penderfyniad arbennig mewn cyfarfod cynllunio. Yn ei feirniadaeth, dywedodd yr Arglwydd Carnwarth:

*"As custodian of public funds, the authority not only may, but generally must, have regard to the cost to the public of its actions, at least to the extent of considering in any case whether the cost is proportionate to the aim to be achieved, and taking account of any more economic ways of achieving the same objective."*

### **Beth yw canlyniadau methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol neu gael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol?**

Lle mae'r penderfynwr wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol neu wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol, gall y Llys ddileu'r penderfyniad. Fodd bynnag, fel gyda phob sail adolygu arall, rhaid<sup>9</sup> i'r Llys wrthod dileu'r penderfyniad (neu ddyfarnu unrhyw rwymedi arall) os yw'n ymddangos yn dra thebygol na fyddai'r canlyniad ar gyfer y sawl sy'n cael ei effeithio wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r penderfynwr wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol neu heb gael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaethau amherthnasol, oni bai fod y Llys yn ystyried ei bod hi'n briodol dileu'r penderfyniad am resymau eithriadol yn ymwneud â lles y cyhoedd.

<sup>8</sup> [2012] UKSC 34.

<sup>9</sup> O dan adran 31(2A) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981.



## Astudiaeth achos

### Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ystyriaeth amherthnasol

*R v Port Talbot Borough Council, ex parte Jones* [1988]  
2 All ER 207.

Roedd cynghorydd lleol wedi gwneud cais am lety cymdeithas tai a rhoddwyd statws blaenoriaeth iddi. Yn y pen draw cafodd dŷ cyngor tair llofft, er ei bod yn byw ar ei phen ei hun. Ceisiodd yr awdurdod lleol gyfiawnhau'r penderfyniad i roi llety o'r fath iddi ar sail y canlynol:

(i) er mwyn gallu cyflawni ei hymrwymadau gyda'r cyngor, roedd y cynghorydd angen cartref digon mawr i groesawu aelodau'r cyhoedd ar ymweliadau,

(ii) nid oedd tŷ dwy lofft ar gael, a

(iii) roedd angen iddi fyw yn y ward roedd hi'n ei chynrychioli.

Dyfarnodd y Llys fod y penderfyniad i roi tŷ ar y sail y byddai gan yr unigolyn wedyn well rhagolygon mewn etholiad, heb ystyried anghenion pobl eraill ar y rhestr aros, ac yn groes i gyngor swyddogion y cyngor, yn achos clir o benderfyniad yn seiliedig ar ystyriaethau amherthnasol.



## Gair i gall

- Rhaid i benderfynwr ystyried geiriad deddfwriaeth a chyd-destun y penderfyniad er mwyn pennu pa ffactorau sy'n berthnasol ac yn amherthnasol. Dylai materion sydd wedi'u rhestru'n benodol ar wyneb deddfwriaeth gael eu hystyried ym mhob achos, ynghyd ag unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwnnw ei chael ar hawliau dynol unigolyn.
- Dylai'r penderfynwr gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn gallu pennu pa ffactorau sy'n berthnasol ac yn amherthnasol a dylai ddarllen yr holl bapurau a gwybodaeth a roddir iddo am benderfyniad.
- Dylid mabwysiadu gweithdrefnau i gynnal cofnodion o'r penderfyniadau a'r rhesymau am y penderfyniadau, yn cynnwys y ffactorau a ystyriwyd wrth wneud y penderfyniad.

# 5

## A yw'r penderfynwr wedi llesteirio ei ddisgresiwn drwy gymhwyso polisi anhyblyg?

*"A policy must not be so inflexible that it cannot accommodate the range of situations to which it has to apply, nor must it be so rigid that it does not allow for exceptional cases; otherwise it will result in an unlawful fetter on discretion."<sup>10</sup>*

---

O dan rai amgylchiadau, gall penderfynwr wella sicrwydd ac effeithlonrwydd gweinyddol drwy fabwysiadu polisi sy'n nodi sut mae'n ymdrin â math penodol o benderfyniad (e.e. sut mae'n penderfynu ar geisiadau trwydded).

---

Rhaid i'r polisi ei hun fod yn gyfreithlon; rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol a nodir mewn deddfwriaeth a gyda'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus a nodir yn y canllawiau hyn (e.e. rhaid ei fod yn rhesymol).

---

Ni chaiff y penderfynwr 'lesteirio' ei ddisgresiwn drwy gymhwyso polisi yn rhy gaeth – heb ganiatáu ar gyfer eithriadau neu alluogi ymgeisydd i ddadlau pam y dylid gwyro oddi wrth y polisi mewn achos arbennig.

---

<sup>10</sup> *R v Secretary of State for the Home Department ex p Venables and Thompson* [1997] 3 All ER 97.

## Beth yw ystyr 'llesteirio' disgresiwn?

Pan mae deddfwriaeth yn rhoi disgresiwn i awdurdod cyhoeddus wneud penderfyniadau, e.e. dyfarnu trwydded neu roi caniatâd i wneud datblygiad, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus ganiatáu iddo'i hun ystyried pob penderfyniad ar sail ei rinweddau ei hun; rhaid i'r awdurdod cyhoeddus beidio â 'llesteirio' ei ddisgresiwn drwy gymhwyso polisi anhyblyg neu un polisi ar gyfer pawb yn achos pob cais heb ystyried ffeithiau penodol pob achos. Gall penderfyniad sy'n cael ei wneud gan awdurdod cyhoeddus sydd wedi llesteirio ei ddisgresiwn fel hyn gael ei herio ar y sail bod y penderfyniad yn anghyfreithlon. Gall gael ei herio hefyd ar y sail bod y weithdrefn a ddilynwyd wrth wneud y penderfyniad yn annheg, neu ar y sail ei fod yn afresymol.

## A oes gan benderfynwyr hawl i gael polisiau ynghylch sut mae gwneud penderfyniadau neu ymdrin â cheisiadau?

Lle mae deddfwriaeth yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau megis penderfynu ar geisiadau am drwyddedau, mae'n debygol o gael llawer iawn o geisiadau. Er mwyn sicrhau cysondeb, sicrwydd a gweinyddiaeth effeithlon, caniateir (neu gwneir hi'n ofynnol dan rai amgylchiadau) i awdurdodau lleol ddatblygu polisiau sy'n nodi sut yr ymdrinnir â cheisiadau. Gall y polisiau, er enghraifft, nodi pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau neu'r gofynion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu bodloni cyn ystyried y ceisiadau. Fel hyn, mae modd ymdrin â cheisiadau mewn ffordd safonol, gan gymhwyso'r un meini prawf a rhoi'r un pwys i'r un ffactorau ym mhob achos. Rhaid i'r polisiau eu hunain fod yn gyfreithlon (e.e. rhaid eu bod yn rhesymol, a rhaid iddynt gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

Nid yw'r rheol yn erbyn llesteirio disgresiwn yn atal mabwysiadu polisiau o'r fath. Yn hytrach, y nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn caniatáu, mewn achosion priodol, eithriadau i'r rheolau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn y polisiau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion yn ymwneud â hawliau dynol a chydarddoldeb. Mewn geiriau eraill, ni ddylai awdurdod cyhoeddus gymhwyso'i bolisi'n rhy gaeth a rhaid iddo roi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno sylwadau ynghylch pam y dylid gwro oddi wrth y polisi yn yr achos penodol dan sylw. Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gadw meddwl agored a dylai ystyried pob achos ar sail ei rinweddau ei hun.

## Enghreifftiau o awdurdodau cyhoeddus yn llesteirio eu disgresiwn

- Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr hawl i fabwysiadu rheol gaeth na all swyddog yr heddlu sy'n gwasanaethu mewn llu heddlu penodol gael ei benodi'n Brif Gwnstabl ar yr heddlu hwnnw.
- Nid oes gan Brif Gwnstablaid hawl i fabwysiadu rheol gaeth na fydd achosion yn cael eu dwyn am rai mathau penodol o droseddau.
- Ni ddylai awdurdodau tai lleol fabwysiadu polisiau caeth ar, ymhlith pethau eraill, pryd i gychwyn achos troi allan pan mae tenantiaid ar ei hôl hi gyda'r rhent, dileu pobl sydd wedi gwrthod llety yn afresymol o'r gofrestr tai am ddwy flynedd, neu wrthod ceisiadau am dai gan blant pobl sy'n ddigartref yn fwriadol.
- Nid oes gan awdurdodau lleol yr hawl i fabwysiadu polisiau caeth ynghylch pryd i gau ysgolion uwchradd sy'n derbyn plant ar sail gallu neu bryd i wrthod ceisiadau am asesiadau o anghenion addysgol arbennig plentyn.





## Astudiaeth achos

### Enghraifft o benderfynwr yn llesteirio ei ddisgresiwn

*R (on the application of P) v Secretary of State for the Home Department, (on the application of Q) v Secretary of State for the Home Department* [2001] EWCA Civ 1151.

Barnodd y Llys Apêl fod polisi'r gwasanaeth carchardai o ganiatáu i fabanod carcharorion benywaidd aros yn y carchar gyda'u mamau nes eu bod yn 18 mis oed yn gyfreithlon. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth carchardai wedi cymhwyso'r polisi yn rhy gaeth ac wedi methu ag ystyried amgylchiadau unigol.

Cafodd penderfyniad i gymryd babi oddi ar ei fam pan oedd yn 18 mis oed heb ystyried y ffaith nad oedd lleoliad addas ar gyfer y plentyn y tu allan i'r carchar ei ddileu ar y sail fod y gwasanaeth carchardai wedi cymhwyso'i bolisi'n rhy gaeth



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried a fyddai mabwysiadu polisi ynghylch sut i arfer pŵer penodol (e.e. penderfynu ar geisiadau trwydded) yn gwella cysondeb, sicrwydd ac effeithlonrwydd gweinyddiaeth.
- Lle caiff polisi o'r fath ei fabwysiadu, ni ddylai penderfynwyr ei gymhwyso'n rhy gaeth. Rhaid iddynt ganiatáu ar gyfer eithriadau i'r polisi mewn achosion priodol, a rhaid iddynt roi cyfle i ymgeiswyr gyflwyno sylwadau ynghylch pryd y dylid gwyro oddi wrth y polisi.
- Os yw penderfynwyr wedi mabwysiadu polisi, dylent gofio ei fod yn ystyriaeth berthnasol (gweler pennod 5).
- Lle mae penderfynwr yn mabwysiadu polisi ac yn rhoi rhesymau dros benderfyniad penodol (gweler pennod 11), dylai'r rhesymau hynny ei gwneud hi'n glir bod y polisi wedi cael ei ystyried ond bod y penderfynwr wedi cadw meddwl agored.
- Pan mae penderfynwr yn gwyro oddi wrth bolisi, dylai roi rhesymau dros wneud hynny.

# 6

## A yw'r person cywir yn gwneud y penderfyniad?

Mae yna reol gyffredinol mewn sefyllfaoedd lle mae deddfwriaeth yn rhoi pŵer i wneud rhywbeth penodol i unigolyn neu gorff a enwir, na ellir neilltuo na dirprwyo'r pŵer hwnnw i unigolyn neu gorff arall.

---

Gall y rheol hon gael ei gwrthod. Gall deddfwriaeth nodi mewn termau datganedig bod modd dirprwyo pŵer, neu gall y Llys farnu bod pŵer i ddirprwyo yn ddealedig o eiriad a diben y ddeddfwriaeth.

---

Mae'r Llys yn fwy tebygol o farnu bod pŵer i ddirprwyo swyddogaethau gweinyddol yn ddealedig na rhai barnwrol neu ddeddfwriaethol, ond bydd yn ystyried amgylchiadau a ffeithiau pob achos.

---

## Beth yw'r rheol yn erbyn dirprwyo? A oes unrhyw eithriadau?

Mae yna reol gyffredinol mewn cyfraith weinyddol mewn sefyllfaoedd lle mae deddfwriaeth yn rhoi pŵer i unigolyn neu awdurdod a enwir, rhaid mai'r unigolyn neu'r awdurdod hwnnw sy'n arfer y pŵer, a rhaid peidio â rhoi'r pŵer i berson neu awdurdod arall (**is-ddirprwyo anghyfreithlon**). Mae'r rheol gyffredinol hon yn berthnasol i ddirprwyo pob math o bŵer - cyfreithiol, deddfwriaethol a gweinyddol.

Fodd bynnag, mae llawer o eithriadau i'r rheol hon o anghenraid, ac yn aml maent wedi'u nodi'n benodol ar wyneb y ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod cyhoeddus. O dan amgylchiadau eraill, bydd y Llys yn barod i farnu ei bod yn ddealedig o eiriad a diben y ddeddfwriaeth y gall pŵer penodol sydd wedi'i roi i awdurdod cyhoeddus gael ei ddirprwyo i berson arall, ar yr amod bod yr awdurdod yn cadw rheolaeth gyffredinol. Yn aml bydd y Llys yn barnu bod y cyfryw bŵer i ddirprwyo yn ddealedig lle byddai peidio â chaniatáu i'r pŵer gael ei ddirprwyo yn arwain at anghyfleustra gweinyddol anghymesur.

## Sut mae'r Llys yn penderfynu a all penderfynwr ddirprwyo ei bŵer penderfynu?

Man cychwyn unrhyw ystyriaeth ynghylch a ellir dirprwyo pŵer penderfynu yw geiriad a diben deddfwriaeth berthnasol. Gall fod yn amlwg o'r geiriad neu'r diben mai bwriad y corff deddfwriaethol oedd y gallai pŵer penodol a roddir i awdurdod cyhoeddus gael ei ddirprwyo i un arall. Enghraifft o gyd-destun awdurdod lleol yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n darparu, yn gyffredinol, ac yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn Neddf 1972 neu unrhyw Ddeddf diweddarach, y gall awdurdod lleol drefnu i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan un o bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion yr awdurdod.<sup>11</sup>

Wrth ystyried diben y ddeddfwriaeth, bydd y Llys yn rhoi sylw penodol i natur y pŵer a roddwyd i'r penderfynwr:

**Pwerau barnwrol** – Lle mae'r pŵer yn bŵer o fath barnwrol, sy'n golygu bod y penderfynwr yn penderfynu ynghylch hawliau unigolyn (e.e. gwahardd rhywun o broffesiwn arbennig), yn absenoldeb geiriad datganedig i'r gwrthwyneb, mae'n annhebygol y bydd y Llys yn ystyried y pŵer yn ddirprwyadwy.

**Pwerau deddfwriaethol** – Mae yna ragdybiaeth gref na all pŵer a roddir i unigolyn i wneud deddfwriaeth (e.e. is-ddeddfau, rheoliadau) gael ei ddirprwyo.

**Pwerau gweinyddol** – Mae'n fwy tebygol y bydd y Llys yn ystyried bod pŵer gweinyddol yn fwy dirprwyadwy na pŵer barnwrol neu ddeddfwriaethol, ond bydd barn y Llys yn dibynnu ar ffactorau megis a yw'r awdurdod cyhoeddus sy'n dirprwyo wedi cadw rheolaeth gyffredinol neu oruchwyliol dros y penderfyniad, graddau unrhyw reolaeth o'r fath, a phwysigrwydd y penderfyniad ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

<sup>11</sup> Enghraifft fwy penodol yn ymwneud ag awdurdodau lleol yw'r Local Authorities (Contracting Out of Allocation of Housing and Homelessness Functions) Order 1996, sy'n darparu y gallai awdurdodau lleol yn Lloegr ddirprwyo eu dyletswydd i gynnal adolygiadau o dan adran 202 o Ddeddf Tai 1996 – *Heald v Brent LBC* [2009] EWCA Civ 930.

Bydd y Llys yn ystyried hyd a lled y pwerau yr honnir iddynt gael eu dirprwyo hefyd. Yn gyffredinol, po fwyaf eang y pwerau y mae'r awdurdod lleol am eu dirprwyo, lleiaf tebygol y bydd y dirprwyo'n cael ei farnu'n ddilys. Ar y llaw arall, os yw'r dirprwyo'n ymwneud â phŵer cymharol gul a hunangynhwysol, mae'n fwy tebygol o gael ei farnu'n un dilys.

## **Mae penderfynwr yn dirprwyo'i bŵer yn gyfreithlon i unigolyn arall. A all yr unigolyn hwnnw wedyn ddirprwyo'r pŵer i ail unigolyn?**

Gall deddfwriaeth nodi y gall y sawl sy'n derbyn pwerau dirprwyedig is-ddirprwyo'r pwerau ymhellach wedyn. Enghraifft yw adran 101(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n darparu os yw awdurdod lleol yn trefnu i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor, y gall y pwyllgor hwnnw wedyn ddirprwyo'i bwerau ymhellach i un o is-bwyllgorau neu swyddogion yr awdurdod.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, yn absenoldeb darpariaeth ddatganedig o'r fath mewn deddfwriaeth, mae'r Llys yn gyndyn o roi pŵer i'r sawl sy'n derbyn pwerau dirprwyedig i is-ddirprwyo ymhellach; mae tybiaeth os yw'r corff deddfwriaethol wedi awdurdodi dirprwyo unwaith, na chaniateir unrhyw is-ddirprwyo pellach.

## **A all Gweinidogion y Llywodraeth/Gweinidogion Cymru ddirprwyo eu pŵer i swyddogion?**

Derbyniodd y Llys Apêl yn achos *Carltona*<sup>12</sup> ym 1943 fod gweinyddiaeth y llywodraeth wedi mynd mor gymhleth a swyddogaethau gweinidogion y llywodraeth mor niferus fel na fyddai'n bosibl i weinidog roi sylw i bob penderfyniad yn bersonol. Canfu, yn ymarferol, fod dyletswyddau gweinidogion yn cael eu cyflawni gan swyddogion gan amlaf, ond yn amodol ar rai eithriadau lle'r oedd y penderfyniad mor bwysig fel bod rhaid i'r Gweinidog wneud y penderfyniad yn bersonol.

Cadarnhaodd y Llys Apêl gyfreithlondeb y system hon yn achos *Carltona*, ar yr amod lle'r oedd swyddogion yn gwneud penderfyniad ar ran y Gweinidog, mai penderfyniad y Gweinidog a'i gyfrifoldeb ef neu hi fyddai'r penderfyniad hwnnw o hyd. Mae hyn yn galluogi swyddogion digon profiadol i wneud penderfyniadau ar ran y Gweinidog, ac mae'n parhau felly heddiw; caiff gweinidogion ddirprwyo'u pŵer i swyddogion â chymwysterau addas, ond maent yn parhau i fod yn gyfrifol am y penderfyniadau a wneir wrth arfer y pŵer hwnnw.

Mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru yn benodol, mae adran 52(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu hyd yn oed heb awdurdod dyfarniad y Llys Apêl yn *Carltona*, y caiff Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol awdurdodi staff Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag unrhyw swyddogaeth ar eu rhan. Dyma enghraifft arall o ddeddfwriaeth yn darparu'n ddatganedig ar gyfer dirprwyo pwerau.

<sup>12</sup> *Carltona v Commissioners of Works* [1943] 2 All ER 560.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o is-ddirprwyo anghyfreithlon

*R v DPP (Ex p. Association of First Division Civil Servants)* Times, 24 Mai 1988.

Roedd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) wedi ceisio dirprwyo i bobl nad oeddent yn gyfreithwyr y swyddogaeth o benderfynu a oedd digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen ag erlyniad.

Barnodd y Llys fod y dirprwyo yn anghyfreithlon. Ystyriodd eiriad a

diben y ddeddfwriaeth berthnasol ac, o ystyried natur y swyddogaeth, barnodd mai unig fwriad y Senedd fyddai i'r pŵer gael ei arfer gan y DPP yn bersonol, neu ei ddirprwyo i gyfreithiwr. Roedd y DPP wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth ddirprwyo'r pŵer i bobl nad oeddent yn gyfreithwyr.

### Enghraifft o ddirprwyo cyfreithlon

*DPP v Haw* [2007] EWHC 1931.

O dan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, rhaid i wrthdystiadau yn Parliament Square, San Steffan, gael eu hawdurdodi gan Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitanaid. Barnodd y Llys yn yr achos hwn y gallai pŵer y Comisiynydd i roi awdurdod, a gosod amodau, gael ei ddirprwyo'n gyfreithlon i swyddogion eraill.

Canfu'r Llys lle mae deddfwriaeth yn rhoi pŵer i swyddog heddlu penodol, bod y cwestiwn ynghylch a allai'r swyddog hwnnw ddirprwyo'r

pŵer yn dibynnu ar y dehongliad o'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r pŵer. Lle mae gan heddlu gyfrifoldebau o'r fath fel ei bod hi'n anochel y byddai'r pŵer yn cael ei arfer gan swyddog arall, yn absenoldeb geiriad datganedig neu oblygedig i'r gwrthwyneb yn y ddeddfwriaeth, gellid dirprwyo pŵer penodol yn gyfreithlon. Mewn perthynas â rôl y Comisiynydd, barnwyd y byddai'r Senedd wedi bwriadu i bŵer y Comisiynydd i awdurdodi gwrthdystiadau yn Parliament Square fod yn ddirprwyadwy i swyddogion eraill.



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried a yw deddfwriaeth yn rhoi pŵer iddynt ddirprwyo eu pwerau a'u dyletswyddau. Os na, ni ellir dirprwyo'r pwerau.
- Lle nad yw deddfwriaeth yn nodi'n benodol fod gan benderfynwr bŵer i ddirprwyo'i swyddogaethau, bydd rhaid iddo ystyried a allai pŵer o'r fath fod yn ddealliedig o eiriad a diben y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae angen ystyried i ba raddau y dylai oruchwylio'r broses benderfynu.
- Lle caiff pŵer ei ddirprwyo'n gyfreithlon, dylai'r penderfynwr sicrhau bod y sawl y dirprwyir y pŵer iddo yn ddigon profiadol.

# 7 A oes rhaid i'r penderfynwr gydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol penodol?

Mae gofynion gweithdrefnol i'w cael mewn deddfwriaeth (neu ddogfennau canllaw, Codau Ymarfer ac ati a wneir o dan ddeddfwriaeth) fel rheol ac maent yn nodi'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn pan fydd awdurdod cyhoeddus yn gwneud penderfyniad.

---

Mae gofynion gweithdrefnol cyffredin yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â ffurf ymgynghoriad, cyhoeddi hysbysiadau, gofynion i hysbysu partion arbennig, a gofynion cyhoeddi.

---

Bydd canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol yn dibynnu ar natur y tramgwydd ac ar ffeithiau pob achos. Bydd y Llys yn ystyried ffactorau megis a fu cydymffurfiaeth sylweddol, a oedd y tramgwydd yn un technegol, ac a yw diben y ddeddfwriaeth wedi'i gyflawni.

---

O dan rai amgylchiadau cyfyngedig, bydd y Llys yn pennu gofynion gweithdrefnol ychwanegol i sicrhau bod tegwch yn cael ei gyflawni.

---

## Beth yw 'gofyniad gweithdrefnol'?

Bydd gofyn i benderfynwyr gydymffurfio â chmau gweithdrefnol penodol yn gyson wrth wneud ei benderfyniadau. Mae'r gofynion gan amlaf wedi'u datgan yn glir mewn deddfwriaeth. Gallant hefyd gael eu nodi mewn Cod, mewn Cod Ymarfer, neu mewn canllawiau. Ambell waith, gall y gofynion gael eu cynnwys ym mholisiau'r awdurdod cyhoeddus ei hun. Enghraifft o ofyniad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth fyddai Deddf sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori ag unigolion penodol cyn gwneud penderfyniad arbennig, neu ofyniad i hysbysu rhywun sy'n cael ei effeithio gan benderfyniad bod ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Gall gofynion gweithdrefnol datganedig o'r fath gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, caiff ad-drefnu ysgolion yng Nghymru ei reoleiddio gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a gyhoeddwyd o dan adran 38 o'r Ddeddf honno. Mae adran 48 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdod Lleol gyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion ac ymgynghori arnynt yn unol â'r Cod. Rhyngddynt, mae'r Ddeddf a'r Cod yn pennu gofynion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu dilyn, yn cynnwys gofynion ynghylch:

- ymgynghori
- cyhoeddi cynigion ar ffurf benodol
- anfon y cynigion at Weinidogion Cymru
- ystyried gwrthwynebiadau i gynigion
- gwneud penderfyniad ar gynigion
- cyhoeddi'r penderfyniad
- hysbysu cyrff penodol am y penderfyniad.

Gallai methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion hyn olygu bod penderfyniad yn agored i gael ei herio ar sail methiant i gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol.

## Beth yw canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol?

Yn y bôn, mae penderfynwr sydd wedi methu â dilyn gofynion gweithdrefnol yn gadael ei hun yn fwy agored i gael ei herio drwy adolygiad barnwrol na phenderfynwr sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol. Serch hynny, mae'r tebygolrwydd y bydd hawlydd yn llwyddo gyda her ar y sail bod y penderfynwr wedi methu â dilyn y weithdrefn briodol yn dibynnu ar ffeithiau pob achos, yn enwedig natur y gofyniad nas cydymffurfiwyd ag ef a chanlyniadau'r methiant hwnnw.

Wrth ystyried a ddylid dileu penderfyniad am fetu â chydymffurfio â gweithdrefn benodol, y cwestiwn allweddol y bydd y Llys yn ei ystyried yw ai diben (neu fwriad) y deddfwriaeth sy'n nodi'r gofyniad yw bod unrhyw benderfyniad a wneir yn groes i'r gofyniad gweithdrefnol hwnnw yn annilys.<sup>13</sup>

<sup>13</sup> *R v Clarke* [2008] 1 WLR 338.

Ar gyfer y gofynion gweithdrefnol mwy technegol (e.e. gofyniad i gyflawni cam arbennig o fewn cyfnod penodol, neu ddefnyddio ffurflen arbennig), bydd y Llys hefyd yn ystyried materion fel:

- (i) a fu cydymffurfiaeth sylweddol â'r gofyniad gweithdrefnol, ac a fyddai cydymffurfiaeth sylweddol (nid cydymffurfiaeth gaeth) yn cyflawni'r gofyniad gweithdrefnol a nodir yn y ddeddfwriaeth
- (ii) a ellir hepgor diffyg cydymffurfiaeth (h.y. bod y sawl sy'n cael ei effeithio gan y diffyg cydymffurfiaeth yn ei roi o'r neilltu)
- (iii) os nad oes modd hepgor y diffyg cydymffurfiaeth, beth yw canlyniad diffyg cydymffurfio.<sup>14</sup>

Os yw'r Llys o'r farn y byddai torri gofyniad gweithdrefnol yn mynd yn groes i ddiben y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofyniad, caiff y penderfyniad ei ddileu yn ôl pob tebyg.

Fodd bynnag, os yw'r gofyniad gweithdrefnol yn un technegol, a bod y diffyg cydymffurfiaeth yn gymharol fach (e.e. os cydymffurfir â gofyniad i gyhoeddi hysbysiad, ond y gwneir hynny ddiwrnod yn hwyr), neu os bu cydymffurfiaeth sylweddol, neu os yw'r Llys o'r farn nad yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn mynd yn groes i ddiben y ddeddfwriaeth, ni fydd penderfyniad yn cael ei ddileu o reidrwydd.

Os yw'r gofyniad gweithdrefnol yn fwy sylweddol (e.e. gofyniad i ymgynghori â phartion â diddordeb, neu i hysbysu partion sy'n cael eu heffeithio am benderfyniad), mae'n fwy tebygol y bydd y Llys yn ystyried y bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn mynd yn groes i ddiben y ddeddfwriaeth ac mae'r penderfyniad yn fwy tebygol o gael ei ddileu.

Er hynny, fel gyda phob sail arall ar gyfer adolygiad barnwrol, mae adran 31(2A) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 yn nodi bod yn rhaid i'r Llys wrthod dileu penderfyniad (neu ddyfarnu unrhyw ryddhad arall) os yw'n ymddangos yn dra thebygol na fyddai'r canlyniad ar gyfer y sawl sy'n cael ei effeithio gan y penderfyniad wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r penderfynwr wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol dan sylw, oni bai ei fod o'r farn bod rhesymau eithriadol o ran lles y cyhoedd dros ddyfarnu'r rhwymedi.

## **A all y Llys ddod i'r casgliad bod gofynion gweithdrefnol ychwanegol?**

Y gofynion gweithdrefnol mwyaf amlwg yw'r rheini a nodir ar wyneb deddfwriaeth (neu mewn Codau, Codau Ymarfer, neu ganllawiau). Fodd bynnag, gall y Llys, dan amgylchiadau cyfyngedig, ddod i'r casgliad bod gofynion gweithdrefnol sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sy'n ymddangos mewn deddfwriaeth. Dim ond lle nad oes goblygiad o eiriad y ddeddfwriaeth fod y gofynion a nodir ynddi yn rhestr gyflawn y bydd yn gwneud hynny a lle mae'n rhaid dod i'r casgliad bod gofynion ychwanegol i sicrhau tegwch (gweler, er enghraifft, pennod 8 ar y Llys yn dod i gasgliad bod gofynion ymgynghori penodol).

<sup>14</sup> *R v Immigration Appeal Tribunal ex p Jeyeanthan* [2000] 1 WLR 354.





## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddileu ar sail methiant i gydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol

***Bradbury v Enfield London Borough Council*** [1967] 1 WLR 1311.

Roedd yr awdurdod lleol am ad-drefnu ysgolion yn ei ardal drwy eu newid o ysgolion gramadeg ac ysgolion uwchradd modern i ysgolion cyfun. Roedd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi rhybudd i'r ysgolion dan sylw o'i fwriad i ymgynghori ar newid o'r fath. Fel y bu hi, methodd yr awdurdod lleol â hysbysu wyth o'r ysgolion perthnasol.

Dyfarnodd y Llys Apêl fod penderfyniad yr awdurdod i ad-drefnu yn annilys ar y sail bod methu â rhoi'r rhybudd gofynnol o fwriad wedi atal rhieni a'r ysgolion rhag gwrthwynebu cynnig yr awdurdod.



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried deddfwriaeth berthnasol (ac unrhyw ganllawiau, Codau Ymarfer ac ati a wneir o dan y ddeddfwriaeth honno) i ddeall beth yw eu dyletswyddau wrth wneud penderfyniadau penodol.
- Ym mhob achos, dylid rhoi systemau ar waith i sicrhau, cyhyd ag sy'n bosibl, nad yw camweinyddu yn achosi i ofyniad gweithdrefnol gael ei dorri.
- Er bod mwyafrif y gofynion gweithdrefnol wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, o dan amgylchiadau cyfyngedig gall y Llys ddod i'r casgliad bod gofynion ychwanegol os yw hynny'n angenrheidiol i sicrhau tegwch

# 8

## A yw unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal yn deg ac yn briodol?

Gall fod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ymgynghori ar eu cynigion. Gall dyletswydd o'r fath fod wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, neu gall Llys ddod i'r casgliad bod dyletswydd o'r fath.

---

Os yw awdurdodau cyhoeddus yn cynnal ymgynghoriad, rhaid iddo fod yn deg a:

- i. chael ei gynnal pan mae'r cynnig yn cael ei ffurfio – rhaid i awdurdodau cyhoeddus gadw meddwl agored;
  - ii. rhaid rhoi rhesymau digonol i gefnogi'r cynnig er mwyn galluogi ymgynghoriad ac ymateb deallus;
  - iii. rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb;
  - iv. rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad.
- 

Gellir dileu penderfyniad lle mae'r awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori neu mae'n cynnal ymgynghoriad diffygiol.

## O dan ba amgylchiadau mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ymgynghori ar ei gynigion?

Gall deddfwriaeth nodi gofynion ymgynghori datganedig fel rhan o'r weithdrefn benderfynu. Fel y trafodwyd ym mhennod 7, gallai methiant i gydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol datganedig o'r fath adael penderfyniad yn agored i gael ei herio.

Mewn achosion eraill bydd y Llys yn **dod i'r casgliad** bod dyletswydd i ymgynghori, er nad oes gofyniad datganedig mewn deddfwriaeth. Gallai dyletswydd oblygedig o'r fath i ymgynghori godi:

- o addewid datganedig a wnaed gan yr awdurdod cyhoeddus i ymgynghori neu o arferion sefydledig yr awdurdod cyhoeddus (yr hyn a elwir yn ddisgwyliad dilys gweithdrefnol. Gweler pennod 9), neu
- o dan amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'r awdurdod cyhoeddus wedi gwneud addewid datganedig neu wedi addo drwy arferion sefydledig i ymgynghori, ond lle mae effaith ymddygiad blaenorol yr awdurdod (e.e. o ran darparu gwasanaeth penodol) ar unigolyn neu grŵp yn ddigon i roi rheswm i'r unigolyn neu'r grŵp hwnnw ddisgwyl i'r polisi barhau er eu budd arbennig nhw am gyfnod rhesymol. Mewn achos o'r fath ni ellir gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw yn gyfreithlon oni bai bod yr awdurdod yn hysbysu'r bobl sy'n cael eu heffeithio ac yn ymgynghori (yr hyn a elwir yn ddisgwyliad dilys eilaidd).<sup>15</sup>

## Beth yw'r gofynion ar gyfer unrhyw ymgynghoriad a gynhelir?

Boed yna ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori ai peidio, pan gynhelir ymgynghoriad, rhaid gwneud hynny'n deg. Bydd yr hyn sy'n deg yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur y cynigion dan ystyriaeth.<sup>16</sup>

Yn amodol ar ofynion cyffredinol tegwch, bydd gan y penderfynwr ddisgresiwn eang ynghylch sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad<sup>17</sup> a beth y dylid ymgynghori yn ei gylch.<sup>18</sup> Rhaid i'r ymgynghoriad gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol hefyd (fe'u gelwir yn egwyddorion Gunning ar ôl yr achos lle cawsant eu nodi, neu ofynion Sedley ar ôl y bargyfreithiwr wnaeth eu hawgrymu yn yr achos hwnnw).<sup>19</sup>

- Rhaid cynnal yr ymgynghoriad pan mae'r cynnig yn cael ei ffurfio. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gadw meddwl agored yn ystod yr ymgynghoriad a rhaid iddynt beidio â bod wedi gwneud y penderfyniad yn barod, ond hwyrach fod ganddynt rai syniadau am y cynnig
- Rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig er mwyn galluogi ystyriaeth ac ymateb deallus. Rhaid i'r ymgynghoreion gael digon o wybodaeth er mwyn gallu gwneud cyfraniad gwybodus at y broses.

<sup>15</sup> *R (on the application of Bhatt Murphy) v The Independent Assessor* [2008] EWCA Civ 755.

<sup>16</sup> *R (Edwards) v Environment Agency* [2006] EWCA Civ 877.

<sup>17</sup> *R (Greenpeace) v Secretary of State for Trade and Industry* [2007] EWHC 311.

<sup>18</sup> *R (The Vale of Glamorgan) v The Lord Chancellor and Secretary of State for Justice* [2011] EWHC 1532.

<sup>19</sup> Nodwyd gyntaf yn *R v Brent London Borough Council, ex parte Gunning* (1985) 84 LGR 168.

iii. Rhaid caniatáu digon o amser i ystyried ac ymateb. Rhaid i amseriad ac amgylchedd yr ymgynghoriad fod yn briodol, rhaid rhoi digon o amser i bobl ddatblygu barn ar sail gwybodaeth ac yna i roi adborth, a rhaid rhoi digon o amser i ddadansoddi'r canlyniadau.

iv. Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol.

Mae'n ddoeth i benderfynwr ddangos yn ei benderfyniad ei fod wedi cynnal ymgynghoriad a'i fod wedi rhoi pwys priodol i'r sylwadau a ddaeth i law. Gallai hyn olygu bod rhaid i'r penderfynwr ddangos ei fod wedi deall y pwyntiau sy'n cael eu gwneud gan yr ymatebion a'i fod wedi'u hystyried.

## **Beth yw canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad i ymgynghori, neu ymgynghori'n ddiffygiol?**

Gallai methu â chydymffurfio â gofyniad datganedig i ymgynghori olygu bod penderfyniad yn agored i gael ei herio os yw'r Llys o'r farn bod torri'r gofyniad hwnnw yn mynd yn groes i ddiben y ddeddfwriaeth berthnasol (gweler pennod 3).

Os yw'r penderfynwr yn methu â chynnal ymgynghoriad sy'n ofynnol oherwydd addewid iddo'i wneud neu ei arferion blaenorol (disgwyliad dilys gweithdrefnol), gall y Llys ddileu'r penderfyniad os yw o'r farn bod yn gofyn iddo wneud hynny o ran tegwch ac nad oes unrhyw resymau budd cyhoeddus tra phwysig i gyfiawnhau trechu'r disgwyliad dilys (gweler pennod 9).

Os cynhelir ymgynghoriad ond nad yw'n cydymffurfio ag egwyddorion Gunning, gall penderfyniad dilynol gael ei ddileu gan y Llys, yn dibynnu ar natur y diffyg cydymffurfiaeth a'i effaith. Fodd bynnag, fel sy'n wir am bob sail arall ar gyfer adolygiad barnwrol, rhaid i'r Llys wrthod dileu penderfyniad (neu ddyfarnu unrhyw ryddhad arall) os yw'n ymddangos yn dra thebygol na fyddai'r canlyniad ar gyfer y sawl sy'n cael ei effeithio gan y penderfyniad yn sylweddol wahanol pe na bai'r penderfynwr wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad gweithdrefnol dan sylw (e.e. ymgynghori'n deg ac yn briodol). Fodd bynnag, y peth callaf i'w wneud ym mhob achos yw rhoi systemau ar waith i osgoi unrhyw amryfusedd neu gamweinyddu a allai arwain at beidio â chynnal ymgynghoriad gorfodol, neu gynnal ymgynghoriad gorfodol mewn modd annheg neu amhriodol.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddileu ar sail ymgynghoriad diffygiol

#### ***The Queen (on the Application of Mr Lionel Morris) v Newport City Council [2009] EWHC 3051.***

Ym mis Mawrth 2009, penderfynodd Cyngor Dinas Casnewydd ("y Cyngor") gyflwyno rheol mai dim ond cerbydau mwy newydd na thair oed allai gael eu trwyddedu fel cerbydau hurio preifat am y tro cyntaf, ac na allai unrhyw gerbydau hŷn na 10 oed gael adnewyddu eu trwyddedau.

Roedd y Cyngor wedi ymgynghori ar ei bolisi arfaethedig cyn gwneud ei benderfyniad terfynol ym mis Mawrth 2009. Fel rhan o'r broses ymgynghori honno, roedd y Cyngor wedi derbyn tystiolaeth gan gymdeithas y gyrwyr cerbydau hacni lleol fod cerbydau hurio preifat yn destun digon o brofion diogelwch eisoes ar ffurf prawf MOT blynyddol, profion bob chwe mis yr oedd rhaid i'r cerbydau eu pasio, a threfn orfodi lem.

Cafodd penderfyniad y Cyngor ei herio ar y sail, ymhlith pethau eraill, fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â phedwaredd egwyddor Gunning - nad oedd cynnyrch yr ymgynghoriad wedi'i ystyried yn y penderfyniad terfynol. Sail her yw hawlydd oedd nad oedd dadl cymdeithas y gyrwyr fod cerbydau hurio preifat eisoes yn destun profion diogelwch llym wedi cael ei hystyried wrth i'r Cyngor wneud ei benderfyniad terfynol ac roedd y Cyngor wedi methu â chyfeirio at y dadleuon hyn yn y dogfennau a oedd yn cyd-fynd â'r penderfyniad terfynol.

Dyfarnodd y Llys fod methiant y Cyngor i roi sylw i ymateb cymdeithas y gyrwyr i'r ymgynghoriad yn ddiffyg pwysig yn y broses ymgynghori. Cafodd y penderfyniad ei ddileu.



## Gair i gall

Dylai penderfynwyr sicrhau bod eu hymgyngoriadau'n cydymffurfio ag egwyddorion Gunning ym mhob ffordd. Bydd cydymffurfiaeth â'r egwyddorion canlynol yn helpu i sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu bodloni:

- Dylai ymgynghoriadau fod yn glir ac yn fanwl, gan sicrhau bod y cwestiynau'n glir ac yn hawdd i'w hateb;
- Dylai fod gan ymgynghoriadau ddiben – dylid eu cynnal pan mae'r polisi'n cael ei ddatblygu, ac nid pan mae'r penderfynwr eisoes wedi gwneud ei benderfyniad;
- Dylid ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad;
- Dylai ymgynghoriadau roi digon o wybodaeth i'r rhai yr ymgynghorir â nhw allu cynnig ymatebion seiliedig ar wybodaeth;
- Dylai penderfynwyr ystyried y dulliau ymgynghori mwyaf effeithiol o dan yr amgylchiadau a dylid ystyried anghenion penodol y rhanddeiliaid dan sylw (e.e. drwy ystyried amseriad yr ymgynghoriad, drwy baratoi fersiynau addas i bobl ifanc, fersiynau mewn ieithoedd gwahanol ac ati);
- Dylai ymgynghoriadau bara am ddigon o amser i alluogi ymgynghori ystyrlon;
- Dylai penderfynwyr gyhoeddi eu hymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd, a gwneud hynny'n amserol.

# 9

## A oes disgwyliad dilys ynghylch sut y dylai'r pŵer gael ei arfer?

O dan rai amgylchiadau, bydd y Llys yn barnu bod gan hawlydd 'ddisgwyliad dilys' y bydd penderfynwr yn cadw addewid a wnaeth neu'n parhau â'i arferion blaenorol. Mewn achosion o'r fath, gall y Llys ddileu penderfyniad awdurdod cyhoeddus lle byddai'n annheg gadael i'r awdurdod cyhoeddus dorri ei addewid neu newid ei arferion.

---

Mae dau fath eang o ddisgwyliad dilys – disgwyliad dilys gweithdrefnol a disgwyliad dilys sylweddol. Mae disgwyliad dilys gweithdrefnol yn codi lle mae penderfynwr yn addo gwneud pethau penodol yn ystod y broses benderfynu, neu wedi gwneud pethau penodol yn gyson yn y gorffennol.

---

Mae disgwyliad dilys sylweddol yn codi'n llai aml. Mae'n codi lle mae penderfynwr wedi addo i unigolyn neu grŵp penodol o bobl y byddant yn cael budd penodol (neu'n parhau i fwynhau budd penodol).

---

Gall disgwyliad dilys gael ei drechu gan reswm budd cyhoeddus tra phwysig (e.e. yr angen i adran o'r llywodraeth gadw o fewn ei therfynau gwario).

---

## Beth yw athrawiaeth 'disgwyliad dilys'?

Athrawiaeth disgwyliad dilys yw un o reolaethau'r Llys dros arfer pwerau penderfynwr. Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd y Llys yn ymyrryd i atal penderfynwr rhag gwneud penderfyniad penodol (neu'n dileu penderfyniad y mae eisoes wedi'i wneud) lle byddai gweithredoedd neu anweithredoedd blaenorol y penderfynwr yn ei gwneud hi'n annheg i'r penderfyniad aros mewn grym.<sup>20</sup>

Mae dau categori eang o ddisgwyliad dilys:

- **disgwyliad dilys gweithdrefnol.** Fel y trafodwyd ym mhennod 8, mae'n codi lle mae'r penderfynwr yn gwneud addewid datganedig i wneud pethau penodol yn ystod y broses benderfynu (e.e. addewid i ymgynghori) neu lle mae'r penderfynwr wedi gwneud y pethau hynny'n gyson yn y gorffennol.<sup>21</sup> Bydd y Llys yn barnu bod disgwyliad dilys gweithdrefnol lle mae'r arfer wedi ennill ei blwyf i'r fath raddau fel y byddai'n annheg neu'n anghyson â gweinyddu da i ganiatáu i'r awdurdod cyhoeddus gefnu ar yr arfer hwnnw.
- **disgwyliad dilys sylweddol.** Mae'n codi lle mae'r penderfynwr wedi addo cadw polisi cyfredol mewn grym, neu wneud rhywbeth penodol, ar gyfer parti neu grŵp penodol, ac y byddai'r parti neu'r grŵp dan sylw yn cael ei effeithio'n sylweddol gan benderfyniad i dorri'r addewid hwnnw (e.e. penderfyniad i dorri addewid a wnaed i breswlydd cartref gofal y gall aros yno am weddill ei fywyd).

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dyfernir disgwyliad dilys sylweddol<sup>22</sup> - lle byddai caniatáu i'r awdurdod cyhoeddus dorri ei air mor annheg nes ei fod yn gyfystyr â chararfer pŵer. Mae hwn yn drothwy uchel i hawlwyd ei fodloni<sup>23</sup> ac ni ddyfernir disgwyliad dilys sylweddol heblaw lle bo'r addewid yn un taer ac iddo ffocws, wedi'i gyfeirio at unigolyn neu grŵp penodol, ac yn glir, yn ddiamwys a heb amodau perthnasol. Fel rheol, rhaid bod y sawl y gwnaed yr addewid iddo wedi cymryd camau ar sail yr addewid hwnnw, a bod hynny wedi ei roi mewn gwaeth sefyllfa na phe bai heb gymryd y camau hynny.<sup>24</sup>

<sup>20</sup> *R (on the application of Bhatt Murphy) v The Independent Assessor* [2008] EWCA Civ 755 ym mhara 50

<sup>21</sup> Gweler, yng nghyd-destun disgwyliadau dilys gweithdrefnol *Council of Civil Service Unions v Minister for the Civil Service* [1985] AC 374 HL 401 ac *R v Inland Revenue Commissioners, ex p Unilever Plc* [1996] STC 681 CA ar gyfer disgwyliad dilys sylweddol.

<sup>22</sup> *R (Bhatt Murphy) v Independent Assessor* [2008] EWCA Civ 755, para 41.

<sup>23</sup> *R (Godfrey) v Southwark LBC* [2012] EWCA Civ 500, para 51.

<sup>24</sup> *R (Bibi) v Newham London Borough Council* [2001] EWCA Civ 607 para 29 a 30.



## A ellir trechu disgwyliadau dilys?

Bydd y cwestiwn ynghylch a oes disgwyliad dilys wedi codi yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgwyliad dilys sylweddol, lle mae'r trothwy y mae'n rhaid i'r hawlydd ei fodloni yn arbennig o uchel. Bydd y ffactorau y bydd y Llys yn eu hystyried yn cynnwys:

- a oedd yr addewid yn glir ac yn ddiamwys
- a oedd gan y penderfynwr y pŵer i wneud yr addewid.<sup>25</sup> Os na, mae'n annhebygol y bydd hawliad am ddisgwyliad dilys yn llwyddo, ond mae eithriadau lle mae hawliau dynol yn berthnasol.
- a gafodd yr addewid ei wneud gan rywun ag awdurdod digonol i ymrwymo'r penderfynwr i gymryd y camau gweithredu arfaethedig.<sup>26</sup>
- a wnaeth y sawl y gwnaed yr addewid iddo weithredu ar sail yr addewid hwnnw a'i fod mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i'r camau hynny.<sup>27</sup>

Hyd yn oed os yw'r Llys yn fodlon bod yna ddisgwyliad dilys, gall ganiatáu i'r penderfynwr dorri ei air o hyd (h.y. trechu'r disgwyliad dilys) lle mae rheswm *budd cyhoeddus tra phwysig* dros ganiatáu i'r awdurdod cyhoeddus wneud hynny.

<sup>25</sup> Gweler *R v North and East Devon Health Authority ex p Coughlan* [2001] QB 123 .

<sup>26</sup> *R (Bloggs 61) v Secretary of State for the Home Department* [2003] EWCA Civ 686.

<sup>27</sup> *R v Secretary of State for Education and Employment Ex p. Begbie* [2000] 1 WLR 1115.



## Enghraifft o amgylchiadau lle bydd disgwyliad dilys yn cael ei drechu gan reswm budd cyhoeddus tra phwysig

### ***Solar Century Holding Ltd and Others v Secretary of State for Energy and Climate Change [2014] EWHC 3677.***

Cyflwynodd Solar Century gais am adolygiad barnwrol o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i gau cynllun cymorthdaliadau drwy ardollau ar gyfer gosod paneli solar yn 2015. Cyflwynwyd yr her ar y sail bod yna ddisgwyliad dilys ar ôl i lywodraeth y DU wneud datganiadau rhwng 2010 a 2014 na fyddai'r cynllun yn cael ei gau cyn 2017. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol am gau'r cynllun am ei fod yn rhy ddrud o ganlyniad i dwf yn y sector a bod y cynllun yn methu â chydymffurfio â therfynau a osodwyd gan fframwaith rheoli'r llywodraeth ar gyfer gwario a ariennir gan ardollau.

Barnodd y Llys fod yr her wedi methu am nad oedd yna ddisgwyliad dilys gweithdrefnol; roedd dogfennau llywodraeth y DU yn ei gwneud hi'n glir os byddai cynllun a ariennid gan ardollau'n mynd y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan y fframwaith rheoli, byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu a gellid penderfynu cau cynlluniau.

Fodd bynnag, aeth y Llys ymhellach drwy ddweud hyd yn oed pe bai yna ddisgwyliad dilys, byddai wedi cael ei drechu ar sail budd cyhoeddus tra phwysig oherwydd, ymhlith pethau eraill:

- mae budd cyhoeddus yn yr angen macro-economaidd i lywodraeth osod disgyblaeth gyllidebol ar draws pob adran.
- roedd hawl y Trysorlys i osod terfynau ar gostau cynlluniau cymorthdaliadau drwy ardollau'n cyfrif fel ystyriaeth budd cyhoeddus o'r radd flaenaf, ac roedd y ffaith bod y cynllun wedi mynd yn rhy ddrud yn newid sylweddol mewn amgylchiadau ac yn rheswm pwerus dros hawl y llywodraeth i newid ei pholisi.
- roedd cadw at y terfynau a bennwyd gan y fframwaith rheoli yn bwysig o fewn adran unigol o'r llywodraeth, nid dim ond ar draws y llywodraeth yn ei chyfanrwydd. Mae pob adran o'r llywodraeth yn gyfrifol am fantoli ei chyllideb ei hun.
- roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal ymarfer cydbwysio teg rhwng y buddiannau oedd yn gwrthdaro ac wedi ystyried pryderon y rheini oedd yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o amgylchiadau lle nad yw disgwyliad dilys yn cael ei drechu gan reswm budd cyhoeddus tra phwysig

#### *R v North and East Devon Health Authority, ex parte Caughlan* [2001] QB 213

Cafodd yr hawlydd yn yr achos hwn, a oedd yn detraplegig, yn dioddef anymataliaeth ac wedi'i pharlysu'n rhannol yn y bibell resbiradol, ei symud gyda'i chydysniad ym 1993 o ysbyty i Mardon House, cyfleuster y GIG sy'n gofalu am bobl ag anabledd hirdymor. Roedd yr Awdurdod Iechyd wedi dweud wrth yr hawlydd mai Mardon House fyddai ei chartref am weddill ei hoes.

Ym 1998, penderfynodd yr Awdurdod Iechyd gau Mardon House am resymau ariannol a throsglwyddo gofalu nyrsio hirdymor yr hawlydd i'r awdurdod lleol. Heriodd yr hawlydd y penderfyniad ar y sail, ymhlith pethau eraill, fod addewid yr Awdurdod Iechyd mai Mardon House

fyddai ei chartref am oes wedi creu disgwyliad dilys na fyddai'n cael ei symud yn erbyn ei hewyllys. Roedd yr Awdurdod Iechyd wedi dadlau mewn ymateb fod unrhyw ddisgwyliad dilys yn cael ei lesteirio gan resymau budd cyhoeddus ariannol tra phwysig.

Barnodd y Llys Apêl fod addewid yr Awdurdod Iechyd ynghylch sut byddai'n ymddwyn yn y dyfodol wedi sefydlu disgwyliad dilys sylweddol. Yn sgil pa mor bwysig oedd yr addewid i'r hawlydd a bod yr addewid wedi'i gyfyngu i'r hawlydd ac ambell i unigolyn arall, roedd yr Awdurdod Iechyd wedi methu â chyfiawnhau'r penderfyniad ar sail lles y cyhoedd.



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried yn ofalus cyn gwneud unrhyw gonsesiynau a allai ddod yn arfer sefydledig.
- Lle mae penderfynwr yn ymgysylltu ag unigolyn arbennig ar bolisi, mae'n bwysig ymgynghori â'r unigolyn hwnnw cyn newid y polisi.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod y ffactorau perthnasol a gafodd eu hystyried wrth wneud penderfyniad yn cael eu harchwilio'n glir. Dylai penderfynwyr gadw cofnodion llawn hefyd o unrhyw resymau gwrthbwysol dros beidio â chynnal disgwyliad dilys.
- Lle mae penderfynwr yn ceisio cefnu ar addewid a wnaed ganddo neu ymddygiad blaenorol, dylai ystyried a oes unrhyw resymau budd cyhoeddus tra phwysig dros gefnu ar unrhyw ddisgwyliad dilys sydd wedi'i greu.

# 10

## A yw'r penderfynwr yn rhagfarnllyd neu a yw'n ymddangos yn rhagfarnllyd?

*"It is not merely of some importance, but of fundamental importance that justice should not only be done, but should manifestly and undoubtedly be seen to be done."*

---

Yn y bôn, mae'r rheol yn erbyn rhagfarn yn golygu na ddylai fod gan y penderfynwr fudd yng nghanlyniad y penderfyniad.<sup>28</sup>

---

Bydd penderfynwr yn rhagfarnllyd os yw ei agwedd wrth wneud penderfyniad yn ei atal rhag cael meddwl agored a rhag gwneud penderfyniad gwrthrychol.

---

Bydd y Llys yn dileu penderfyniad awdurdod cyhoeddus os oes gan y penderfynwr ragfarn uniongyrchol (h.y. lle mae ganddo fudd yn y penderfyniad sy'n cael ei wneud).

---

Gall y Llys ddileu'r penderfyniad hefyd lle mae'r awdurdod cyhoeddus yn ymddangos yn rhagfarnllyd. Bydd y Llys yn barnu bod ymddangosiad o ragfarn lle byddai arsylwr teg a gwybodus, ar ôl ystyried y ffeithiau, yn dod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol fod y penderfynwr yn rhagfarnllyd.

---

<sup>28</sup>. *R v Sussex Justices, ex p McCarthy* [1924] 1 KB 256.15.

## Beth yw'r rheol yn erbyn rhagfarn?

Gall y Llys farnu bod penderfyniad yn annheg yn weithdrefnol ac y dylid ei ddileu os oes gan y penderfynwr ragfarn uniongyrchol wrth wneud penderfyniad arbennig, neu hyd yn oed os yw'n ymddangos bod ganddo ragfarn. Bydd gan benderfynwr 'ragfarn' lle mae ganddo agwedd sy'n ei atal rhag gwneud penderfyniad yn wrthrychol. Mae'r rheol yn caniatáu i'r Llys sicrhau bod y broses benderfynu yn deg a bod gan benderfynwyr feddwl agored.

Bydd gan benderfynwr **ragfarn uniongyrchol** lle mae ganddo fudd yn y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Gallai hyn godi os oes gan yr awdurdod cyhoeddus fudd ariannol mewn penderfyniad arbennig (e.e. byddai gan gynghorydd awdurdod lleol fudd mewn penderfyniad i ddyfarnu grant i gwmni y mae gan y cynghorydd gyfranddaliadau ynddo). Os yw budd y penderfynwr yn fwy nag un bach neu bell, bydd y penderfynwr yn cael ei wahardd rhag gwneud y penderfyniad a bydd unrhyw benderfyniad y mae wedi'i wneud yn cael ei ddileu.

Bydd penderfynwr yn **ymddangos yn rhagfarnllyd** lle byddai rhywun teg a gwybodus, ar ôl ystyried y ffeithiau, yn dod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol fod y penderfynwr yn rhagfarnllyd.

Rhaid i benderfynwyr sicrhau felly nad oes ganddynt fudd uniongyrchol yn y penderfyniad sy'n cael ei wneud, a dylent ystyried peidio â gweithredu fel penderfynwr hefyd os oes posibilrwydd gwirioneddol y gellid herio eu hamhleidioldeb mewn achos arbennig.

## A ellir hepgor rhagfarn penderfynwr?

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd person a fydd yn cael ei effeithio gan benderfyniad yn gwybod bod gan y penderfynwr fudd yn y penderfyniad (e.e. os yw'r swyddog sy'n gwneud y penderfyniad ar ran yr awdurdod cyhoeddus wedi ymdrin â'r penderfyniad yn flaenorol ac yn adnabod y partïon dan sylw), ond y bydd er hynny'n dewis caniatáu i'r penderfynwr barhau i weithredu (h.y. byddant yn cytuno i hepgor unrhyw wrthwynebiad sydd ganddo i gyfraniad y penderfynwr). Os yw'r sawl sy'n cael ei effeithio gan benderfyniad yn hepgor ei wrthwynebiad fel hyn, mae'n dra annhebygol y bydd yn cael codi gwrthwynebiad ar y sail hon yn ddiweddarach.

## Beth yw canlyniadau rhagfarn gan y penderfynwr?

Fel y nodir uchod, os oes gan y penderfynwr fudd yn y penderfyniad, caiff y penderfynwr ei wahardd a bydd unrhyw benderfyniad a wneir ganddo'n cael ei ddileu.

Os yw penderfynwr yn ymddangos yn rhagfarnllyd yn unig, gallai'r Llys benderfynu dileu'r penderfyniad yn yr achos hwn hefyd. Fodd bynnag, fel yn achos pob sail arall ar gyfer adolygiad barnwrol, yn absenoldeb rhesymau eithriadol o ran lles y cyhoedd, rhaid i'r Llys **wrthod** dileu penderfyniad (neu ddyfarnu unrhyw ryddhad arall) os yw'n ymddangos yn dra annhebygol na fyddai'r canlyniad ar gyfer y sawl sy'n cael ei effeithio gan y penderfyniad wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r penderfynwr wedi ymddangos yn rhagfarnllyd.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddileu oherwydd i benderfynwr ymddangos yn rhagfarnllyd

***Kelton v Wiltshire Council*** [2015] EWHC 2853.

Roedd pwyllgor o gynghorwyr yr awdurdod lleol wedi pleidleisio, o fwyafrif o un, o blaid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad preswyl a oedd yn cynnwys tai fforddiadwy. Roedd un o'r cynghorwyr a oedd wedi pleidleisio o blaid rhoi caniatâd cynllunio yn gyfarwyddwr ar gymdeithas tai a oedd yn debygol o ennill y contract i ddarparu elfen tai fforddiadwy'r datblygiad. Roedd y cynghorydd wedi datgan ei rôl yn y gymdeithas tai, ond wedi pleidleisio beth bynnag. Gwnaeth hynny ar y sail nad y gymdeithas tai oedd yn gwneud y cais am ganiatâd cynllunio, ac mai dim ond corff y gellid dyfarnu contract iddo yn y dyfodol am un elfen o'r datblygiad ydoedd.

Bu penderfyniad yr awdurdod yn destun adolygiad barnwrol ar y sail, ymhlith pethau eraill, fod y penderfyniad wedi'i ddifwyno am ei fod yn ymddangos yn rhagfarnllyd. Cytunodd y Llys a phenderfynodd ddileu'r penderfyniad.

Canfu ei bod hi'n amlwg o fudd i'r gymdeithas tai i'r caniatâd cynllunio gael ei roi a bod y gymdeithas wedi gweithio gyda'r datblygwyr ar eu cais am ganiatâd cynllunio. Penderfynodd y Llys er nad oedd gan y cynghorydd fudd uniongyrchol yn y penderfyniad ac felly nad oedd wedi'i wahardd yn awtomatig rhag cymryd rhan yn y cyfarfod, roedd cyfranogiad y cynghorydd yn golygu bod ymddangosiad o ragfarn bosibl – byddai'r arsylwr teg a gwybodus, o ystyried yr holl ffeithiau perthnasol, yn dod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol o ragfarn. Daeth y Llys i'r casgliad hefyd oherwydd cymaint oedd y posibilrwydd o ymddangos yn rhagfarnllyd, y byddai wedi bod yn amhriodol i'r cynghorydd gymryd rhan yn y cyfarfod cynllunio o gwbl, hyd yn oed pe na bai wedi pleidleisio.



## Gair i gall

- Dylai fod gan benderfynwyr weithdrefnau neu bolisiau ar waith i osgoi rhagfarn ac ymddangosiad o ragfarn. Gallai'r polisiau ddarparu, er enghraifft, os yw'r swyddog sy'n gwneud y penderfyniad ar ran yr awdurdod cyhoeddus yn adnabod yr ymgeisydd, naill ai'n bersonol neu drwy gysylltiad blaenorol, dylid trosglwyddo'r mater i swyddog arall.
- Lle mae mathau penodol o benderfyniadau yn gofyn am i benderfynwr roi cyngor/mewnbwn technegol/cynnal ymchwiliadau cyn y penderfyniad terfynol, a gwneud y penderfyniad terfynol ei hun, dylai'r penderfynwr ystyried a ddylai roi strwythurau ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n darparu'r cyngor/mewnbwn technegol/ymchwiliadau ar wahân i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai hyn leihau'r risg fod y penderfynwr yn ymddangos yn rhagfarnllyd.
- Os yw'r penderfynwr yn ymwybodol o unrhyw resymau pam y gallai ymddangos yn rhagfarnllyd, mae'n synhwyrol datgan y rhesymau hynny yn y cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle hefyd i unrhyw ymgeiswyr hepgor eu gwrthwynebiadau yn gynnar yn y broses, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- O dan amgylchiadau cyfyngedig, hyd yn oed os oes gan yr unigolyn (e.e. cynghorydd neu swyddog) a fyddai'n gwneud y penderfyniad ar ran yr awdurdod cyhoeddus fel rheol fudd yn y penderfyniad, ni ellir gwahardd yr unigolyn hwinnw os oes angen gwneud y penderfyniad ac nad oes modd gwneud y penderfyniad heb gyfraniad yr unigolyn hwinnw. Fodd bynnag, ni ddylai penderfynwyr ganiatáu i'r unigolyn hwinnw weithredu oni bai eu bod wedi rhoi cynnig ar bob dewis arall ac wedi cael cyngor cyfreithiol.



# 11

## A oes rhaid i'r penderfynwr roi rhesymau am ei benderfyniad?

Gall fod gofyn i awdurdodau cyhoeddus roi rhesymau am eu penderfyniadau. Gall y gofynion gael eu pennu gan ddeddfwriaeth, neu efallai y bydd y Llys yn dod i'r casgliad bod gofynion o'r fath lle mae angen rhesymau er lles tegwch.

---

Nid oes un rheol bendant ynghylch pa mor fanwl y mae'n rhaid i'r rhesymau fod. Fodd bynnag, rhaid i'r rhesymau a roddir fod yn ddealladwy ac yn ddigonol ym mhob achos, a rhaid iddynt fod yn ddigonol i'r partion allu deall mewn termau eang pam y gwnaed y penderfyniad.

---

Gall y Llys ddileu penderfyniad y mae'n ystyried ei fod yn annheg o ganlyniad i fethiant i roi rhesymau.

---

## Pryd y mae gofyn i benderfynwr roi rhesymau am ei benderfyniad?

Dylai penderfynwr roi gwybod i bartïon â diddordeb beth yw ei benderfyniad bob amser. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau sicrwydd cyfreithiol; ym mhob achos rhaid i unigolyn gael y cyfle i wybod beth y mae gofyn iddo ei wneud, yn enwedig os oes cosbau am fethu â chydymffurfio â'r gofynion hynny.

Gall fod gofyniad cyfreithiol i roi **rhesymau** am y penderfyniad hefyd. Gall y ddyletswydd i roi rhesymau fod wedi'i datgan mewn deddfwriaeth. Fel arall, gall y Llys ddod i'r casgliad bod dyletswydd i roi rhesymau (e.e. os oes gan yr awdurdod cyhoeddus dan sylw bolisi i roi rhesymau am ei benderfyniadau ym mhob achos, sydd felly'n rhoi 'disgwyliad dilys' i bartïon â diddordeb y bydd rhesymau'n cael eu rhoi (gweler pennod 9)).

Mae'r Llys yn fwyaf tebygol o ddod i'r casgliad bod dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus i roi rhesymau lle byddai'n annheg i'r awdurdod cyhoeddus beidio â gwneud hynny, er enghraifft:

- os oes angen rhesymau i alluogi parti â buddiant i apelio yn erbyn penderfyniad;
- os yw'r penderfyniad yn effeithio ar ryddid neu hawliau dynol rhywun;
- os yw'r penderfyniad yn anghyffredin mewn rhyw ffordd (e.e. yn groes i arfer sefydledig);
- os yw'r penderfyniad yn ymddangos yn groes i'r dystiolaeth.

Mae'r Llys yn llai tebygol o ddod i'r casgliad bod dyletswydd i roi rhesymau lle byddai'n anodd iawn i'r penderfynwr wneud hynny (e.e. lle mae'r penderfyniad yn gwbl seiliedig ar arfer crebwyll, er enghraifft, lle mae'n rhaid i'r penderfynwr arfer ei grebwyll i ddewis pa ymgeisydd ddylai gael cyllid grant).<sup>29</sup>

## Pa mor fanwl ddylai'r rhesymau fod?

Bydd lefel y manylder sydd ei angen gan benderfynwyr yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos. Yn gyffredinol, bydd ar y Llys angen rhesymau manylach ar gyfer penderfyniadau pwysig nag ar gyfer penderfyniadau gweinyddol yn unig. Fodd bynnag, nid oes un safon unffurf a fydd yn gymwys ym mhob achos, ac eithrio bod rhaid i'r rhesymau fod yn ddealladwy ac yn ddigonol ym mhob achos. Nid oes rhaid i'r rhesymau a roddir fod yn faith a byddant yn ddigonol os ydynt yn dangos bod y penderfynwr wedi rhoi sylw i sylwadau'r partiön a dweud wrth y partiön mewn termau eang pam cafodd y penderfyniad ei wneud.

<sup>29</sup> gweler *R (on the application of the Asha Foundation) v The Millennium Commission* [2003] EWCA Civ 88.

## A ddylai'r penderfynwr roi rhesymau hyd yn oed os nad oes dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny?

Hyd yn oed oes yw'n ymddangos yn annhebygol fod dyletswydd i roi rhesymau am benderfyniad, gallai fod yn ddoeth i benderfynwr ystyried rhoi rhesymau. Bydd gwneud hynny'n galluogi'r partïon sy'n cael eu heffeithio i ddeall y sail dros y penderfyniad a gallai helpu i ddangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol cyfraith weinyddol, e.e. bod ystyriaethau perthnasol wedi cael sylw a bod y penderfyniad yn rhesymol.

Os yw'r penderfynwr yn rhoi ei rhesymau o'i wirfodd (h.y. lle nad oes gofyniad cyfreithiol iddo wneud hynny), rhaid i'r rhesymau hynny fod yr un mor fanwl â phe bai gofyniad i roi rhesymau; h.y. rhaid iddynt fod yn ddigonol ac yn ddealladwy o leiaf.

## Beth yw'r canlyniadau os nad yw penderfynwr yn rhoi rhesymau am ei benderfyniad?

Gall y Llys ddewis dileu penderfyniad os yw o'r farn bod y penderfyniad yn annheg oherwydd methiant i roi rhesymau. Fodd bynnag, fel sy'n wir am bob sail arall ar gyfer adolygiad barnwrol, yn absenoldeb unrhyw resymau eithriadol yn ymwneud â lles y cyhoedd, rhaid i'r llys **wrthod** dileu penderfyniad (neu ddyfarnu unrhyw rwymedi arall) os yw'n ymddangos yn hynod debygol na fyddai'r canlyniad ar gyfer y sawl sy'n cael ei effeithio gan y penderfyniad wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r penderfynwr wedi methu â rhoi rhesymau.

Ar yr olwg gyntaf, gall ymddangos yn annhebygol y gallai rhoi rhesymau (neu fethu â gwneud hynny) ddylanwadu ar y penderfyniad ei hun o gwbl; caiff rhesymau eu rhoi ar ôl gwneud penderfyniad, felly sut gallai rhoi rhesymau ddylanwadu ar sylwedd y penderfyniad o gwbl? Yr ateb yw, o dan rai amgylchiadau, byddai'r broses o lunio rhesymau am ei benderfyniad yn peri i'r penderfynwr ganolbwyntio'n llawn ar y dasg dan sylw ac ystyried ystyriaethau perthnasol. O dan yr amgylchiadau hyn, gallai'r broses o lunio'r rhesymau gael effaith ar sylwedd y penderfyniad ei hun. Os felly, gallai'r Llys ddileu'r penderfyniad ar y sail bod y penderfynwr wedi methu â rhoi rhesymau am ei benderfyniad.



## Astudiaeth Achos

### Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddileu am fethiant i roi rhesymau

***R (on the application of Cash) v HM Coroner for Northamptonshire*** [2007] EWHC 1354.

Roedd yr achos yn ymwneud â chwest a gynhaliwyd i farwolaeth dyn a oedd wedi marw ar ôl cymryd gorddos o gyffuriau ac a oedd wedi cael ei gaethiwo gan swyddogion yr heddlu yn union cyn ei farwolaeth. Ar ddiwedd y cwest, roedd y Crwner wedi cyfarwyddo'r rheithgor na fyddent yn gallu dyfarnu rheithfarn o ladd anghyfreithlon, dim ond marwolaeth ddamweiniol neu reithfarn agored. Nid oedd y Crwner wedi rhoi rhesymau am benderfynu nad oedd rheithfarn o ladd anghyfreithlon yn opsiwn i'r rheithgor. Cynhaliwyd adolygiad barnwrol o ganfyddiad y cwest gan chwaer yr ymadawedig ar y

sail, ymhlith pethau eraill, fod methiant y Crwner i roi rhesymau yn gwneud y penderfyniad yn annheg.

Cytunodd y Llys y dylai bod y Crwner wedi rhoi rhesymau am atal y rheithgor rhag dyfarnu rheithfarn o ladd anghyfreithlon a phenderfynodd ddileu penderfyniad y cwest. Dywedodd y Llys hefyd y byddai'r broses o lunio'r rhesymau am y penderfyniad wedi hoelio sylw'r Crwner ar y materion, a bod gan yr hawlydd yr hawl i ddigon o resymau i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a fyddai'n cynnal adolygiad barnwrol o reithfarn y cwest.



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried geiriad y ddeddfwriaeth berthnasol i bennu a oes dyletswydd benodol i roi rhesymau am benderfyniad, a dylent fod yn ymwybodol y gallai'r Llys ddod i'r casgliad bod dyletswydd o'r fath os yw o'r farn ei bod yn angenrheidiol i sicrhau tegwch, hyd yn oed lle nad yw deddfwriaeth yn datgan yn benodol bod dyletswydd i wneud hynny.
- Ym mhob achos, yn enwedig lle mae'n rhaid rhoi rhesymau (neu bosibilrwydd fod rhaid eu rhoi), dylai penderfynwyr fabwysiadu gweithdrefnau cadw cofnodion da (a gweler pennod 17 am fanylion ar oblygiadau Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Bydd gweithdrefnau cadw cofnodion da yn cynorthwyo penderfynwyr i gydymffurfio ag egwyddorion gweinyddu da.

# 12

## A yw'r penderfyniad yn rhesymol?

Gall penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus gael eu herio ar y sail eu bod yn afresymol.

---

Bydd y prawf a ddefnyddir gan y Llys i benderfynu a yw penderfyniad yn rhesymol, a pha mor ddwys neu fanwl y mae'n adolygu penderfyniad, yn amrywio yn ôl amgylchiadau a chyd-destun pob achos. Fodd bynnag, y prawf a ddefnyddir amlaf yw a yw penderfyniad yr awdurdod cyhoeddus o fewn "ystod o benderfyniadau rhesymol" y gallai awdurdod cyhoeddus fod wedi'u gwneud yn yr amgylchiadau.

---

Mewn rhai achosion, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â chrebwyll gwleidyddol, bydd yna drothwy uchel a bydd hi'n anodd i'r hawlydd ddangos bod y penderfyniad yn afresymol.

---

Mewn achosion eraill, yn enwedig lle mae hawliau unigolyn neu egwyddorion cyfansoddiadol dan sylw, bydd y trothwy'n is a bydd y Llys yn craffu'n fanylach ar y penderfyniad.

---

Os yw llys o'r farn bod penderfyniad yn afresymol, gall gael ei ddileu.

---

## Beth yw'r prawf afresymoldeb?

Gall penderfyniad awdurdod cyhoeddus gael ei herio ar sail afresymoldeb. Y prawf a ddefnyddir gan y Llys amlaf heddiw i bennu a yw penderfyniad yn rhesymol yw a yw'r penderfyniad "o fewn yr ystod o ymatebion rhesymol" y gallai'r penderfynwr fod wedi'u gwneud yn yr amgylchiadau.<sup>30</sup> Fodd bynnag, nid oes prawf unigol safonol a fydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob achos i bennu pa mor rhesymol yw penderfyniad. Yn hytrach, bydd y prawf i'w ddefnyddio a pha mor ddwys neu fanwl y bydd y Llys yn adolygu rhesymoldeb penderfyniad yn amrywio yn ôl y pwnc dan sylw a difrifoldeb yr hyn sydd yn y fantol.

Ymhlith yr achosion a allai fod yn destun adolygiad dwysedd isel mai rhai sy'n ymwneud â chrebwyll gwleidyddol, e.e. materion polisi economaidd cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y gallai'r trothwy ar gyfer dangos afresymoldeb fod yn uchel iawn (e.e. lle mae'n rhaid dangos bod penderfyniad yn fympwyol neu'n wrthnysig, heb gyfiawnhad rhesymol amlwg, heb unrhyw gyfiawnhad credadwy, neu lle mae gwall rhesymu sy'n golygu nad oes rhesymeg i'r penderfyniad).

Fodd bynnag, mae penderfyniadau'n ymwneud â hawliau neu egwyddorion cyfansoddiadol unigolyn (e.e. hawliau sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith – rhyddid, hygyrchedd y gyfraith, sicrwydd y gyfraith, atebolrwydd, mynediad at gyfiawnder) yn destun craffu mwy dwys neu fanwl fel rheol. Yn yr achosion hyn, defnyddir trothwy is o afresymoldeb, a gall y Llys ofyn am dystiolaeth sylweddol nad yw'r penderfyniad yn mynd ymhellach nag sydd angen i gyflawni amcan y penderfyniad, a bod yr amcan yn ddigon pwysig. Mae hyn yn debyg iawn i'r ystyriaethau sy'n cael eu cymhwyso gan y Llys o dan y prawf cymesuredd (gweler pennod 13).

## Beth all ac na all y Llys ei wneud

Bydd y Llys yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i benderfynwyr ac ni fydd yn ystyried a yw penderfyniad yn gwbl gywir neu'n benderfyniad y byddai'r Llys ei hun wedi'i wneud o reidrwydd. Lle mae corff deddfwriaethol sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd wedi rhoi disgresiwn i benderfynwr penodol (h.y. awdurdod cyhoeddus), bydd y Llys yn ystyried bod y disgresiwn yn eiddo i'r penderfynwyr o hyd. Nid lle'r Llys yw arfer y disgresiwn yn lle hynny. Ni fydd y Llys yn ail-wneud penderfyniad yr awdurdod cyhoeddus ar sail y ffeithiau, ond mewn achosion priodol (e.e. rhai sy'n ymwneud â hawliau unigolyn neu reolaeth y gyfraith) bydd yn edrych yn ofalus iawn ar y ffordd mae'r ffeithiau wedi'u sefydlu a rhesymeg y casgliadau a wneir ar sail y ffeithiau hynny.

<sup>30</sup> Cafodd y prawf afresymoldeb (afresymoldeb 'Wednesbury' ar ôl y prif achos) ei fframio i gychwyn o ran bod penderfyniad afresymol yn 'benderfyniad na allai'r un corff rhesymol fod wedi'i wneud'. Cafodd y prawf ei ail-lunio yn nhermau 'afresymoldeb' (irrationality) yn yr achos CCSU, lle'r oedd trothwy uchel iawn ar gyfer dangos bod penderfyniad yn afresymol; 'a decision which is so outrageous in its defiance of logic or of accepted moral standards that no sensible person who had applied his mind to the question to be decided could have arrived at it.'

Trwy roi'r hyblygrwydd hwn i benderfynwyr – a bydd graddau'r hyblygrwydd yn amrywio o un achos i'r llall – mae'r Llys wedi cydnabod ei bod hi'n hollol bosibl i wahanol bobl resymol, o gael yr un set o ffeithiau, ddod i gasgliadau gwahanol heb fod yn afresymol. Mae hyn yn golygu nad yw pob achos o arfer crebwyll yn anghywir yn afresymol. O'r herwydd gall penderfyniadau cyfreithlon o fewn disgresiwn y penderfynwr (h.y. o fewn yr ystod o ymatebion rhesymol), ond bydd lled yr ystod honno'n dibynnu ar gyd-destun y penderfyniad.

Os yw'r Llys yn barnu bod y penderfyniad yn afresymol, gall ddewis dileu'r penderfyniad, heb adael un arall yn ei le. Gall y penderfynwr (neu yn aml mae'n rhaid iddo) ailystyried y penderfyniad, gan ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan y Llys a chymhwyso egwyddorion mwy rhesymol. Gellid disgwyl na fydd y penderfynwr yn ail-wneud y penderfyniad afresymol gwreiddiol.

## **Pa ffactorau fydd y Llys yn eu hystyried wrth bennu rhesymolrwydd?**

*"The flexibility necessarily inherent [in the unreasonableness test] should not be sacrificed on the altar of legal certainty".<sup>31</sup>*

Fel y nodir uchod, mae gan y Llys ddisgresiwn eang wrth ystyried rhesymolrwydd penderfyniad. Bydd y ffactorau mae'n dewis eu hystyried (a dwysedd ei waith craffu) yn amrywio o un achos i'r llall ac yn dibynnu ar y cyd-destun. Felly nid yw'n bosibl rhoi rhestr o'r ffactorau y bydd y Llys yn eu hystyried ym mhob achos. Yn wir, mae'r Llys ei hun wedi dweud bod y rhestr o seiliau y gellid eu hystyried wrth bennu a yw penderfyniad yn afresymol yn "ddi-ben-draw yn ôl pob tebyg".

Fel canllaw cyffredinol, mae rhai o ystyriaethau'r Llys mewn achosion sydd wedi'u penderfynu yn dod o dan y penawdau eang canlynol.

<sup>31</sup> Simon Brown LJ yn R v IRC, ex p Unilever plc [1996] STC 681 ym mharagraffau 694-695.

## Proses afresymol

- gall mympwyoldeb neu resymeg ddiffygiol yn y broses benderfynu, os yw'n ddigon difrifol, wneud y penderfyniad yn un afresymol.
- gellir barnu bod penderfyniad yn afresymol os yw'n seiliedig ar gasgliad nad yw'n cael ei gefnogi o gwbl gan dystiolaeth neu resymau da, neu lle na fyddai unrhyw unigolyn rhesymol yn ystyried y dystiolaeth yn ddigonol i gefnogi'r casgliad y daethpwyd iddo. Er mwyn cael ei farnu'n afresymol, rhaid i'r casgliad y daethpwyd iddo fod yn berthnasol i resymau'r penderfynwr am y penderfyniad neu'n rhan annatod ohonynt (e.e. byddai penderfyniad datblygiad cynllunio yn seiliedig ar y casgliad mai dim ond yn rhannol y byddai'r datblygiad yn effeithio ar yr olygfa o ffenestr yr hawlydd yn afresymol oherwydd, mewn gwirionedd, byddai'r datblygiad yn rhwystro'r olygfa'n llwyr).<sup>32</sup>
- yn dibynnu ar y cyd-destun, gall penderfyniad fod yn afresymol hefyd os yw'r Llys yn canfod fod tystiolaeth aruthrol o blaid un ffordd o weithredu ond bod y penderfynwr wedi dewis penderfynu ar y mater mewn ffordd wahanol a chyferbyniol.<sup>33</sup> Yn yr un modd, gall penderfyniad fod yn afresymol os rhoddwyd pwys "amllwg o ormodol" neu "amllwg o annigonol" i ystyriaeth berthnasol benodol.<sup>34</sup>
- gall penderfyniad sy'n cael ei wneud heb ystyried dewisiadau amgen gael ei ystyried yn afresymol. Gellir hefyd dod i'r casgliad bod yna afresymoldeb yn sgil methiant penderfynwr i roi rhesymau am y penderfyniad a wnaed lle maent yn ofynnol<sup>35</sup> (gweler pennod 11).

## Ymyrryd â hawliau unigolyn neu egwyddorion cyfansoddiadol person (yn cynnwys rheolaeth y gyfraith)

- gall penderfyniad sy'n ymyrryd â hawliau unigolyn neu'n mynd yn groes i reolaeth y gyfraith (h.y. egwyddorion yn cynnwys hygyrchedd y gyfraith, atebolrwydd, sicrwydd, cysondeb, cydraddoldeb gerbron y gyfraith a'r hawl i dreial teg) gael ei ystyried yn afresymol.<sup>36</sup> Gweler pennod 13 am yr amgylchiadau lle gellir herio penderfyniadau sy'n ymyrryd â hawliau pobl ar sail cymesuredd. Er enghraifft, gall methiant i hysbysu ymgeisydd am benderfyniad wneud y penderfyniad hwnnw'n afresymol. Mae hyn oherwydd y byddai'r methiant i hysbysu'n mynd yn groes i'r angen am sicrwydd cyfreithiol (h.y. ni fyddai'r ymgeisydd yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol y mae angen iddo gydymffurfio â nhw) a'r hawl i dreial teg (h.y. ni fyddai modd herio'r penderfyniad os nad oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol ohono).<sup>37</sup>

<sup>32</sup> *Jagendorf v Secretary of State* [1987] JPL 771.

<sup>33</sup> *Emma Hotels Ltd v Secretary of State for the Environment* (1980) 41 P&CR 255.

<sup>34</sup> *Secretary of State for Trade and Industry ex p BT3G Ltd* [2001] Eu LR 325.

<sup>35</sup> *Padfield v Minister of Agriculture Fisheries and Food* [1968] AC 997.

<sup>36</sup> *R (Yumsak) v Enfield London Borough Council* [2002] EWHC 280.

<sup>37</sup> *R (on the application of Anufrijeva) v Secretary of State for the Home Department* [2003] UKHL 36.



## Penderfyniadau gormesol

- gall penderfyniad fod yn afresymol os yw'n rhy ormesol neu annheg. Gall hyn fod oherwydd bod penderfyniad yn rhoi gofyniad diangen o feichus ar y sawl sy'n cael ei effeithio neu'n ei roi mewn caledi gormodol. Yn y math hwn o her, bydd y Llys yn asesu canlyniad y broses benderfynu, yn hytrach na'r broses o wneud y penderfyniad, a bydd yn ystyried pob achos yn ei gyd-destun. Mae enghreifftiau o benderfyniadau sydd wedi'u barnu'n afresymol oherwydd eu bod yn rhy ormesol yn cynnwys:
  - penderfyniad sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i unigolyn wneud rhywbeth na all ei wneud yn gyfreithlon (e.e. roedd gofyniad i landlordiaid lanhau eu heiddo gosod ym mis Ebrill, Mai neu Fehefin yn afresymol oherwydd gallai fod rhaid i landlordiaid dresmasu er mwyn cael mynediad i'w heiddo yn ystod y misoedd hynny);<sup>38</sup>
  - penderfyniad awdurdod lleol i ddefnyddio pŵer prynu gorfodol er ei fod eisoes yn berchen ar dir yr un mor addas neu'n gallu ei gaffael drwy ffyrdd eraill;<sup>39</sup>
  - penderfyniad sy'n gorfodi cosbau gormodol.<sup>40</sup>
- yn olaf, nodir yn y cyd-destun hwn bod penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid yn destun adolygiad afresymoldeb, hyd yn oed os yw adnoddau ariannol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, byddai'n anodd iawn i hawlydd ddangos bod penderfyniad i ddyrannu adnoddau i unigolyn penodol yn afresymol.<sup>41</sup>

<sup>38</sup> *Arlidge v Islington Corporation* [1909] 2KB 127.

<sup>39</sup> *Brown v Secretary of State for the Environment* (1978) 40 P&CR 285.

<sup>40</sup> *Wheeler v Leicester City Council* [1985] 1 AC 1054.

<sup>41</sup> *R (Bibi) v Newham LBC* [2002] 1 WLR 237.



### Astudiaeth Achos

## Enghraifft o benderfyniad yn cael ei farnu'n afresymol

*R (Yumsak) v Enfield London Borough Council* [2002] EWHC Civ 280.

Roedd yr awdurdod lleol wedi penderfynu lletya'r hawlydd, a oedd yn byw yn Enfield, Llundain, mewn llety gwely a brecwast yn Birmingham, er bod yr hawlydd yn gwrthwynebu symud yno. Roedd pob parti yn yr achos yn derbyn bod y llety gwely a brecwast mewn cyflwr ofnadwy.

Barnwyd bod penderfyniad yr awdurdod tai yn afresymol ac nad oedd tystiolaeth nad oedd llety dros dro arall addas a chost- effeithiol yn Enfield neu'n agosach i Enfield.



### Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried a yw penderfyniad yn un y gellid dweud ei fod yn ymyrryd â hawliau unigolyn. Os felly, gallai'r Llys graffu'n fanylach ar y penderfyniad wrth benderfynu beth sy'n rhesymol (ond gweler pennod 13 hefyd am yr amgylchiadau lle gellir herio penderfyniad sy'n ymyrryd â hawliau dynol ar sail cymesuredd yn hytrach na rhesymolrwydd).
- Bydd y prawf afresymoldeb y gall y Llys ei gymhwyso yn amrywio o un achos i'r llall, yn dibynnu ar y cyd-destun. Dylai penderfynwyr gadw at egwyddorion penderfynu da bob amser ac, ymhlith pethau eraill, dylent sicrhau bod penderfyniadau:
  - yn seiliedig ar dystiolaeth,
  - yn seiliedig ar gasgliadau rhesymegol a rhesymedig, ac
  - yn cael eu gwneud ar ôl ystyried a chofnodi dewisiadau amgen posibl.

# 13 A yw'r penderfyniad yn gymesur?

Mae athrawiaeth cymesuredd yn ymwneud â chydbwysedd ac a yw'r modd yn cyfiawnhau'r amcan a gyflawnir.

---

Gall penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus gael eu herio ar sail cymesuredd lle maent yn ymyrryd yn sylweddol â hawliau pwysig neu sylfaenol unigolyn, neu os yw'r penderfyniad yn ymwneud â chyfraith Ewropeaidd neu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

---

Mae 'cymesuredd' yn golygu na all yr ymyrraeth â hawliau unigolyn fynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i gyflawni nod cyfreithlon yr ymyrraeth.

---

Wrth gymhwyso'r prawf cymesuredd, bydd y Llys yn ystyried cyd-destun ac amgylchiadau pob penderfyniad. Bydd pa mor ddwys neu fanwl y bydd Llys yn adolygu penderfyniad yn dibynnu ar gyd-destun ac amgylchiadau pob achos.

---

## Pryd gall y Llys asesu cymesuredd penderfyniad?

O dan amgylchiadau penodol, gall penderfyniad awdurdod cyhoeddus gael ei herio ar sail cymesuredd. Yn y bôn, mae hyn yn golygu os yw penderfyniad yn ymyrryd yn sylweddol â hawliau cyfreithiol pwysig unigolyn (e.e. hawl unigolyn i ddinasyddiaeth y DU), neu os yw'n berthnasol fel arall i gyfraith yr UE neu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ('ECHR'), yna bydd y Llys yn mynnu nad yw unrhyw ymyrraeth â hawliau unigolyn yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni nod yr ymyrraeth.

I gychwyn, ystyriwyd mai dim ond os oedd penderfyniad awdurdod cyhoeddus yn ymwneud â chyfraith yr UE neu faterion ECHR y byddai egwyddor cymesuredd ar gael fel sail ar wahân ar gyfer adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, yn dilyn cyfres o achosion, ac achos *Pham v Secretary of State for the Home Department* [2015] UKSC 19 yn arbennig, mae'n ymddangos yn debygol y bydd modd i unrhyw benderfyniad sy'n ymyrryd yn sylweddol â hawliau sylfaenol gael ei herio ar sail cymesuredd, boed yn ymwneud â chyfraith yr UE neu'r ECHR ai peidio.

Bydd asesiad llys o gymesuredd yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol:

- (1) a yw amcan y penderfyniad yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cyfyngu ar hawl unigolyn;
- (2) a oes cysylltiad rhesymegol rhwng y penderfyniad a'r amcan (h.y. a yw'r penderfyniad yn addas);
- (3) a allai'r amcan fod wedi cael ei gyflawni mewn modd a fyddai'n amharu llai (h.y. a oedd y penderfyniad yn angenrheidiol);
- (4) a yw effaith negyddol y penderfyniad ar hawliau unigolyn yn drech na phwysigrwydd yr amcan. Os felly, bydd y penderfyniad yn anghymesur (h.y. a yw'r penderfyniad yn taro cydbwysedd teg).

## Pryd yr ystyrir bod penderfyniad yn ymyrryd yn sylweddol â hawl bwysig neu sylfaenol unigolyn?

Fel y nodir uchod, mae'n ymddangos yn debygol y gellid herio penderfyniad ar sail cymesuredd os yw'n ymyrryd yn sylweddol â hawl bwysig neu sylfaenol. Nid yw'r Llys wedi diffinio hawl 'bwysig'. Yn achos *Pham*, ystyriwyd bod penderfyniad i ddiddymu dinasyddiaeth Brydeinig rhywun a oedd yn cael ei amau o derfysgaeth yn ymyrryd â hawl ddigon pwysig i alluogi'r Goruchaf Lys i ystyried cymesuredd y penderfyniad.

*Gage v Scottish Ministers* [2015] CSOH 174 oedd un o'r achosion cyntaf i ystyried cymesuredd ar ôl achos *Pham*. Yn yr achos hwn, barnwyd nad oedd penderfyniad i gadw carcharor mewn carchar lle'r oedd yn dod i gysylltiad â mwg ail-law yn ymyrryd â hawl ddigon pwysig i allu herio'r penderfyniad ar sail cymesuredd. O ganlyniad, cafodd yr her ei hystyried ar sail rhesymoldeb yn lle hynny (gweler pennod 12).

## A yw llys yn craffu'n fwy dwys ar benderfyniad o dan y prawf cymesuredd nag y mae o dan y prawf rhesymoldeb?

Mae'r gwahaniaeth rhwng y seiliau cymesuredd a rhesymoldeb ar gyfer cynnal adolygiad wedi bod yn destun cryn drafod. Mewn sawl modd, bydd ystyriaethau'r Llys yn debyg iawn o dan y naill brawf a'r llall. Er enghraifft, ym mhob achos, bydd yn ystyried a oes cysylltiad rhesymol rhwng y penderfyniad a'r amcan sydd mewn golwg. Mae enghreifftiau hefyd o'r Llys yn ystyried o dan y ddau brawf a ellid bod wedi cyflawni amcan y penderfyniad mewn ffordd oedd yn ymyrryd llai.

Y prif wahaniaeth rhwng y profion cymesuredd a rhesymoldeb yw bod mwy o strwythur i'r prawf cymesuredd – bydd y Llys yn defnyddio'r prawf pedwar cam a nodir uchod bob amser. Ar y llaw arall, bydd ganddo fwy o ddisgresiwn wrth ystyried a yw penderfyniad yn afresymol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Goruchaf Lys yn *Pham* nad yw'r ffaith bod mwy o strwythur i'r prawf cymesuredd yn golygu o reidrwydd y bydd y craffu yn fwy dwys. Caiff y profion cymesuredd a rhesymoldeb eu cymhwyso'n hyblyg. Mae hyn yn golygu bod y profion cymesuredd a rhesymoldeb yn cael eu cymhwyso'n hyblyg. Mae hyn yn golygu bod dwysedd y craffu a'r pwys a roddir ar safbwynt y penderfynwr yn amrywio yn dibynnu ar gyd-destun ac amgylchiadau pob achos. Felly, ni fydd y Llys yn craffu'n fwy llym wrth gymhwyso'r prawf cymesuredd o reidrwydd; bydd dwysedd yr adolygiad yn dibynnu bob amser ar gyd-destun ac amgylchiadau'r achos.



## Astudiaeth Achos

Enghraifft o benderfyniad yn cael ei ddyfarnu'n anghymesur ar y sail y gellid bod wedi cyflawni'r nod mewn ffordd oedd yn ymyrryd llai a'i fod wedi methu â tharo cydbwysedd teg rhwng buddiannau

***R (Aguilar Quila and another) v Secretary of State for the Home Department*** [2011] UKSC 45.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu rheol (Rheol 277 o'r Rheolau Mewnfudo) i atal rhoi fisa i briod tramor dinesydd Prydeinig nes ei fod yn 21 oed. Effaith hyn oedd atal rhai parau priod rhag byw gyda'i gilydd nes i'r priod tramor droi'n 21 oed. Cafodd y rheol ei herio ar y sail bod yr ymyrraeth â hawl y parau o dan Erthygl 8 ECHR (yr hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol) yn anghymesur.

Derbyniodd y Goruchaf Lys ddadl yr Ysgrifennydd Gwladol fod nod y rheol yn gyfreithlon - i amddiffyn oedolion ifanc agored i niwed oedd yn wynebu risg o briodas wedi'i threfnu neu briodas dan orfod. Fodd bynnag, barnodd y Goruchaf Lys hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi methu â dangos nad oedd y rheol yn gwneud dim mwy nag a oedd angen i gyflawni'r nod hwnnw, ac nad oedd y rheol yn taro cydbwysedd teg rhwng buddiannau parau priod a'r budd cyhoeddus o atal priodasau dan orfod. Felly roedd y rheol yn anghymesur a chafodd ei dileu.



## Gair i gall

- Dylai penderfynwyr ystyried a yw'r penderfyniad yn ymyrryd â hawliau pwysig neu sylfaenol unigolyn, yn berthnasol i'r ECHR neu'n ymwneud â chyfraith Ewropeaidd. Os felly, gall y llysoedd adolygu cymesuredd y penderfyniad.
- Bydd y llysoedd yn defnyddio'r prawf pedwar cam a nodir uchod bob amser wrth ystyried cymesuredd penderfyniad.
- Dylai penderfynwyr ystyried a chofnodi penderfyniadau amgen posibl yn llawn. Mae'r llysoedd yn fwy tebygol o farnu y gellir bod wedi cyflawni'r amcan mewn ffordd sy'n ymyrryd llai os nad yw'r awdurdod cyhoeddus wedi ystyried y dewisiadau eraill hyd yn oed.
- Wrth gymhwyso'r prawf cymesuredd, bydd y llysoedd yn ystyried cyd-destun ac amgylchiadau'r penderfyniad; felly bydd dwysedd yr adolygiad yn amrywio o un achos i'r llall.

# 14

## A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998?

*“Freedom means the supremacy of human rights everywhere. Our support goes to those who struggle to gain those rights and keep them. Our strength is our unity of purpose. To that high concept there can be no end save victory.”*

– Franklin D. Roosevelt

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cyflwyno'r 16 hawl a rhyddid sylfaenol y mae pawb yn y DU â'r hawl iddynt, fel yr hawl i fywyd, yr hawl i brawf teg a'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol.

---

Mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus wneud penderfyniad neu weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn i Warchod Hawliau Dynol a Rhyddidau Sylfaenol (“ECHR”). Mae awdurdod cyhoeddus yn golygu unrhyw un sydd â swyddogaeth o natur gyhoeddus, fel Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, yr heddlu neu'r llysoedd.

---

Os yw awdurdod cyhoeddus yn gwneud penderfyniad nad yw'n cyd-fynd â'r ECHR, gall y sawl a effeithir gan y penderfyniad hwnnw gymryd camau cyfreithiol dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dyma sylfaen statudol adolygiad barnwrol, sy'n mynd law yn llaw â sylfeini'r gyfraith gyffredin ar gyfer adolygiad barnwrol.

---

Mae yna dri chategori o hawliau dynol; absoliwt, cyfyngedig ac amodol.

- ni ellir cyfyngu ar hawliau absoliwt nac ymyrryd â nhw;
- ni ellir ymyrryd â hawliau cyfyngedig fel rheol, ac eithrio mewn cyfnod o ryfel neu argyfwng cyhoeddus arall;
- mae hawliau amodol yn hawliau y gellir cyfyngu arnynt neu ymyrryd â nhw lle bo hynny'n angenrheidiol i gyflawni amcan pwysig fel diogelu iechyd y cyhoedd.

---

Os bydd angen cyfyngu ar, neu ymyrryd â hawliau rhywun, yna ni ddylai'r cyfryw gyfyngiad neu ymyriad fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r nod a ddymunir – mewn geiriau eraill, rhaid iddo fod yn gymesur.

---



## Beth yw Hawliau Dynol?

Yn gyffredinol, mae Hawliau Dynol yn cael eu hystyried fel isafswm y diogelwch a'r rhyddid cyfreithiol y mae gan bobl yr hawl iddynt fel bodau dynol. Mae'r mathau hyn o ryddid a diogelwch yn berthnasol waeth beth yw cenedligrwydd, rhywioldeb neu grefydd rhywun.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl iddynt. Mae'r Ddeddf mewn grym ers mis Hydref 2000.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys 16 o hawliau sylfaenol, sy'n deillio o'r ECHR. Maent nid yn unig yn effeithio ar faterion bywyd a marwolaeth fel rhyddid rhag arteithio a lladd; ond hefyd hawliau pobl yn eu bywyd bob dydd: beth maen nhw'n gallu'i ddweud a'i wneud, eu credoau, eu hawl i brawf teg a llawer o hawliau sylfaenol tebyg eraill.

## Pwy sy'n cael ei rwymo gan ofynion Deddf Hawliau Dynol 1998?

Mae Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi ei bod hi'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r ECHR ac yn caniatáu i rywun ddwyn achos gerbron Llys Tribiwnlys y DU os yw awdurdod cyhoeddus wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Mae'n sail statudol ar gyfer adolygiad barnwrol, sy'n cyd-fynd â'r seiliau cyfraith gyffredin (a eglurir ym mhenodau 3 i 13).

Ni fydd awdurdod cyhoeddus wedi gweithredu'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 os na allai fod wedi gweithredu'n wahanol o ganlyniad i ddarpariaeth deddfwriaeth sylfaenol (fel Deddf Seneddol arall).

## Pwy sy'n awdurdod cyhoeddus?

Unrhyw berson y mae ganddo swyddogaethau sydd o natur gyhoeddus – dyna yw awdurdod cyhoeddus. Gall fod yn sefydliad sector cyhoeddus, fel Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu neu'r Llysoedd. Gall sefydliadau preifat neu elusennau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus fod yn awdurdodau cyhoeddus hefyd – er enghraifft, carchardai preifat.

O dan y ddeddf, mae disgwyl i awdurdodau cyhoeddus weithredu yn unol â'r ECHR ac felly dylai swyddogion cyhoeddus ddeall hawliau dynol a'u hystyried yn eu gwaith bob dydd.

Pan ddaw hi'n fater o wneud penderfyniadau, yn aml bydd angen cydbwysu hawliau un person â hawliau pobl eraill neu eu cymharu ag anghenion y gymuned ehangach.

Os bydd angen ymyrryd yn hawliau rhywun, yna ni ddylai'r ymyriad hwnnw fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni'r nod a ddymunir – mewn geiriau eraill, dylai fod yn gymesur.

Yn gyffredinol, ceir tri chategori o hawliau dynol: absoliwt, cyfyngedig ac amodol.

- **Hawliau absoliwt** yw hawliau na ellir eu cyfyngu nac ymyrryd â nhw, er enghraifft ni allai llywodraeth y DU ailgyflwyno caethwasiaeth ar unrhyw gyfrif;
- **Hawliau cyfyngedig** yw rhai y gellir cyfyngu arnynt adeg rhyfel neu argyfwng cyhoeddus arall, ond dim ond i'r graddau y bo hynny'n gwbl angenrheidiol yn y sefyllfa;
- **Hawliau amodol** yw hawliau y gellir eu cyfyngu neu ymyrryd ynddynt dan amgylchiadau penodol, fel yr hawl i fywyd preifat a theuluol.

Hawliau absoliwt	Hawliau cyfyngedig	Hawliau amodol
<p>Erthygl 2 – Yr hawl i fywyd (heblaw dan amgylchiadau penodol iawn fel amddiffyn unigolyn rhag trais anghyfreithlon lle'r oedd y defnydd o drais yn ddim mwy na chwbl angenrheidiol)</p> <p>Erthygl 3 – Gwahardd artaith neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol</p> <p>Erthygl 4 – Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol</p> <p>Erthygl 7 – Dim cosb heb y gyfraith (er enghraifft, ni fydd unrhyw un yn cael ei ganfod yn euog o drosedd nad oedd yn drosedd ar yr adeg pan gafodd ei chyflawni)</p>	<p>Erthygl 4 – Rhyddid rhag llafur gorfodol</p> <p>Erthygl 5 – Yr hawl i ryddid a diogelwch</p> <p>Erthygl 6 – Yr hawl i brawf teg</p>	<p>Erthygl 8 – Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth</p> <p>Erthygl 9 – Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</p> <p>Erthygl 10 – Rhyddid mynegiant</p> <p>Erthygl 11 – Rhyddid i ymgynnull a ffurfio cymdeithasau</p> <p>Erthygl 12 – Yr hawl i briodi</p>

### **Hawliau amodol; rhai y gellir eu cyfyngu neu ymyrryd â nhw, ond dim ond mewn amgylchiadau penodol.**

Gellir cyfyngu ar neu ymyrryd â'r hawliau yn Erthyglau 8-12 os yw hynny'n **angenrheidiol** er mwyn cyflawni amcan pwysig.

Mae'r amcanion lle caniateir hynny wedi'u nodi ym mhob Erthygl ac yn cynnwys gwarchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, atal troseddu a diogelu hawliau pobl eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau isod o sut mae hawliau amodol yn gweithio.

## Erthygl 8

### Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae Erthygl 8 yn amddiffyn yr hawl i fywyd preifat, bywyd teuluol a gohebiaeth (llythyrau, galwadau ffôn a negeseuon e-bost ac ati).

### Beth mae bywyd preifat yn ei olygu?

Mae gan bob unigolyn yn y DU yw hawl i fyw ei fywyd heb ymyrraeth gan y llywodraeth.

Mae'r llysoedd ddehongliad eang iawn o 'fywyd preifat'. Mae'n cynnwys yr hawl i benderfynu ar gyfeiriadedd rhywiol, ffordd o fyw, steil personol a gwisg. Mae hefyd yn cynnwys yr hawl i reoli pwy sy'n gweld ac yn cyffwrdd eich corff.

Mae'r syniad o fywyd preifat hefyd yn cynnwys yr hawl i ddatblygu hunaniaeth bersonol a meithrin a chadw perthynas ag eraill. Mae'n cynnwys yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a hamdden.

Mae Erthygl 8 yn golygu hefyd bod modd rhwystro'r cyfryngau ac eraill rhag ymyrryd ym mywyd unigolyn. Dylai gwybodaeth bersonol am unigolyn (fel ffotograffau, llythyrau a chofnodion meddygol) gael eu cadw'n ddiogel ac nid eu rhannu heb ganiatâd yr unigolyn hwnnw, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

## Cyfiawnhau ymyrryd ag Erthygl 8

Mae yna amgylchiadau lle gall awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau sy'n cyfyngu ar neu'n ymyrryd â hawliau Erthygl 8. Caniateir cyfyngiadau neu ymyriadau o'r fath os yw'r awdurdod cyhoeddus yn gallu dangos bod ei benderfyniad yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur er budd:

- diogelwch y wladwriaeth
- diogelwch y cyhoedd
- lles economaidd y wlad
- diogelu iechyd neu foesau
- atal anhrefn neu droseddu;
- amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae cam gweithredu neu benderfyniad yn 'gymesur' pan mae'n briodol ac yn ddim mwy na'r hyn sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â'r broblem dan sylw (gweler pennod 13).

## Erthygl 14

### Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Wrth gymhwyso hawliau eraill y Confensiwn, mae gan bobl yr hawl i beidio â chael eu trin yn wahanol oherwydd eu hil, rhyw, safbwyntiau gwleidyddol neu statws arall oni bai bod cyfiawnhad gwrthrychol dros drin rhywun yn wahanol.

Mae Erthygl 14 yn rhoi'r hawl i bobl gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn perthynas â'r holl hawliau eraill sydd yn y Confensiwn.

Mae hawl gan bawb i fwynhau mynediad cyfartal i'r hawliau hynny.

Nid yw Erthygl 14 yn rhoi hawl cyffredinol i bobl gael eu hamddiffyn rhag triniaeth wahanol – dim ond diogelu pobl rhag triniaeth wahanol wrth arfer eu hawliau Confensiwn.

## Ar ba sail y gwaherddir gwahaniaethu?

Mae Erthygl 14 yn nodi, os bydd unrhyw un o'r hawliau eraill a amddiffynnir gan yr ECHR yn berthnasol, yna gwaherddir gwahaniaethu ar y seiliau canlynol:

- rhyw
- hil
- lliw
- iaith
- crefydd
- barn wleidyddol neu unrhyw farn arall
- tras genedlaethol neu gymdeithasol
- cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol
- eiddo
- genedigaeth.

Nid yw rhestr y seiliau yn Erthygl 14 yn gyflawn, a gellir gwahardd gwahaniaethu ar seiliau eraill, er enghraifft cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

## Cyfiawnhau triniaeth wahanol

Nid yw triniaeth wahanol yn wahaniaethol bob amser; efallai bod cyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol dros wneud hynny mewn rhai achosion. Gall fod yn gwbl gyfreithlon i drin pobl yn wahanol oherwydd eu statws personol. Fodd bynnag, bydd rhaid i awdurdod cyhoeddus ddangos ei fod yn dilyn nod cyfreithlon a bod y driniaeth wahaniaethol honno'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r nod hwynnw.

## Beth sy'n digwydd os bydd awdurdod cyhoeddus yn gweithredu'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?

Os bydd awdurdod cyhoeddus yn gwneud penderfyniad sy'n anghydnaws â'r ECHR, yna gall unigolyn gynnal adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwynnw dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Os canfyddir bod awdurdod cyhoeddus wedi torri Hawliau Dynol rhywun, yna mae gan lys yr hawl i wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- datgan bod yr awdurdod lleol wedi gweithredu'n anghyfreithlon;
- dirymu'r penderfyniad;
- atal awdurdod cyhoeddus rhag gweithredu mewn ffordd benodol; a/neu
- dyfarnu iawndal.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, os bydd penderfyniad yn cael ei ddyfarnu'n anghyfreithlon, bydd y llys yn dirymu'r penderfyniad gwreiddiol ac yn dychwelyd y mater i'r awdurdod cyhoeddus i wneud penderfyniad eto.



## Astudiaeth achos

### Erthygl 8

***Re C (Children) (Care: Change of forename)*** [2016] EWCA Civ 374.

Fe wnaeth mam â diagnosis hirsefydlog o anhwylder seicotig roi genedigaeth i efeilliaid ym mis Mai 2015. Cysylltodd y fydwraig yn yr ysbyty â'r awdurdod lleol i sôn am ei phryder bod y fam yn bwriadu enwi'i phlant yn "Preacher" a "Cyanide". Roedd yr awdurdod lleol yn poeni am y bwriad hwn, a daethpwyd â'r mater i sylw'r Llys mewn gwrandawriad gorchymyn gofal interim.

Roedd y fam yn dadlau bod ei hawl i enwi'i phlant yn cael ei amddiffyn gan Erthygl 8. Gwrthodwyd apêl y fam, ond dywedodd y Llys Apêl bod difrifoldeb ymyrryd â hawliau Erthygl 8 y fam yn golygu y dylai'r cam gweithredu a gynigid gan yr awdurdod lleol gael ei ddwyn gerbron y Llys a'i gymeradwyo ganddo.



## Astudiaeth achos

### Erthygl 9: Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd

***'Shambo' - R (Surayanda) v Welsh Ministers*** [2007] EWCA Civ 893.

Barnwyd bod y penderfyniad i ddifa bustach sanctaidd (o eiddo templ Hindŵaidd) oedd yn dioddef o diwberciwlosis buchol (bTB), ar adeg pan oedd camau'n cael eu cymryd i reoli'r clefyd rhag lledaenu yn yr ardal leol, yn bosib i'w gyfiawnhau dan Erthygl 9 gan y Llys Apêl. Roedd ystyriaethau perthnasol anghyson eraill yn bwysicach na'r ymyrraeth â hawl Erthygl 9 y gymuned benodol honno i arddangos eu cred yn yr angen i ddiogelu bywyd.

Yn benodol, roedd y nodau cyfreithlon o leihau effaith economaidd bTB, parhau i warchod iechyd y cyhoedd a diogelu lles anifeiliaid yn bwysicach na hawliau Erthygl 9 y gymuned. Roedd hynny, ynghyd â'r ffaith fod y cam gweithredu wedi'i bennu gan y gyfraith, yn golygu bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad i ddifa'r bustach o dan Erthygl 9.



### Astudiaeth achos

## Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

***Sunday Times v the United Kingdom*** (1979-1980) 2 EHRR 245.

Roedd y Sunday Times yn bwriadu cyhoeddi erthygl yn ymchwilio i gefndir cyflwyno'r cyffur thalidomid i'r farchnad Brydeinig a'r setliad arfaethedig o'r hawliadau yn erbyn y gwneuthurwyr gan blant a niweidiwyd gan y cyffur.

Llwyddodd llywodraeth y DU i gael gwaharddeb yn atal cyhoeddi'r erthygl ar y sail y byddai'n achos o ddirmyg llys. Roedd y Sunday Times yn cwyno bod y waharddeb yn torri Erthygl 10.

Dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod Erthygl 10 nid yn unig yn gwarantu rhyddid y wasg i hysbysu ond hefyd hawl y cyhoedd i gael eu hysbysu. Dyfarnwyd bod y waharddeb yn torri Erthygl 10 gan, ar sail y ffeithiau penodol hyn, fod lles y cyhoedd o ran rhyddid mynegiant yn bwysicach na chynnal awdurdod y farnwriaeth.



### Astudiaeth achos

## Erthygl 12: Yr hawl i briodi ac i sefydlu teulu

***O'Donoghue and Others v the United Kingdom*** (2011) 53 EHRR 1.

Cafodd cynllun gan y llywodraeth a oedd yn codi tâl ar rai mewnfudwyr i briodi, ond dim ond os nad oedden nhw'n bwriadu priodi'n Eglwys Loegr, ei ddyfarnu'n wahaniaethol. Sefydlwyd y cynllun yn wreiddiol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblem priodasau ffug.

Roedd brodor o Nigeria a oedd yn byw yng Ngogledd Iwerddon, yn dymuno priodi ei bartner. Roedd y ddau'n Gatholigion mewn gair a gweithred. Er mwyn priodi mewn Eglwys Gatholig, roedd gofyn i'r brodor o Nigeria gael caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a thalu £295 oherwydd ei fod yn destun rheolau mewnfudo.

Daeth Llys Hawliau Dynol Ewrop i'r casgliad bod y cynllun hwn yn groes i'r hawl i briodi yn Erthygl 12. Hefyd, roedd yn gwahaniaethu ar sail crefydd ac ni allai llywodraeth Gogledd Iwerddon ddarparu unrhyw gyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol am y gwahaniaeth o ran triniaeth rhwng crefyddau.



## Astudiaeth achos

### Erthygl 14

**Ghaidan v Godin-Mendoza** [2004] UKHL 30.


Roedd Mr Godin-Mendoza yn rhannu fflat gyda'i bartner o'r un rhyw, sef y tenant. Pan fu farw'r tenant, hawliodd y landlord feddiant o'r eiddo. Penderfynodd barnwr y llys sirol na allai Mr Godin-Mendoza olynu i denantiaeth y fflat fel y cymar sy'n fyw o dan Ddeddf Rhenti 1977. Daeth Tŷ'r Arglwyddi, a oedd yn eistedd fel awdurdod barnwrol, i'r casgliad bod y dehongliad o'r Ddeddf

Rhenti yn ymwneud â'r hawl i barch at gartref wedi'i warantu gan Erthygl 8 ac na ddylai fod yn wahaniaethol; ni ddylai wahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol oni bai bod modd cyfiawnhau hynny. Yn yr achos hwn, nid oedd unrhyw nod cyfreithlon i'r gwahaniaethu ac fe'i gwnaed heb reswm da. Roedd y gwahaniaeth o ran triniaeth yn torri Erthygl 14 (o'i darllen ar y cyd ag Erthygl 8).



## Gair i gall

- Cofiwch y gall mwy nag un hawl fod yn berthnasol i unrhyw sefyllfa.
- Wrth ystyried pa mor gymesur yw cynnig, mae'n ddefnyddiol gofyn y cwestiynau canlynol:
  - Beth yw'r broblem y mae'r cyfyngiad arfaethedig yn mynd i'r afael â hi?
  - A fydd y cyfyngiad yn arwain at leihau'r broblem?
  - A oes yna ateb arall llai cyfyngedig, ac a roddwyd cynnig arno neu a gafodd ei ystyried?
- Os yw'r penderfynwr yn ansicr neu os yw'r mater yn un cymhleth, dylid gofyn am gyngor cyfreithiol. Mae cael cyngor cyfreithiol yn ddoeth bob amser os oes bwriad i ymyrryd â hawliau ECHR
- Efallai y bydd y siart canlynol yn ddefnyddiol i benderfynwyr wrth ystyried materion ECH:





# 15

## A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus?

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn wahanol i ddyletswyddau eraill yn y Ddeddf honno ac yn ymwneud ag arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

---

Y ddyletswydd yw rhoi ystyriaeth i'r meini prawf yn y Ddeddf, ac nid dyletswydd i gyflawni canlyniad arbennig.

---

Er mwyn dangos bod y ddyletswydd wedi'i chyflawni, mae tystiolaeth o'r ystyriaeth a roddwyd i hynny, yn ogystal â pha wybodaeth oedd ar gael wrth wneud y penderfyniad, yn hollbwysig.

---

## Beth yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus?

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("PSED") wedi'i nodi yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"). Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen; -

- (a) i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf;
- (b) i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt yn ei rhannu;
- (c) i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt yn ei rhannu;.

Mae Deddf 2010 yn nodi beth yw'r nodweddion gwarchoddedig a pha gyrff sy'n awdurdodau cyhoeddus y mae'r PSED yn berthnasol iddynt. O ran Cymru, mae'r gyrff rhestredig yn cynnwys, ymhlith eraill, Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod mwy o ddyletswyddau penodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb er mwyn cyflawni'r PSED gyffredinol yn well. Hefyd, ceir dyletswydd i asesu effaith y polisiâu a'r arferion arfaethedig, sef yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae cyfraith achosion yn dangos y bydd y ddogfen hon yn bwysig wrth brofi bod polisi neu benderfyniad penodol wedi bodloni'r PSED.

Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn gallu dangos, pan gaiff ei herio, ei fod wedi cydymffurfio â'r PSED wrth ddod i benderfyniad, yna mae'r llysoedd yn debygol o farnu bod y penderfyniad hwnnw'n anghyfreithlon.

Mae'n bwysig nodi nad sicrhau canlyniad penodol yw nod y PSED, ond yn hytrach sicrhau bod y ffactorau uchod yn rhan o'r broses o ystyried a datblygu polisi bob amser cyn dod i benderfyniad. Mae'r llysoedd wedi dweud yn glir, lle mae adolygiad barnwrol yn seiliedig ar fethiant i roi sylw dyledus i'r PSED, nad adolygiad o'r penderfyniad ei hun ydyw fel y byddai yn achos herio ar sail rhesymolrwydd, ond yn hytrach ystyried a fu pwyslais digonol a chydwybodol ar y meini prawf statudol ("proper and conscientious focus on the statutory criteria"<sup>42</sup>). Er nad oes dyletswydd benodol, wrth benderfynu, i gyfeirio at y sylw a roddwyd i'r PSED, yn naturiol bydd tystiolaeth gadarn o sut y rhoddwyd y meini prawf ar waith o gymorth yn achos unrhyw her. Ar wahân i'r risg o her, bydd cofnodi sut y defnyddiwyd meini prawf y PSED wrth wneud penderfyniad penodol yn helpu i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r PSED.

Tra bod y PSED yn gorfod bod yn rhan o'r ystyriaeth ym mhob penderfyniad, mae cysylltiad cynhenid rhwng cydymffurfio â'r PSED ac ymgynghori digonol. Nid yw rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd yn gyffredinol yn ddigon da, yn hytrach mae'n bwysig sicrhau bod gan y penderfynwr yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael er mwyn cymhwyso'r meini prawf statudol yn gywir i'r ffeithiau hynny a gwneud asesiad cywir o'r effaith. Os nad oes gwybodaeth ddigonol am yr effaith debygol, yna dylid ymdrechu i gael y wybodaeth hon, a hynny trwy ymgynghori fel arfer.

<sup>42</sup> *R (Hurley & Moore) v Secretary of State for Business, Innovation and Skills* [2012] EWHC 201 (Admin).

## Sut mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r PSED?

Mae llawer o achosion lle mae'r llysoedd wedi ystyried a yw awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r PSED wrth wneud penderfyniadau. Yn eu dyfarniadau nhw, yn enwedig achosion *Brown*<sup>43</sup> a *Bracking*<sup>44</sup>, mae'r llysoedd wedi sefydlu'r egwyddorion allweddol sydd yn y tabl isod:

<ul style="list-style-type: none"><li>– rhaid bod y penderfynwr yn ymwybodol o'r ddyletswydd i roi sylw i'r angen i gyflawni'r amcanion yn adran 149 o Ddeddf 2010;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– bod y ddyletswydd wedi'i chyflawni cyn ac wrth i'r polisi gael ei ystyried (h.y. nid yw rhoi sylw i'r PSED <i>ar ôl</i> gwneud penderfyniad yn ddigonol i gydymffurfio â'r ddyletswydd);</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– rhaid i'r ddyletswydd gael ei 'harfer yn sylweddol, yn drylwyr a chyda meddwl agored', h.y. nid ymarferiad ticio bocsys yn unig. Tra nad oes dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud cyfeiriadau penodol at y PSED neu adran 149 o Ddeddf 2010 wrth wneud penderfyniadau, mae cyfeirio at adran 149 yn arfer da, gan gynnwys union eiriad yr adran neu aralleiriad cywir, yn y ddogfen benderfynu;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– nid yw'r ddyletswydd yn ddirprwyadwy, h.y. mae'r ddyletswydd ar y penderfynwr yn bersonol; a'r brif ystyriaeth yw a oedd angen i'r penderfynwr ei hun roi sylw i'r angen i gyflawni'r amcanion a restrir yn adran 149, nid a oedd <i>swyddogion</i> y penderfynwr wedi ystyried ffactorau adran 149;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– bod y ddyletswydd yn un barhaus;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– mae'n arfer da i'r penderfynwr gadw cofnodion sy'n dangos sut mae wedi cydymffurfio â'r PSED. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r ffactorau a restrir yn adran 149 o Ddeddf 2010;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– nid yw rhoi sylw cyffredinol i faterion cydraddoldeb yr un fath â sylw penodol i'r angen i gyflawni'r ffactorau a restrir yn adran 149;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– rhaid i swyddogion y penderfynwr "ymchwilio ac adrodd yn drylwyr" i'r penderfynwr ar faterion sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r PSED;</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>– cyhyd â bod y llysoedd yn fodlon bod y penderfynwr wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i'r angen i gyflawni'r ffactorau a restrir yn adran 149, lle'r penderfynwr yw penderfynu faint o bwys i'w roi i'r materion amrywiol sy'n berthnasol i'r penderfyniad.</li></ul>

<sup>43</sup> *Arlidge v Islington Corporation* [1909] 2KB 127.

<sup>44</sup> *R (Brown) v Secretary of State for Work and Pensions* [2008] EWHC 3158.



## Astudiaeth achos

### Enghraifft o ddileu penderfyniad am i'r penderfynwr fethu â rhoi sylw dyledus i'r anghenion cydraddoldeb a restrir yn y PSED

#### ***R (on the application of T) v West Berkshire Council [2016] EWHC 1876***

Yn yr achos hwn, roedd yr hawliwr yn herio, trwy adolygiad barnwrol, penderfyniad gan Gyngor West Berkshire ("y Cyngor") i dorri cyllid i sefydliadau sector gwirfoddol sy'n darparu gwylliau byr i blant anabl ("gwylliau byr"). Roedd yn herio'r penderfyniad yn rhannol ar sail y ffaith fod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw dyledus i'r ffactorau sydd wedi'u rhestru yn adran 149 o Ddeddf 2010.

Yn sgil gostyniad o 44% i'w gyllideb gan Lywodraeth y DU, penderfynodd y Cyngor llawn mewn cyfarfod ar 1 Mawrth 2016 i, ymhlith pethau eraill, wneud toriadau ariannol i 47 o wasanaethau cyhoeddus gwahanol, gan gynnwys cyllid i sefydliadau gwirfoddol drefnu gwylliau byr. Cyn hynny, roedd y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad eang ar y toriadau arfaethedig, gan gynnwys â'r rhai a oedd yn darparu'r gwylliau byr hyn.

Aeth swyddogion y Cyngor ati i lunio adroddiad er mwyn i'r aelodau ei ystyried yn y cyfarfod ar 1 Mawrth. Roedd yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd am dorri'r cyllid gwylliau byr. Hefyd, roedd yn tynnu sylw'r aelodau at y PSED trwy gynnwys y frawddeg ganlynol – "*Members are fully aware of the PSED which requires "decision makers" to keep the welfare of service users and their families at the forefront of their mind, particularly those that are most disadvantaged*". Nid oedd union eiriad adran 149 o Ddeddf 2010 yn rhan o brif gorff yr adroddiad.

Yn ei ddyfarniad, barnodd y Llys fod y PSED yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus (h.y. fel sy'n briodol dan yr holl amgylchiadau) i'r ffactorau a restrir yn adran 149 o Ddeddf 2010 ac mai'r gofyniad sylfaenol yma oedd i'r penderfynwr, ar ôl cymryd camau rhesymol i ymholi i'r materion, ddeall effaith y penderfyniad ar y plant anabl a allai gael eu heffeithio gan y penderfyniad.

Ar sail y ffeithiau, barnodd y Llys bod ymgynghoriad y Cyngor ar y toriadau ariannol arfaethedig wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud ymholiadau rhesymol i'r materion dan sylw. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw dyledus i'r ffactorau a restrir yn adran 149 o Ddeddf 2010. Barnodd y Llys nad oedd y crynodeb o'r PSED a gynhwyswyd yn adroddiad 1 Mawrth (gweler y darn itelig uchod) wedi'i deilwra'n benodol i'r penderfyniad i dorri cyllid gwylliau byr ac, bwysig hefyd, yn gofyn i'r aelodau ganolbwyntio ar gwestiwn amherthnasol. Trwy beidio â chynnwys union eiriad adran 149 o Ddeddf 2010, a thrwy gynnwys defnydd ailadroddus o grynodedb o'r PSED, roedd adroddiad 1 Mawrth yn awgrymu bod y crynodeb yn gyfwerth â, neu'n ddigonol yn lle, ystyriaethau statudol o adran 149, pan nad oedd felly.

Felly, nid oedd y Llys yn fodlon bod aelodau'r Cyngor wedi gofyn y cwestiynau cywir iddyn nhw'u hunain ac felly fe ddileodd y penderfyniad yn ymwneud â thorri cyllid i wyliau byr.



## Gair i gall

- Dylai'r penderfynwr gofnodi'r camau a gymerwyd i fodloni'r gofynion statudol – bydd hyn yn darparu tystiolaeth i ddangos ei fod yn fwy nag ymarferiad "ticio bocsys" yn unig.
- Dylai unrhyw ganllawiau i benderfynwr gynnwys naill ai eiriad y PSED ei hun, neu sicrhau bod unrhyw gynodeb yn aralleiriad cywir o adran 149 ac wedi'i deilwra i'r union benderfyniad sy'n cael ei wneud.
- Yr adeg i asesu'r effaith a rhoi sylw i'r PSED yw cyn i'r penderfyniad gael ei ystyried ac wrth iddo gael ei ystyried – ni ddylai gael ei gymhwyso i'r penderfyniad wedi i hwnnw gael ei wneud.
- Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth i'r penderfynwr wrthod y demtasiwn i ddiystyru effeithiau niweidiol y penderfyniad a gorbwysleisio'r manteision - mae angen i'r penderfynwr gael darlun cywir o effaith y polisi arfaethedig er mwyn cymhwyso'r meini prawf statudol yn gywir.

# 16

## A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu saith nod er mwyn sicrhau llesiant Cymru.

---

Nid yw'r Ddeddf yn disodli nac yn gwrthwneud pwerau neu ddyletswyddau cyfredol awdurdodau cyhoeddus ('gyrff cyhoeddus' fel y'u gelwir yn y Ddeddf) ond yn cyflwyno fframwaith ar gyfer eu prosesau gwneud penderfyniadau.

---

Rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol bennu amcanion a chymryd camau i fynd i'r afael â'r amcanion hyn.

---

Wrth fynd i'r afael â'r amcanion hyn, rhaid iddynt ystyried pwysigrwydd pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

---

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn i rai awdurdodau cyhoeddus gydweithio ar gynlluniau i wella llesiant ar lefel leol.

---

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf WFG") yn cyflwyno diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus penodedig eraill yng Nghymru<sup>45</sup>. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny (sef "cyrff cyhoeddus" yn y Ddeddf WFG) gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae Deddf WFG yn nodi sut y dylai'r cyrff cyhoeddus hynny weithio, a chydweithio, i wella llesiant Cymru.

Dan y Ddeddf WFG, mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt gynnal **datblygiad cynaliadwy**, sef proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau yn unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy**, gyda'r nod o gyflawni'r **nodau llesiant**.

## Beth yw'r nodau llesiant?

Y nodau llesiant<sup>46</sup> yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y nodau hyn fel cyfanwaith er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau sylfaenol rhwng gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru'n cael eu cydnabod. Lle mae'n ymddangos bod cam gweithredu yn cyd-fynd ag un nod, ond nid nodau eraill o reidrwydd, bydd cymhwyso'r **egwyddor datblygu cynaliadwy** yn helpu i ganfod ateb sy'n sicrhau cydbwysedd addas rhwng y nodau a ffactorau perthnasol eraill.

<sup>45</sup> Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru.

<sup>46</sup> Mae'r Ddeddf yn rhoi disgrifiadau manylach o bob nod.

## Beth yw'r pum ffordd o weithio?

Trwy ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ddilyn y pum ffordd o weithio trwy **ystyried** y ffactorau a ddisgrifir isod. Mae dyletswydd i ystyried materion yn golygu dyletswydd i'w hystyried ochr yn ochr â materion eraill cyn gwneud penderfyniad.

Y pum ffactor i'w hystyried yw pwysigrwydd:

- edrych ar y **tymor hir** fel nad yw cyrff cyhoeddus yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy;
- gweithio mewn ffordd **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **cynnwys** eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau, gan sicrhau bod y bobl hynny eraill yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- deall achosion sylfaenol problemau er mwyn **eu hatal** rhag digwydd.

Nid yw dyletswydd corff cyhoeddus i ystyried pwysigrwydd y dulliau hynny o weithio yn **pennu'r** penderfyniad y mae'n rhaid iddynt ei gyrraedd mewn unrhyw sefyllfa: mae'n cyflwyno'r ffactorau y mae'n rhaid iddyn nhw eu hystyried yn gydwybodol cyn gwneud penderfyniad y mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddo. Mae angen i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath sicrhau bod ganddynt gofnod clir o'u hystyriaethau, sy'n esbonio sut yr ystyriwyd pob ffactor a chasgliadau'r cyrff, ar ôl pwysu a mesur y ffactorau yn erbyn ei gilydd ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Gall methu ag ystyried y ffactorau hyn arwain at her adolygiad barnwrol ar y sail bod y corff cyhoeddus wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol (gweler pennod 4).

Mae'r **ddyletswydd llesiant** yn golygu, wrth wneud gwaith datblygu cynaliadwy, bod rhaid i gorff cyhoeddus gymryd camau sy'n cynnwys:

- pennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o gyfrannu cymaint ag y bo modd at gyflawni pob un o'r nodau llesiant; a
- chymryd pob cam rhesymol wrth ddefnyddio'i bwerau a'i dyletswyddau cyfredol er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion o'r fath iddynt eu hunain yn ogystal â chyhoeddi datganiadau sydd, ymhlith pethau eraill, yn cyflwyno'r camau y maent yn bwriadu'u cymryd i fodloni'r amcanion hynny yn unol â'r pum ffordd o weithio. Mater i'r cyrff cyhoeddus eu hunain yw penderfynu pa gamau sy'n "rhesymol" iddynt eu cymryd er mwyn bodloni eu hamcanion hwy, ar sail eu hasesiad o ffeithiau eu sefyllfaedd eu hunain.

Byddai'r camau tuag at gyflawni'r amcanion yn cynnwys sut mae'r corff yn bwriadu llywodraethu ei hun, sut y bydd yn adolygu'r camau hynny a sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dan y gofynion hyn, mae gofyn i gyrff cyhoeddus nodi'r camau penodol y maen nhw'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion



a'r pethau y byddant yn eu gwneud er mwyn bod mewn sefyllfa i gymryd y camau hynny. Mae hyn yn golygu na all y camau fod yn ddyheadau'n unig.

Hefyd, mae'r Ddeddf WFG yn sicrhau bod modd dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am ddarparu'r camau nesaf y maen nhw'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio a'r ddyletswydd llesiant. Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru rolau statudol pwysig o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif wrth gydymffurfio â'r Ddeddf WFG.

Nid yw'r ddyletswydd llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn disodli nac yn gwrthwneud pwerau a dyletswyddau cyrff cyhoeddus dan unrhyw ddeddfwriaeth arall, fel dyletswyddau awdurdodau lleol ar gynllunio rheoli datblygu, gwasanaethau addysg neu gymdeithasol neu bwerau a dyletswyddau byrddau iechyd lleol dros gyflenwi gofal iechyd. Yn hytrach, mae'r darpariaethau'n dibynnu ar, ac yn cymryd bod pwerau a dyletswyddau cyfredol cyrff cyhoeddus yn bodoli, ac yn darparu strwythur ar gyfer y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r pwerau a'r dyletswyddau hyn er mwyn ceisio cyflawni eu hamcanion.

## **Beth yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?**

Mae'r Ddeddf WFG yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ("Bwrdd") gael ei sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Aelodau'r byrddau hyn yw'r awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yr awdurdod lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae pob aelod o'r Bwrdd yn gorff cyhoeddus ac mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddynt.

Mae'n ofynnol i'r Byrddau hyn asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd cyn cyhoeddi'r asesiad hwnnw, sef sail dystiolaeth sy'n llywio cynllun llesiant lleol sy'n cyflwyno'r amcanion lleol a'r camau y mae aelodau'r Bwrdd yn bwriadu eu cymryd er mwyn bodloni'r amcanion hynny. Rhaid i aelodau'r Bwrdd gytuno'n unfrydol ar gynnwys y cynllun llesiant lleol. Gall aelod o'r Bwrdd gynnwys amcanion y mae'r aelod wedi'u gosod ar ei gyfer ei hun fel corff cyhoeddus, yng nghynllun llesiant lleol y Bwrdd, cyn belled â bod aelodau eraill o'r Bwrdd yn cytuno i'w cynnwys. Mae'n ofynnol i Fyrddau gynnwys rhai mathau o gyrff cyhoeddus wrth asesu llesiant, a llunio a chyflawni cynlluniau llesiant lleol er mwyn gwella llesiant eu hardaloedd.

## Enghraifft ymarferol

Mae awdurdod lleol yn penderfynu y dylai hyrwyddo llesiant ei ardal trwy helpu i adfywio canol trefi hanesyddol yr ardal, trwy roi grantiau i fusnesau lleol wella eu hadeiladau ac uwchraddio'r rhwydwaith ffyrdd, llwybrau cerdded a beicio er mwyn lleihau tagfeydd a chynnig dewisiadau amgen realistig yn lle defnyddio ceir. Ar ben hynny, mae'n penderfynu hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i adeiladau o bwys hanesyddol a diwylliannol (e.e. safleoedd treftadaeth megis cestyll ac amgueddfeydd) fel canolfannau gweithgareddau addysg a diwylliant er mwyn mynd i'r afael ag anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried y manteision hirdymor sy'n deillio o'r fenter, yn edrych ar ffyrdd y gallai camau gweithredu gael effaith gadarnhaol ar y gyfres o nodau llesiant, yn ymgysylltu â phobl a busnesau lleol trwy esbonio beth mae'n ei gynnig ac yn gofyn am eu barn nhw (gan gynnwys sut gallant gyfrannu at y canlyniadau), yn ystyried sut y gallai weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion ac yn ceisio deall beth sydd wrth wraidd y dirywiad yn lefelau gweithgarwch economaidd ac iechyd cyhoeddus yn y dref.

Byddai'r camau arfaethedig yn helpu i gyfrannu at:

- Cymru fwy llewyrchus, trwy hybu gweithgarwch economaidd
- Cymru gydnherth, trwy hyrwyddo'r manteision economaidd ac ecolegol yn sgil defnyddio llai o geir
- Cymru iachach, trwy hyrwyddo teithio llesol a dulliau amgen yn lle defnyddio ceir
- Cymru sy'n fwy cyfartal, trwy gynnig rhagor o gyfleoedd i rai dan anfantais i elwa ar gyfleoedd gwaith newydd yn sgil rhagor o weithgarwch economaidd
- Cymru o gymunedau cydlynus, trwy greu cymunedau deniadol â chysylltiadau da
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, trwy hyrwyddo cyfraniad diwylliannol, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, trwy ei gwneud hi'n haws i bobl leol a busnesau lleol leihau eu hól troed carbon.

Gallai'r awdurdod lleol gynnwys amcanion a chamau yn y cynllun llesiant lleol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer ei ardal, os yw'r aelodau eraill yn cytuno. Er enghraifft, gallai'r awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yr ardal gytuno i gydweithio ar gamau sydd â'r nod o wella iechyd y cyhoedd.



## Astudiaeth achos

Enghraifft o effeithiau diffyg cydymffurfio â dyletswydd statudol i ystyried materion cyn dod i benderfyniad

*R (on the application of Winder) v Sandwell Metropolitan Borough Council* [2014] EWHC 2617

Does dim cyfraith achosion hyd yma ar y ddyletswydd llesiant dan y Ddeddf WFG ond mae'r gyfraith achosion ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus") yn darparu cydweddiad o'r hyn a all ddigwydd pan fo awdurdod cyhoeddus yn methu yn ei ddyletswydd statudol i ystyried ffactorau cyn dod i benderfyniad. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi "sylw dyledus" i'r angen i fynd i'r afael â nodau penodol yn ymwneud â chydraddoldeb wrth ddefnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau. Mae dyletswydd i roi sylw dyledus i ffactorau penodol yn debyg iawn i'r ddyletswydd dan y Ddeddf WFG i ystyried pwysigrwydd gweithio mewn ffyrdd penodol.

Yn yr achos hwn, roedd rheidrwydd ar awdurdod lleol i roi cynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar waith er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth Treth Gyngor ar bobl mewn angen ariannol yn ei ardal. Roedd y penderfyniad i fabwysiadu'r cynllun yn destun Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn hwyr yn y broses, penderfynodd yr awdurdod gyfyngu ar y cymhwysedd i elwa ar y cynllun i rai oedd wedi byw yn y fwrdeistref ers o leiaf dwy flynedd. Ni chynhaliodd asesiad o effaith gorfodi'r cyfyngiad hwnnw ar rai â nodweddion gwarchodedig. Felly, roedd yr awdurdod wedi methu â rhoi sylw (neu ystyried) i'r ffactorau yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn rhannol oherwydd ei fethiant i roi sylw i'r ffactorau hynny, roedd ei benderfyniad i fabwysiadu cynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn anghyfreithlon.



## Gair i gall

- Ystyriwch y nodau fel cyfanwaith, gan sicrhau bod y pecyn o adnoddau a ddewiswyd yn cyfrannu at bob nod
- Wrth ddewis amcanion a'r camau i'w cyflawni, ystyriwch a oes modd eu cyflawni mewn gwirionedd a chanolbwyntio ar sut y byddan nhw'n cyfrannu at gyflawni'r nodau dan sylw.
- Cadwch gofnod clir o sut mae'r penderfynwyr wedi ystyried pwysigrwydd y pum ffordd o weithio wrth bennu amcanion a chamau a mynd ati i geisio'u cyflawni.

# 17

## A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â gofynion diogelu data a rhyddid gwybodaeth?

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wrth arfer eu holl swyddogaethau. Os na wneir hynny, gallai arwain at gŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac, yn y pen draw, yn achos y Ddeddf Diogelu Data, euogfarnau troseddol a/neu gosbau sifil. Dylai penderfynwyr gadw'r gofynion hyn mewn cof ar bob cam o'r broses benderfynu.

---

Go brin y bydd unrhyw achosion o dorri Deddf Diogelu Data 1998 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn sail ar gyfer adolygiad barnwrol ynddynt eu hunain, ond mewn rhai achosion gall diffyg cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data yn enwedig fod â goblygiadau hawliau dynol.

---

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn sefydlu fframwaith i sicrhau bod unigolion a sefydliadau yn trin data personol yn briodol ac yn creu hawliau i unigolion weld data amdany'n nhw.

---

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn galluogi aelodau'r cyhoedd i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth benodol am eu gweithgareddau.

---

## Beth yw gofynion Deddf Diogelu Data 1998?<sup>47</sup>

Mae Deddf Diogelu Data 1998 ("DPA") yn rheoleiddio sut y caiff gwybodaeth bersonol am unigolion ei thrin (cyfeirir ato fel 'data' personol yn y DPA). Mae hefyd yn rhoi hawliau ar unigolion i gyrchu data personol a gedwir amdanynt. Mae'r DPA yn berthnasol i bob unigolyn a sefydliad, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus sy'n prosesu data personol.

Mewn amgylchiadau lle mai unigolyn neu sefydliad yw'r 'rheolydd data' ar gyfer y data personol, mae adran 4(1) o'r DPA yn nodi bod rhaid i'r rheolwr data gydymffurfio â'r wyth egwyddor diogelu data, gan gynnwys, dan yr egwyddor diogelu data gyntaf, y gofyniad i brosesu data personol "yn deg ac yn gyfreithlon". Mae'n ofynnol i'r rheolwr data fod wedi'i fodloni bod y gwaith prosesu:

- Yn gyfreithlon – mae hyn yn golygu, yn ogystal â chydymffurfio â'r ddeddf diogelu data, na ddylai'r prosesu fod yn anghyfreithlon am unrhyw reswm arall, fel torri deddfwriaeth arall, gorchymyn llys, cyfraith hawlfraint neu ddyletswydd hyder. Mewn sefyllfaoedd lle mai'r awdurdod cyhoeddus yw'r rheolydd data, y mae ei bwerau'n deillio o ddeddfwriaeth, megis Llywodraeth Cymru, byddai angen sicrhau hefyd bod pŵer yn y gyfraith sy'n caniatáu prosesu'r data
- Yn deg – mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolydd data fod yn agored gydag unigolyn o ran yr hyn mae am ei wneud gyda'r data personol. Yn gyffredinol, bydd data'n cael ei brosesu'n deg os oedd y dull o'i gasglu yn un teg, e.e. ni chafodd y sawl sy'n darparu'r data ei dwyllo neu ei gamarwain ynglŷn â diben defnyddio'r data. Yn aml, bodlonir hyn yn ymarferol trwy gyflwyno hysbysiad prosesu/hysbysiad preifatrwydd teg sy'n esbonio sut y bydd data personol yr unigolyn yn cael ei brosesu
- Yn bodloni un neu ragor o'r amodau yn Atodlen 2 i'r DPA
- Yn achos data personol sensitif, yn bodloni un neu ragor o'r amodau yn Atodlen 3 i'r DPA.

## Pryd y bydd Deddf Diogelu 1998 yn cael ei defnyddio?

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus a phob unigolyn arall sy'n prosesu gwybodaeth ystyried a yw'r cam neu'r penderfyniad i'w cymryd yn debygol fod yn berthnasol i'r DPA. Felly, bydd angen ystyried:

### (i) a yw'r wybodaeth i'w phrosesu yn 'ddata personol'

Er mwyn deall beth mae data personol yn ei olygu, yn gyntaf mae angen ystyried beth yw ystyr 'data'. Ceir diffiniad o 'ddata' yn adran 1(1) o'r DPA. Yn ymarferol, os yw sefydliad yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yna mae unrhyw wybodaeth sydd ganddo yn debygol o fodloni'r diffiniad o "ddata" yn y DPA.

<sup>47</sup> Nodir hefyd er cyfanrwydd y bydd Rheoliad diogelu data newydd yr Undeb Ewropeaidd (Rheoliad UE 2016/679) yn dod i rym ar 25 Mai 2018. Rhagwelir y bydd hyn yn cael cryn effaith ar y fframwaith DPA cyfredol.

Mae'r term 'data personol' wedi'i ddiffinio yn adran 1 o'r DPA. Mae'n cipio gwybodaeth a fyddai'n galluogi i unigolyn byw gael ei adnabod naill ai o'r data hwnnw neu o ddata a gwybodaeth arall sydd ym meddiant, neu'n debygol o ddod i feddiant, y rheolydd data. Mewn rhai achosion, gall enw'r unigolyn yn ogystal â gwybodaeth adnabod arall fel cyfeiriad fod yn ddigon i adnabod pwy yw'r unigolyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod modd adnabod unigolyn mewn amgylchiadau lle nad yw ei enw'n hysbys. Byddai angen ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau ei hun.

Ar ben hynny, mae yna is-gategori o wybodaeth, 'data personol sensitif', lle mae'r data'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r materion a restrir yn adran 2 o'r Ddeddf (e.e. tras hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol, bywyd rhywiol). Mae yna ofynion ychwanegol ar gyfer prosesu data personol sensitif.

### **(ii) a yw'r defnydd arfaethedig o'r data personol yn golygu 'prosesu'**

Mae'r term 'prosesu' wedi'i ddiffinio yn adran 1 o'r DPA. Mae'n ddiffiniad eang iawn sydd i bob pwrpas yn cynnwys unrhyw beth y gellir ei wneud â data personol. Er enghraifft, cael gafael arno, ei greu, ei gofnodi, ei ddatgelu a'i ddinistrio. Byddai hefyd yn ymestyn i'w ddarllen neu wneud dim mwy na dal gafael ar y data personol, hyd yn oed os nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud â'r data.

Os mai 'ydy' yw'r atebion i'r cwestiynau - bod y wybodaeth yn 'ddata personol' a bod gwaith 'prosesu' yn digwydd - yna rhaid i awdurdod cyhoeddus (ac unrhyw gorff arall sy'n prosesu data personol) ystyried ai nhw yw'r 'rheolydd data' fel y diffinnir yn adran 1 y DPA.

Y rheolydd data yw'r sawl sy'n penderfynu i ba bwrpas y caiff y data ei brosesu, a sut y bydd yn cael ei brosesu. Gallai'r rheolydd data fod yn gweithio fel rheolydd data ar ei liwt ei hun neu'n gweithredu ar y cyd neu gyda rheolydd data arall. Wrth benderfynu ai'r awdurdod cyhoeddus yw'r rheolydd data o safbwynt y data personol sy'n cael ei brosesu, un o'r cwestiynau allweddol i'w ofyn yw a yw'r data'n cael ei drin at ddibenion yr awdurdod hwnnw. Er enghraifft, byddai data personol sy'n debygol o berthyn i'r categori hwn yn cynnwys dal data personol am unigolion sydd wedi gwneud cais am arian grant gan yr awdurdod hwnnw.

Rhaid i'r rheolydd data gydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion Diogelu Data sydd yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r DPA.

## **Beth yw goblygiadau diffyg cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998?**

Nid yw methiant i gydymffurfio â'r gofynion DPA yn sail dros gynnal adolygiad barnwrol ynddo'i hun, ac nid yw cydymffurfio â'r DPA yn 'ystyriaeth berthnasol' fel arfer at ddibenion adolygiad barnwrol (gweler pennod 4 ar yr ystyriaethau perthnasol ac amherthnasol). Fodd bynnag, gall prosesu data personol fod yn berthnasol i Erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop (yr hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol) ac felly bydd angen cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i brosesu data yn y cyd-destun hwnnw.

Gall diffyg cydymffurfio â'r gofynion DPA arwain at orfodi gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae opsiynau gorfodi yn cynnwys cosbau ariannol (ar ffurf dirwyon hyd at £500,000) a chosbau troseddol. Hefyd, gall unigolyn sydd wedi dioddef trallod wedi i'r Ddeddf gael ei thorri hawlio iawndal mewn llys sifil.

## Beth yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?

Mae gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA") ddau brif ddiben:

- (i) Mae'n rhoi'r hawl i bawb weld gwybodaeth wedi'i chofnodi sydd ym meddiant awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni all awdurdod cyhoeddus wrthod rhyddhau gwybodaeth oni bai bod rheswm da dros wneud hynny ac y caniateir hynny gan yr FOIA.
- (ii) Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu cynllun cyhoeddi a mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth benodol sydd wedi'i chwmpasu gan y cynllun (e.e. polisïau a gweithdrefnau, cofnodion, adroddiadau blynyddol, gwybodaeth ariannol). Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi datblygu cynllun cyhoeddi enghreifftiol er mwyn helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Mae'r canllawiau sydd yng ngweddill y bennod hon yn ymwneud â'r diben cyntaf; hawl yr unigolyn i weld gwybodaeth wedi'i chofnodi sydd ym meddiant awdurdodau cyhoeddus.

Ceir diffiniad o awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 1 yr FOIA ac mae'n cynnwys adrannau llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol, y GIG a lluoedd yr heddlu. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ychwanegu cyrff pellach at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus.

Nid yw'r FOIA yn caniatáu i bobl weld gwybodaeth bersonol amdany'n nhw (gweler uchod am Ddeddf Diogelu Data 1998). Yn gyffredinol, nod y Ddeddf Diogelu Data yw rheoleiddio sut y dylid trin data personol am unigolion trwy roi rhwymedigaethau ar unigolion/sefydliadau sy'n gyfrifol am brosesu'r data hwnnw.

Y brif egwyddor tu ôl i'r FOIA yw bod gan unigolion hawl i wybod am weithgareddau awdurdodau cyhoeddus oni bai bod rheswm da dros beidio. Cyfeirir yn aml at hyn fel rhagdybiaeth o blaid datgeliad.

I bob pwrpas, mae Adran 1 o'r FOIA yn creu ddau hawl:

- Yr hawl i wybod – yr hawl i gael gwybod os yw'r awdurdod cyhoeddus yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani; a
- Yr hawl i gael mynediad – i gael copi o'r wybodaeth os yw ym meddiant yr awdurdod cyhoeddus.

Mae modd cadw gwybodaeth yn ôl os gellir cyfiawnhau hynny gan gyfeirio at un neu ragor o eithriadau. Mewn rhai achosion, gallai'r eithriadau hynny fod yn berthnasol i naill ai un o'r hawliau hyn neu'r ddau.

## Pa wybodaeth y gellir gofyn amdani dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?

Mae'r FOIA yn nodi y gallai unigolyn wneud cais am ryddhau unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi sydd ym meddiant awdurdod lleol ac yn cynnwys, er enghraifft, cyngor i'r corff penderfynu (gan gynnwys drafftiau), negeseuon e-bost, nodiadau a recordiadau teledu cylch cyfyng. Mae'n cynnwys gwybodaeth a dderbynnir gan awdurdodau cyhoeddus (e.e. llythyrau gan aelodau'r cyhoedd, ymatebion ymgynghori). Rhaid i wybodaeth o'r fath gael ei ryddhau oni bai bod rheswm da dros beidio'i ryddhau dan yr FOIA.

Mae'r FOIA yn cwmpasu gwybodaeth a gedwir ar ran yr awdurdod cyhoeddus hefyd, hyd yn oed os nad yw'n cael ei chadw ar safle'r awdurdod (e.e. os yw'n cael ei chadw mewn storfa ar ran yr awdurdod neu dan amgylchiadau lle mae cyfrifon e-bost preifat yn cynnwys gwybodaeth swyddogol). Fodd bynnag, nid yw'r FOIA yn ei gwneud hi'n ofynnol i greu unrhyw wybodaeth newydd er mwyn ymateb i gais dan yr FOIA; dim ond i wybodaeth wedi'i chofnodi sydd eisoes mewn bodolaeth ar ddyddiad y cais y mae'r ddeddf yn berthnasol.

## Beth y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud pan fydd yn derbyn cais am wybodaeth?

Mae'r FOIA yn rhoi hawl i bawb wneud cais am wybodaeth gan awdurdod cyhoeddus. Felly, gall pobl nad ydynt yn ddinasyddion y DU neu'n breswylwyr yn y DU wneud cais, yn ogystal â sefydliadau (e.e. papurau newydd, grwpiau buddiant, cwmnïau). Fel arfer, dylai pob cais gael ei drin yr un fath, waeth beth yw natur neu statws y ceisydd, er byddai hunaniaeth y ceisydd yn berthnasol mewn rhai sefyllfaoedd (e.e. mewn amgylchiadau lle mae'r wybodaeth yn cynnwys data personol y ceisydd ei hun, byddai angen ymdrin â hynny fel cais am fynediad i bwnc dan adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998 neu wrth wrthod cais ar y sail ei fod yn gais ailadroddus neu flinderus o dan adran 14 o'r FOIA).

Mae unrhyw gais ysgrifenedig am wybodaeth benodol yn gais dilys at ddibenion yr FOIA, p'un a oes unrhyw gyfeiriad at yr FOIA ai peidio, cyn belled â bod y ceisydd yn rhoi ei enw go iawn a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth. Gellir gwneud ceisiadau o'r fath trwy lythyr, e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter). Unwaith y daw'r cais i law, rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddweud wrth y ceisydd a oes ganddo wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais, a rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth honno (hyd yn oed os yw'r awdurdod cyhoeddus yn ymwybodol o'r ffaith fod y wybodaeth naill ai'n wallus neu'n anghywir). Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio'n brydlon, ac o fewn 20 diwrnod fel arfer. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r FOIA yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus adennill costau cyfathrebu (e.e. costau llungopïo) wrth ddarparu'r wybodaeth.

Os nad yw'r cais yn glir, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gysylltu â'r ceisydd i gael eglurhad cyn gynted â phosib. Mae'r terfyn amser ar gyfer cydymffurfio yn cychwyn pan mae gan awdurdod cyhoeddus ddigon o wybodaeth/eglwurhad i allu deall y cais yn iawn.



## A all awdurdodau cyhoeddus benderfynu gwrthod ceisiadau am wybodaeth?

Nid oes rhwymedigaeth bob amser ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu'r wybodaeth sydd ganddynt. Gellir gwrthod cais yn llwyr os yw'n perthyn i un o'r darpariaethau isod dan Ran 1 o'r FOIA:

- Adran 12 – byddai'n mynd dros y 'terfyn priodol', sef y byddai'n costio gormod neu'n cymryd gormod o amser staff i ymdrin â'r cais. Y 'terfyn priodol' ar hyn o bryd yw £600 (yn achos adrannau Llywodraeth y DU, Senedd San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, y lluoedd arfog) neu £450 (ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus arall);
- Adran 14(1) – mae'r cais yn un blinderus;
- Adran 14(2) – mae'r cais yn ailadrodd cais blaenorol a wnaed gan yr un unigolyn.

Yn ogystal â'r uchod, mae Rhan II o'r FOIA yn cynnwys sawl esemptiad sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus gadw gwybodaeth yn ôl. Mae'r esemptiadau mwyaf perthnasol at ddibenion y canllawiau hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael (adran 21);
- gwybodaeth a dderbyniwyd gan gyrff diogelwch neu sy'n ofynnol er diogelwch cenedlaethol (adrannau 23 a 24);
- gwybodaeth a fyddai'n niweidio'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (adran 28);
- gwybodaeth a fyddai'n niweidio dibenion penodol o ran gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys atal troseddau (adran 31);
- gwybodaeth sy'n gysylltiedig â ffurfio neu ddatblygu polisi'r llywodraeth (adran 35);
- gwybodaeth a fyddai'n niweidio'r broses o gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (adran 36);
- gwybodaeth bersonol am y ceisydd (adran 40(1)) neu wybodaeth bersonol am rywun heblaw'r ceisydd (adran 40(2));
- gwybodaeth a fyddai'n datgelu gwybodaeth sy'n destun braint broffesiynol gyfreithiol (adran 42).

Mae rhai o esemptiadau Deddf FOIA yn absoliwt, tra bod eraill yn esemptiadau amodol.

Os yw esemptiad absoliwt yn berthnasol, does dim dyletswydd i ryddhau'r wybodaeth. Mae'r esemptiadau absoliwt wedi'u rhestru yn adran 2(3) o'r FOIA. Maent yn cynnwys esemptiad dan adran 40(2) ar gyfer data personol trydydd partïon mewn amgylchiadau lle byddai datgeliad yn torri'r DPA ac adran 41 - lle byddai datgeliad yn torri cyfraith ymddiriedaeth.

Yn achos esemptiad amodol, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus asesu'r cydbwysedd o blaid ac yn erbyn datgeliad, o ran lles y cyhoedd. Mae'r prawf ar gyfer lles y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a yw cadw gwybodaeth yn ôl er lles y cyhoedd yn ddigonol i wrthbwysu datgelu er lles y cyhoedd, trwy ystyried cynnwys y wybodaeth yng ngoleuni'r esemptiad posibl y gellid ei hawlio. Mae'r rhagdybiaeth o blaid datgelu, gan fod rhaid i les y cyhoedd dros gadw gwybodaeth yn ôl fod yn ddigonol i wrthbwysu lles y cyhoedd dros ddatgelu.

Efallai y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus ofyn am gyngor arbenigol pellach os ydyn nhw'n ystyried dibynnu ar esemptiad er mwyn gwrthod rhyddhau gwybodaeth.

## **Beth yw canlyniadau diffyg cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?**

Fel mewn achosion o dorri'r DPA, nid yw diffyg cydymffurfio â'r FOIA yn sail dros adolygiad barnwrol ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cyhoeddus gofio ar bob cam o'u prosesau penderfynu, y gall aelodau'r cyhoedd ofyn am ryddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cam neu'r penderfyniad hwnnw, bod rhagdybiaeth o blaid datgelu, ac y dylid mabwysiadu gweithdrefnau ffeilio a chofnodi priodol.

Gall awdurdod cyhoeddus fod yn torri'r FOIA os yw'n:

- methu ag ymateb yn ddigonol i gais am wybodaeth;
- methu â chyhoeddi'r wybodaeth gywir
- mynd ati'n fwriadol i ddinistrio, cuddio neu newid gwybodaeth er mwyn ei hatal rhag cael ei rhyddhau;

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddyletswydd i ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd. Os yw'n cytuno bod achos o dorri'r FOIA, ac os na chaiff hynny ei ddatrys yn anffurfiol, gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyflwyno hysbysiad o benderfyniad yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus eu dilyn er mwyn unioni'r mater. Gall methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad o benderfyniad olygu y bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ysgrifennu i'r Uchel Lys yn ei hysbysu am y methiant, a allai gael ei drin fel dirmyg llys.



## Astudiaeth achos

### ***Deddf Diogelu Data 1998***

Cafodd Heddlu Dyfed-Powys gosb ariannol o £150,000 gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fethu â chydymffurfio ag egwyddorion diogelu data.

Yn 2015, anfonodd un o heddweision Dyfed-Powys e-bost wedi'i fwriadu ar gyfer cydweithwyr mewnol, a oedd yn cynnwys enw wyth troseddwr rhyw, gan gynnwys eu henwau, eu cyfeiriadau a'u rhifau ffôn, at barti allanol mewn camgymeriad.

Daeth y Comisiynydd Gwybodaeth i'r casgliad bod Heddlu Dyfed-Powys wedi methu â chydymffurfio â seithfed egwyddor diogelu data – sef ei fod wedi methu cymryd mesurau technegol a threfniadol priodol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod. Nododd hefyd fod yr amodau ar gyfer cyflwyno cosb ariannol - gan gynnwys y ffaith

fod y camwedd yn ddifrifol, yn debygol o greu niwed neu boen meddwl sylweddol, ac yn weddol hawdd i'w ragweld – wedi'u bodloni.

Cyflwynodd y Comisiynydd Gwybodaeth ei benderfyniad ar 2 Mehefin 2016, a chodi dirwy o £150,000, i'w thalu erbyn 5 Gorffennaf 2016. Sail resymegol y Comisiynydd dros gyflwyno'r ddirwy oedd er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r DPA ac ategu'r angen i reolwyr data sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol a phriodol yn cael eu defnyddio gyda data personol.



## Astudiaeth achos

### ***Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000***

Hysbysiad o benderfyniad yn erbyn y Swyddfa Gartref, dyddiedig 7 Gorffennaf 2016.

Roedd yr achwynydd wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref ar 7 Rhagfyr 2015, yn gofyn am wybodaeth am Ganolfannau Symud Mewnfudwyr. Ymatebodd y Swyddfa Gartref ar 5 Chwefror 2016, ond heb gynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Atebodd yr achwynydd ar un dyddiad, yn gofyn i'r Swyddfa Gartref gynnal adolygiad mewnol o'r cais. Yr unig ymateb a gafodd yr achwynydd i'r cais hwnnw oedd e-bost ar 9 Mawrth 2016, pan ail-anfonwyd ymateb 5 Chwefror 2016.

Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 28 Mawrth 2016 i gwyno. Cysylltodd y Comisiynydd â'r Swyddfa Gartref, yn gofyn iddi ymateb i gais yr achwynydd, neu esbonio pam nad oedd angen cymryd camau. Ymatebodd y Swyddfa Gartref ar 15 Mehefin 2016, gan dderbyn nad oedd ei hymateb blaenorol wedi

cydymffurfio â'r FOIA a chadarnhaodd y byddai'n anfon ymateb at yr achwynydd erbyn 30 Mehefin 2016. Nid oedd yr ymateb hwnnw wedi'i anfon erbyn dyddiad cyflwyno'r hysbysiad o benderfyniad ar 7 Gorffennaf 2016.

Penderfynodd y Comisiynydd Gwybodaeth fod y Swyddfa Gartref wedi torri adrannau 1(1) a 10(1) o'r FOIA trwy fethu â rhoi gwybod i'r achwynydd a oedd ganddi'r wybodaeth ofynnol yn ei meddiant a thrwy fethu ag ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith yn unol â'r FOIA. Roedd y penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa Gartref ymateb i gais yr achwynydd yn unol â'r FOIA, a nodwyd y gallai diffyg cydymffurfio olygu y byddai'r Comisiynydd yn ysgrifennu at yr Uchel Lys gyda hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, a allai arwain at achos o ddirmyg llys.



## Gair i gall

### Deddf Diogelu Data 1998

- Dylai penderfynwyr ystyried a yw'r cam gweithredu neu'r penderfyniad sy'n cael ei gymryd yn gofyn am brosesu data personol a/neu ddata personol sensitif.
- Lle bydd data personol yn cael ei brosesu, dylai penderfynwyr (a phawb sy'n prosesu data personol) ystyried ai nhw yw'r 'rheolydd data' ar gyfer y data hwnnw.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ba gamau y gellir eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys yr wyth Egwyddor Diogelu Data a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- Dylai awdurdodau cyhoeddus gofio bod pob cais ysgrifenedig am wybodaeth, sut bynnag y'i lluniwyd, yn gais dan yr FOIA (cyn belled â'i fod yn cynnwys enw a chyfeiriad y ceisydd). Dylai swyddogion, yn enwedig rhai sy'n ymdrin â negeseuon gan aelodau'r cyhoedd, dderbyn hyfforddiant priodol er mwyn eu helpu i adnabod ceisiadau FOIA.
- Gall ceisiadau am wybodaeth fod yn niwlog yn aml. Dylai awdurdodau cyhoeddus fynd ati'n rhagweithiol i ganfod hyd a lled y cais trwy ymgysylltu'n gynnar ac ystyrllon â'r ceisydd.
- Dylai systemau priodol gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymateb prydlon i geisiadau ac o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Dylai swyddogion sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau FOIA dderbyn gwybodaeth a hyfforddiant ar esemptiadau FOIA, ac efallai bydd angen iddynt gael cyngor arbenigol pellach cyn penderfynu a yw'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn cwmpas un neu ragor o esemptiadau FOIA.

# 18

## A yw'r penderfynwr yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg?

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer datblygu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg.

---

Mae Gweinidogion y Gymraeg yn paratoi'r safonau ac yn drafftio'r Rheoliadau sy'n eu cynnwys nhw.

---

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dewis pa safonau i'w gorfodi ar sefydliadau unigol trwy hysbysiadau cydymffurfio.

---

Cyn i sefydliad gydymffurfio â safon, mae angen bodloni nifer o amodau.

---

Gall sefydliad herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar y sail a yw'n rhesymol a chymesur ei gwneud hi'n ofynnol iddo wneud hynny.

---

Comisiynydd y Gymraeg fydd â'r cyfrifoldeb am orfodi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau a gall gyflwyno cosbau am ddiffyg cydymffurfio.

---

## Beth yw Safonau'r Gymraeg?

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn darparu ar gyfer datblygu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y safonau'n graddol ddisodli'r system gyfredol o gynlluniau iaith y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gan foderneiddio'r fframwaith safonau cyfredol ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i bob pwrpas.

Mae'r safonau'n cael eu gwneud trwy gael eu dynodi mewn Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Unwaith mae'r Rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, mater i Gomisiynydd y Gymraeg, y sefydlwyd ei swydd gan y Mesur, yw dewis pa safonau i'w gorfodi ar sefydliadau unigol, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn trwy gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad sy'n egluro pa safonau y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw.

Cyn y disgwylir i sefydliad gydymffurfio â safon, mae'n rhaid bodloni nifer o amodau. Maent yn cynnwys bod y sefydliad yn perthyn i (neu o fewn categori yn) Atodlen 5 a 6 neu Atodlen 7 ac 8 i'r Mesur, a bod hysbysiad cydymffurfio wedi'i gyflwyno i'r sefydliad gan y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon. Unwaith mae sefydliad dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon, mae'n berthnasol i sbectrwm eang o weithgareddau'r sefydliad a gall rhai safonau fod yn berthnasol i swyddogaethau gwneud polisiau neu benderfyniadau'r sefydliad.

## Pa fathau gwahanol o safonau y gellir eu creu?

Gall Gweinidogion Cymru bennu 5 math o safon mewn rheoliadau:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau - mae'r rhain yn ymwneud â darparu gwasanaethau er mwyn hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safonau llunio polisi – mae'r rhain yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safonau gweithredu – mae'r safonau hyn yn ymwneud â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gan sefydliadau. Os bydd safonau gweithredu yn cael eu gorfodi ar sefydliad, disgwylir i'r sefydliad hwnnw gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu trefniadau mewnol.
- Safonau hyrwyddo – mae'r rhain yn ymwneud â hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang.
- Safonau cadw cofnodion – mae'r rhain yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i gadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan sefydliad. Bydd y cofnodion yn cynorthwyo'r Comisiynydd i reoleiddio cydymffurfiaeth sefydliad â'r safonau.

## Pa safonau ar gyfer y Gymraeg sydd wedi'u gwneud?

Hyd yma, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo pedair set o Reoliadau sy'n pennu safonau. Wedyn gall y safonau hyn gael eu gorfodi ar y sefydliadau a restrir yn y Rheoliadau (trwy hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir gan y Comisiynydd) os yw'r holl amodau perthnasol yn cael eu bodloni.

Mae'r Rheoliadau wedi'u datblygu fesul sector:

- mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn pennu'r safonau mewn perthynas ag ymddygiad Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 yn pennu'r safonau mewn perthynas â 32 o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, y BBC, S4C, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru;
- mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 yn pennu'r safonau mewn perthynas ag ymddygiad tribiwnlysoedd;
- mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 yn pennu'r safonau mewn perthynas ag ymddygiad yr heddlu a chyrff eraill.

## Sut mae sefydliad yn gwybod pa safonau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw? – Hysbysuadau Cydymffurfio

Mae'r Rheoliadau uchod yn cyflwyno'r safonau amrywiol y gellid eu gosod ar sefydliadau a enwir yn y Rheoliadau hynny. Fodd bynnag, does dim gofyniad ar y Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i bob sefydliad a restrir yn y Rheoliadau gydymffurfio â phob safon. Gall y Comisiynydd benderfynu pa safon(au) i'w gosod ar ba sefydliadau, i ba raddau y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â'r safon, yn ogystal â phennu dyddiad y mae'n ofynnol i sefydliad gydymffurfio â'r safon. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn drwy hysbysiad cydymffurfio.

Felly, bydd gan y Comisiynydd sawl opsiwn wrth benderfynu pa safonau i'w gosod ar sefydliad. Efallai y bydd rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig, ac nid mewn amgylchiadau eraill, yn dibynnu ar beth sy'n briodol iddynt.

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â sefydliad cyn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio iddo.

## A all sefydliad apelio yn erbyn gosod safon?

Gall sefydliad herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail rhesymolrwydd a chymesuredd. Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd. Yna os yw'r sefydliad yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd, gall apelio i Dribiwnlys y Gymraeg a'r Uchel Lys wedi hynny.

## Beth yw'r cosbau am fethu â chydymffurfio â safon?

Cyfrifoldeb y Comisiynydd fydd gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau, a gall gymryd y camau gorfodi canlynol:

- penderfynu a yw am ymchwilio i gwynion statudol dan adran 93 o'r Mesur ar ymddygiad sefydliad mewn perthynas â'r safon y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi;
- ymchwilio dan adran 71 o'r Mesur lle honnir bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon. Os bydd y Comisiynydd, o ganlyniad i ymchwiliad o'r fath, o'r farn bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, bydd yn gallu:
  - ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau er mwyn osgoi sefyllfa lle mae sefydliad yn parhau i fethu â chydymffurfio â'r safon neu'n ailadrodd hynny;
  - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y sefydliad i gydymffurfio;
  - ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio;
  - gosod cosb sifil ar y sefydliad (hyd at £5,000 o uchafswm).





### Gair i gall

- Dylai awdurdodau cyhoeddus ymgysylltu â'r safonau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw trwy droi at reoliadau perthnasol Gweinidogion Cymru a hysbysiad cydymffurfio'r Comisiynydd.
- Bydd y safonau'n berthnasol ar draws ystod eang o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus, a gall rhai safonau fod yn berthnasol i brosesau llunio polisi neu benderfyniadau'r awdurdod cyhoeddus. Dylid cael cyngor arbenigol os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch gofynion y safonau.

